Rhif ymchwil gymdeithasol: 20/2025
Dyddiad cyhoeddi: 05/03/2025

# Gwerthuso’r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy’n Gadael Gofal yng Nghymru: Ail Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83715-379-4

Gwerthuso'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru: Ail Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025

Awduron: Vibhor Mathur[1], Louise Roberts[1], Zoe Bezeczky[1], Harriet Lloyd[1], Dimitris Vallis[2], Michael Sanders[2], Kate E Pickett[4], Matthew Johnson[5], Rod Hick[6], Elizabeth Schroeder[3], Patrick Fahr[3], Stavros Petrou[3], Hannah Lee[1], Sally Holland[1] a David Westlake[1] gyda'r Grŵp Cydgynhyrchu Gwerthuso.

1. Y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
2. Y Sefydliad Polisi, Coleg y Brenin, Llundain
3. Adran Gofal Sylfaenol Gwyddorau Iechyd Nuffield, Prifysgol Rhydychen
4. Yr Adran Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Efrog
5. Yr Adran Gwaith Cymdeithasol, Addysg a Lles Cymunedol, Prifysgol Northumbria
6. Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

Adroddiad Llawn yr Ymchwil: Mathur, V. Roberts, L., Bezeczky, Z, Lloyd, H., Vallis, D., Sanders, M., Pickett, KE, Johnson, M., Hick, R. Schroeder, E. Fahr, P. Petrou, S., Lee, H., Holland, S., a Westlake, D. (2025). *Gwerthuso'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru: Ail Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 20/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-peilot-incwm-sylfaenol-i-pobl-ifanc-syn-gadael-gofal-yng-nghymru-adroddiad-blynyddol-2024-2025

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

*Ymunodd HL â'r tîm ymchwil yn ystod cam dadansoddi'r adroddiad hwn, ac ni sicrhawyd cymeradwyaeth iddi gael mynediad at ddata sensitif tan 09/12/24. Felly, cafodd y dasg o ddadansoddi data nad oedd yn sensitif a drafftio/golygu rhannau o'r testun. Mae ei chyfraniad yn cyrraedd trothwy CASCADE ar gyfer awduraeth adroddiadau.

## Cydnabyddiaethau

Rydym yn ddiolchgar i lawer o bobl a gyfrannodd at yr adroddiad hwn. Hoffem ddiolch yn arbennig i'r bobl ifanc, gweithwyr proffesiynol, a chefnogwyr enwebedig eraill niferus sydd wedi cymryd rhan mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau. Fel y dywedasom yn flaenorol, ni fyddai'r astudiaeth yn bosibl heb eu parodrwydd i rannu profiadau o'r cynllun peilot a'r ymdrechion i'w gefnogi. Mae parodrwydd pobl ifanc ar y cynllun peilot i siarad â ni a rhannu eu profiadau hyd yn hyn wedi bod yn arbennig o werthfawr ac fe'i gwerthfawrogir yn fawr. Gobeithiwn fod y dadansoddiad yma yn adlewyrchu'r hyn a ddywedasoch wrthym.

Mae cefnogaeth barhaus cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn amhrisiadwy, yn enwedig y rheini yn yr Is-adran Trechu Tlodi a Chynorthwyo Teuluoedd a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Maen nhw wedi cydlynu'r gwerthusiad a rhoi adborth ar ddrafftiau cynharach o'r adroddiad hwn, ac roedd rhai swyddogion o'r timau hyn hefyd wedi gweithredu fel cyfranogwyr yn rhai o'r gweithgareddau casglu data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.

Fel bob amser, mae'r adroddiad yn cael ei wella gan y cymorth arbenigol gan sawl cydweithiwr o fewn CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Rachael Vaughan a Josie Keam wedi cydlynu mewnbwn ein grŵp cyd-gynhyrchu gwerthuso mewn partneriaeth â Voices from Care Cymru. Yn ogystal â'u hadran benodol o'r adroddiad hwn, mae'r grŵp yn rhoi cyngor gwerthfawr yn ddiysgog.

Yn olaf, mae'r gwerthusiad yn elwa o ddoethineb ac arbenigedd tri grŵp cynghori arall; y Grŵp Cynghori Strategol Allanol, a benodwyd gennym i'n harwain ar faterion methodolegol ac ymchwil; Grŵp Cynghori Ymchwil a Gwerthuso Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori Technegol annibynnol o arbenigwyr allanol.

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau ........ 3
Rhestr ffigurau ........ 4
Geirfa 5
1. Cyflwyniad ........ 12
2. Cyfraniad gan y grŵp cyd-gynhyrchu gwerthuso ........ 18
3. Y fethodoleg ........ 28
4. Canfyddiadau: Profiadau a safbwyntiau derbynyddion a chefnogwyr ym mlwyddyn gyntaf y cynllun peilot ........ 32
5. Canfyddiadau: Gweithredu cynnar a chyflawni ........ 58
6. Trafodaeth ........ 81
7. Casgliadau a'r camau nesaf ........ 87
Cyfeiriadau ........ 88
Atodiad 1: Disgrifiad byr o'r peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy’n Gadael Gofal yng Nghymru ........ 92
Ffynhonnell, Llywodraeth Cymru 2023 ........ 94
Atodiad 2: Canllaw pynciau cyfweliad enghreifftiol ar gyfer pobl ifanc ........ 95
Atodiad 3: Canllaw pynciau cyfweliad enghreifftiol ar gyfer oedolion sy’n gefnogwyr96
Atodiad 4: Canllaw pynciau grŵp ffocws enghreifftiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol97
Atodiad 5: Canllaw pynciau grŵp ffocws enghreifftiol ar gyfer tîm polisi Llywodraeth Cymru ........ 99
Atodiad 6: Trosolwg lefel uchel o rai dyddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun peilot a'i weithredu. ........ 101

## Rhestr tablau

Tabl 1. Cyfranogiad mewn gweithgareddau casglu data ansoddol .......................................29
Tabl 2. Statws addysg neu waith adroddedig pobl ifanc .......................................................33

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1. Tueddiadau o ran cyhoeddi erthyglau yn y cyfryngau sy'n sôn am y cynllun peilot (Gorffennaf 2021 i Hydref 2024)....76

## Geirfa

### Cymorth ychwanegol / cymorth anariannol

Darparu cyngor wedi'i deilwra trwy ddarparwyr y Gronfa Gynghori Sengl (Cyngor ar Bopeth Cymru)

### Fforwm Gadael Gofal Cymru Gyfan

Cyfarfod rheolaidd o aelodau timau gadael gofal y 22 awdurdod lleol i rannu diweddariadau polisi ac ymarfer.

### Penodai / dirprwy

Unigolyn a benodir i reoli materion ariannol rhywun sy'n gadael gofal nad yw’n gallu ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn ei hun, o bosibl. Yn aml, darperir y cymorth hwn pan fydd pobl ifanc 'heb allu meddyliol' i wneud penderfyniadau penodol, er enghraifft oherwydd anaf difrifol i'r ymennydd neu anableddau dysgu difrifol.

### Incwm sylfaenol

Mae incwm sylfaenol yn daliad arian parod cyfnodol a gyflwynir yn ddiamod i bawb yn unigol, heb brawf modd na gofyniad i weithio.

### Cyfrifiad 'Gwell eich byd'

Fe’i cynigiwyd cyn y cynllun peilot a thrwy gydol y cynllun peilot i dderbynwyr cymwys er mwyn deall a fyddai'r unigolyn hwnnw'n 'well ei fyd’ trwy fod ar y cynllun peilot ai peidio. Fe ddylai hyn nid yn unig ystyried materion ariannol, ond hefyd cymorth ehangach y gallent fod â’r hawl i’w dderbyn neu beidio.

### BIP

Term byr a ddefnyddir gan randdeiliaid i gyfeirio at y cynllun peilot. Er nad yw hwn yn derm swyddogol, fe'i defnyddir gan gyfranogwyr yr ymchwil ac mae wedi’i gynnwys mewn rhai dyfyniadau.

### Cyngor ar Bopeth Cymru

Rhwydwaith o elusennau annibynnol, seiliedig ar ardal sy'n cynnig cyngor annibynnol a diduedd am ddim i unrhyw un. Roedd y gwasanaeth yn gysylltiedig â datblygu’r gwasanaeth lles cymdeithasol i ddechrau, ac mae meysydd cymorth yn cynnwys: budd-daliadau, gwaith, dyled ac arian, hawliau defnyddwyr, tai, teulu, y gyfraith a llysoedd, mewnfudo ac iechyd. Darparodd y sefydliad gyngor ariannol a chymorth ychwanegol i dderbynwyr y Cynllun

Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy’n Gadael Gofal yng Nghymru trwy'r Gronfa Gynghori Sengl. Weithiau, gelwir y sefydliad yn Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac yn aml cyfeirir ato fel CAB gan gyfranogwyr yn yr astudiaeth hon.

**Dadansoddiad Canlyniadau a Chostau**

Math o werthusiad economaidd sy’n cyflwyno costau wedi’u dadgyfuno ac ystod o ganlyniadau. Argymhellir Dadansoddiadau Canlyniadau a Chostau ar gyfer ymyriadau cymhleth a allai fod â nifer o oblygiadau, ac ar gyfer ymyriadau iechyd y cyhoedd a allai fod ag amrywiaeth o fuddion sy'n anodd eu cyfosod mewn uned gyffredin.

**Taliad uniongyrchol i landlord**

Opsiwn i ddyrannu cyfran o incwm sylfaenol derbynnydd i'w thalu tuag at ei rent. Mae landlordiaid yn cael eu talu unwaith y mis, naill ai ar y 15fed neu'r 22ain o'r mis. Mae swm eu taliad yn cael ei dynnu o daliadau'r person ifanc, gan leihau'r swm y mae'r person ifanc yn ei dderbyn yn unol â hynny.

**Derbynnydd cymwys**

Person ifanc a oedd yn ymadawr gofal Categori 3 (fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) ac a drodd yn 18 oed rhwng 01 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 (ar ôl troi'n 18 oed, daw ymadawr gofal Categori 1 neu 2 yn ymadawr gofal Categori 3).

**Mis cofrestru**

Y mis cofrestru ar gyfer yr holl dderbynwyr yw mis eu pen-blwydd yn 18 oed. O ran ymgeiswyr hwyr, fe allai hyn fod y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed.

**Cyn-blentyn digwmni a oedd yn ceisio lloches (UASC)**

Yng nghyd-destun y cynllun peilot hwn, ymadawr gofal Categori 3 cymwys a oedd yn Blentyn Digwmni sy’n Ceisio Lloches pan oedd yn iau na 18 oed ac sydd wedyn yn cael ei ddosbarthu’n ‘gyn’ UASC wrth droi'n 18 oed.

**Gofal maeth**

Mae gofal maeth yn ffordd o gynnig cartref i blant a phobl ifanc tra nad yw eu teulu eu hunain yn gallu gofalu amdanynt. Yn ôl Maeth Cymru, mae tua 70% o blant sy'n derbyn gofal oddi cartref yng Nghymru yn byw gyda theuluoedd maeth. Yn wahanol i fabwysiadu, lle mae gwarcheidiaeth gyfreithiol plant yn cael ei throsglwyddo o'u teulu biolegol, mae gofalwyr maeth yn darparu gofal nes bod y plentyn naill ai'n dychwelyd i'w deulu biolegol,

neu'n symud i rywle arall, gan gynnwys allan o'r system ofal pan fydd yn oedolyn. Gall y trefniant hwn bara am flynyddoedd lawer.

**Penaethiaid Gwasanaethau Plant**

Mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant yn uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am wasanaethau plant mewn awdurdodau lleol. Maen nhw fel arfer yn gosod cyfeiriad strategol y gwasanaeth, ac yn darparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth, arweiniad a chefnogaeth i uwch reolwyr eraill.

**Cyllid a Thollau EF (CThEF)**

CThEF yw awdurdod treth, taliadau a thollau'r Deyrnas Unedig. Dyma adran llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am drin trethi a rheoleiddio yswiriant gwladol, ymhlith swyddogaethau ariannol eraill.

**Taliad Cymorth i Unigolion**

Mae'r Taliad Cymorth i Unigolion yn grant a ddarperir gan y Gronfa Cymorth Dewisol sy'n ceisio helpu unigolion a allai fod yn agored i niwed, fel y rhai sy'n gadael cartref gofal neu sefydliad neu'r rhai sy'n symud cartref oherwydd trais domestig i fyw'n annibynnol yn eu cartref. Gellir ei ddefnyddio i ddarparu 'nwyddau gwyn' (e.e. oergell, peiriant golchi) a dodrefn cartref eraill (e.e. gwelyau, soffas) pan nad oes gan yr unigolyn fynediad i unrhyw ffynonellau cyllid eraill.

**Gofalwr sy'n berthynas**

Mae gofalwr sy'n berthynas yn oedolyn sy'n gofalu am blentyn neu blant perthynas neu ffrind agos yn amser llawn.

**Ymgeisydd hwyr**

Derbynnydd a ymunodd â'r cynllun peilot yn hwyrach na'i fis cofrestru disgwyliedig. Mae rhai pobl ifanc wedi ymuno â'r cynllun peilot yn hwyrach na'r bwriad, oherwydd rhesymau gweinyddol neu bersonol. Mae'r bobl ifanc hyn yn dal i gael gwerth 24 mis o daliadau.

**Rheolwyr tîm gofal gadael**

Y rhai sy'n gyfrifol am y tîm o gynghorwyr pobl ifanc mewn awdurdod lleol. Fel arfer, mae ganddyn nhw gymhwyster gwaith cymdeithasol.

**Cymorth cyfreithiol**

Mae cymorth cyfreithiol yn ddarpariaeth sy’n dibynnu ar brawf modd ar gyfer pobl na allant fforddio talu am gyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth yn y llys gan gyfreithiwr neu fargyfreithiwr, gan gynnwys achosion yn ymwneud â lloches a mewnfudo.

**Awdurdod lleol**

Mae 22 o awdurdodau lleol (cynghorau) yng Nghymru sy'n ffurfio haen llywodraeth leol etholedig Cymru. Maen nhw fel arfer yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant.

**Taliad misol**

Mae'r derbynnydd wedi dewis derbyn un taliad y mis. Bydd yn derbyn £1,280 yn uniongyrchol (yn glir o dreth) oni bai ei fod hefyd wedi dewis taliadau uniongyrchol i landlordiaid. Os felly, bydd ei daliad a dderbynnir yn cael ei ostwng yn unol â hynny. Mae treth o £320 yn cael ei thalu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i CThEF.

**Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG)**

Gwasanaethau meddygol a gofal iechyd a ariennir gan y Llywodraeth y gall pawb yn y Deyrnas Unedig eu defnyddio heb ofyn iddynt dalu am gost lawn y gwasanaeth. Sefydlwyd y GIG yn rhan o ddiwygiadau cymdeithasol mawr yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Yr egwyddorion sylfaenol oedd y dylai gwasanaethau fod yn gynhwysfawr, yn gyffredinol, ac am ddim yn y man cyflwyno. Mae mwy nag un GIG yn y Deyrnas Unedig, sef GIG Cymru, GIG Lloegr a GIG yr Alban.

**Amlder talu**

Yr amserlen daliadau yn unol â’r opsiwn a ddewiswyd gan y derbynnydd e.e. unwaith y mis neu ddwywaith y mis.

**Ymgynghorydd Personol / Ymgynghorydd Person Ifanc (y cyfeirir ato’n aml fel PA)**

Ymarferydd sy'n gweithio'n uniongyrchol i gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae Cynghorydd Personol yn gyfrifol am weithio gyda phobl ifanc sydd wedi gadael gofal yr awdurdod lleol (ac mae’n aml mewn cysylltiad â nhw cyn hyn er mwyn pontio mor ddidrafferth â phosibl o ddarpariaeth gweithiwr cymdeithasol). Mae Cynghorwyr Personol hefyd yn cyfrannu at gynlluniau llwybr a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n gywir.

**Hyd y cynllun peilot**

Hyd y cynllun peilot ar gyfer derbynwyr, sef uchafswm o 24 mis.

**Ymarferydd / ymarferwyr**

Y rhai sy'n gweithio i gyflwyno'r cynllun peilot.

**Y Cyflog Byw Gwirioneddol**

Cyfradd incwm a gyfrifir yn annibynnol yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar bobl ar gyfer safon byw gweddus. Mae swm taliad y cynllun peilot, a gyfrifir yn flynyddol gan y Resolution Foundation ac a oruchwylir gan y Comisiwn Cyflog Byw, yn seiliedig ar y gyfradd ym mis Tachwedd 2021 am yr hyn sy'n gyfwerth ag wythnos waith 37 awr.

**Gwerthusiad Realaidd**

Dull o werthuso wedi'i seilio ar y rhagosodiad bod unrhyw ymyrraeth a luniwyd i ddatrys problem gymdeithasol yn dibynnu ar benderfyniadau dynol yn ogystal â ffactorau eraill er mwyn iddi weithio. Mae hyn yn golygu y gallai'r un ymyrraeth a weithredir mewn cyd-destun gwahanol weithio (neu beidio) trwy ddulliau gwahanol ac felly cynhyrchu canlyniadau gwahanol. Yn hytrach na phennu 'effaith gyffredin' polisi, mae gwerthusiadau realaidd yn ceisio esbonio beth sy'n gweithio, i bwy ac ym mha amgylchiadau.

**Derbynnydd**

Derbynnydd incwm sylfaenol am fis o daliad o leiaf. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi tynnu'n ôl o'r cynllun peilot neu sydd wedi cwblhau eu cyfranogiad ynddo.

**Cronfa Gynghori Sengl**

Mae'r Gronfa Gynghori Sengl yn helpu i ddarparu 'gwasanaethau gwybodaeth a chyngor lles am ddim i'r cleient' er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i unigolion sy'n ceisio cyngor. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am wasanaethau cyngor.

**Dadansoddiad cost a budd cymdeithasol**

Estyniad o ddadansoddiad cost a budd, wedi'i addasu i ystyried y sbectrwm llawn o gostau a buddion (gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol) y mae cymdeithas gyfan yn eu hwynebu o ganlyniad i ymyrraeth neu raglen.

**Cronfa Dydd Gŵyl Dewi**

Cronfa a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i gefnogi pobl ifanc sydd neu sydd wedi bod mewn gofal awdurdodau lleol. Mae'n rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol ac fe'u hanogir i fod yn hyblyg a chreadigol wrth benderfynu sut i'w defnyddio i ddiwallu anghenion pobl ifanc orau yn yr un modd ag y gallai rhieni biolegol gefnogi eu plant yn ariannol.

**Tai / llety â chymorth**

Math o lety sydd hefyd yn darparu cymorth ychwanegol, fel gofal a goruchwyliaeth.

**Cefnogwyr**

Gofynnodd y tîm gwerthuso i dderbynwyr a gymerodd ran mewn cyfweliadau neu grwpiau ffocws a oedd unrhyw un yn eu bywydau a oedd yn eu cefnogi a fyddai'n fodlon siarad â'r ymchwilwyr am effaith y cynllun peilot arnynt. Roedd y rhai a enwebwyd amlaf yn cynnwys eu Cynghorydd Pobl Ifanc, eu rhieni biolegol, gofalwr sy'n berthynas neu ofalwr maeth. Mae'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda 'chefnogwyr' yn canolbwyntio ar yr effaith ar y person ifanc ac felly'n cael eu trin ar wahân i drafodaethau â gweithwyr proffesiynol am eu profiadau eu hunain o'r cynllun peilot a'r effaith ar eu llwyth achosion yn gyffredinol.

**Taliad dwywaith y mis**

Mae'r derbynnydd wedi dewis derbyn ei incwm sylfaenol wedi'i rannu'n ddau daliad bob mis. I'r rhai sydd heb daliadau uniongyrchol i landlordiaid, mae hyn yn golygu dau daliad o £640 bob mis (yn glir o dreth). I'r rhai sydd â thaliadau uniongyrchol i landlordiaid, caiff eu taliadau a dderbynnir eu gostwng yn unol â hynny.

**Diamod**

Mae hyn yn ymwneud â defnyddio'r incwm. Nid oes unrhyw ofynion na disgwyliadau ynghlwm wrth y taliadau incwm sylfaenol, a chaiff y derbynwyr ddewis beth i'w wneud â'u hincwm.

**Incwm Sylfaenol Cyffredinol**

Taliad rheolaidd a roddir i bawb mewn cymdeithas er mwyn creu llawr isafswm incwm. Mae'r arian yn ddiamod yn yr ystyr ei fod yn cael ei dalu i bobl mewn unrhyw amgylchiadau ac nid yw'r ffyrdd y gellir ei wario yn cael eu pennu.

**Credyd Cynhwysol**

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd sy'n disodli ystod o fudd-daliadau a chredydau treth yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Budd-dal Tai, cymorth i bobl ddi-waith (Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm), y rhai sydd ar incwm is (Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant), neu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n effeithio ar faint o waith y gallant ei wneud (Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm). Nid yw'n disodli budd-daliadau i helpu gyda chostau byw ychwanegol i'r rhai sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor neu anabledd ac

sy'n cael trafferth gwneud tasgau pob dydd penodol oherwydd eu cyflwr (Lwfans Byw i'r Anabl, sydd wedi'i ddisodli gan y Taliad Annibyniaeth Personol). Telir Credyd Cynhwysol yn fisol fel swm sengl ac mae'n cynnwys 'lwfans safonol' sylfaenol a thaliadau atodol ar gyfer y rhai sy'n bodloni meini prawf ychwanegol.

**Pan Fyddaf yn Barod**

Mae 'Pan Fyddaf yn Barod' yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth pan fyddant yn troi'n 18 oed, hyd at 21 oed, neu hyd at 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arni. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 ac mae'n debyg mewn sawl ffordd i'r cynllun 'Staying Put' yn Lloegr, neu leoliadau 'Gofal Estynedig' yn rhyngwladol. Nid yw pobl ifanc dros 18 oed 'mewn gofal' nac yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol yn gyfreithiol mwyach, felly nid yw hyn yn cyfrif fel 'lleoliad' maeth. Yn hytrach, fe'i hystyrir yn 'drefniant byw ôl-18', sy'n golygu bod y person ifanc yn lletya yn y cartref, i bob pwrpas, a bod y gofalwr yn dod yn landlord y person ifanc (ac felly'n cael ei dalu ar y sail hon yn unig). Fodd bynnag, mae'r disgwyliad bod gofalwr maeth yn gofalu am blentyn sydd wedi'i leoli gydag ef fel petai'n aelod o'i deulu ei hun yn parhau trwy'r trefniant 'Pan Fyddaf yn Barod.'

# 1. Cyflwyniad

1.1 Lansiwyd y cynllun peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru (y cyfeirir ato yma fel 'y cynllun peilot') ym mis Gorffennaf 2022 a rhoddwyd y taliadau cyntaf i'r derbynyddion ym mis Awst 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022a). Mae'r gwaith o werthuso'r cynllun bellach yn ei drydedd flwyddyn. Dyma ail adroddiad blynyddol y gwerthusiad, yn dilyn yr adroddiad blaenorol yn gwerthuso'r peilot incwm sylfaenol i pobl ifanc sy'n gadael gofal a gyhoeddwyd yn 2024 ac a oedd yn cyflwyno'r canfyddiadau cychwynnol (Holland et al., 2024). Mae protocol yr astudiaeth, sy'n disgrifio dyluniad a dulliau'r gwerthusiad yn fanylach, hefyd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar (Westlake et al., 2024).

1.2 Mae'r gyfres o adroddiadau, a gyhoeddir yn ystod chwarter cyntaf pob blwyddyn, yn canolbwyntio ar wahanol rannau o'r astudiaeth wrth i ganlyniadau a chanfyddiadau ddod ar gael. Archwiliodd yr adroddiad blaenorol ganfyddiadau a phrofiadau ymarferwyr yn ystod camau cynnar y cynllun peilot, archwiliodd y sail ddamcaniaethol y cychwynnwyd y cynllun peilot arni, a chyflwynodd ddata disgrifiadol am y garfan o bobl ifanc dan sylw.

1.3 Yr adroddiad hwn yw'r cyfle cyntaf i glywed yn uniongyrchol gan y bobl ifanc sy'n derbyn yr incwm sylfaenol, trwy ddadansoddi cyfweliadau a gynhaliwyd â'r derbynyddion yn ystod camau cynnar y cynllun peilot. Yn ogystal, rydym yn cynnwys cyfraniad gan ein grŵp cyd-gynhyrchu gwerthuso o bobl ifanc sy'n cyfarfod yn rheolaidd i'n cefnogi a'n cynghori wrth i ni gynnal yr astudiaeth. Yn olaf, mae dadansoddiad cychwynnol o sut mae'r cynllun peilot yn cael ei weithredu wedi'i gynnwys. Byddwn yn dychwelyd i bob un o'r meysydd dadansoddi hyn mewn adroddiadau diweddarach, pan fydd mwy o ddata wedi'i gasglu ar wahanol gamau o'r cynllun peilot. Tua diwedd yr astudiaeth, byddwn hefyd yn adrodd ar ddadansoddiadau meintiol o'r effaith ar ganlyniadau allweddol, a chost-effeithiolrwydd.

### Trosolwg o'r cynllun peilot

1.4 Mae'r cynllun peilot yn unigryw mewn sawl ffordd, ac felly wedi denu llawer iawn o ddiddordeb o fewn y Deyrnas Unedig a ledled y byd. Nid oes cynllun o'r fath wedi rhoi taliadau rheolaidd mor sylweddol â'r rhai a gafodd eu derbyn gan bobl ifanc a oedd yn rhan o'r cynllun arbrofol hwn, ac nid oes unrhyw gynlluniau incwm sylfaenol eraill wedi bod yn agored i garfan genedlaethol o bobl sy'n gadael gofal o 18 oed yn derbyn taliadau am hyd at ddwy flynedd. Mae mwy o fanylion am natur y cynllun peilot ar gael gan Lywodraeth Cymru[1], ond disgrifiwn agweddau allweddol y cynllun yn fyr yma.

[1] Cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal: trosolwg o'r cynllun.

1.5 Cyn i ni drafod ymarferoldeb pwy sy'n gymwys a sut mae'r taliadau incwm sylfaenol yn cael eu rhoi, mae'n werth nodi bod y cynllun peilot yn seiliedig ar bedair egwyddor allweddol. Disgrifiwyd y rhain gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS[2] yn ei Datganiad Ysgrifenedig 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022b):

- Ni ddylai cymryd rhan yn y cynllun peilot wneud unrhyw dderbynnydd yn waeth ei fyd.
- Ni ddylid gosod unrhyw amodau ar yr incwm a dderbynnir.
- Dylid talu'r un taliad i bawb.
- Ni fydd y taliad yn cael ei newid hanner ffordd drwy'r cynllun peilot.

1.6 Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid i berson ifanc fod yn ymadawr gofal categori 3. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt fod wedi derbyn gofal gan un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru am gyfnod o 13 wythnos o leiaf[3], yn dechrau ar ôl eu pen-blwydd yn 14 oed ac yn gorffen ar ôl iddynt gyrraedd 16 oed. Wrth gofrestru, mae'n rhaid iddynt fod wedi preswylio yng Nghymru neu'n cael cymorth fel person sy'n gadael gofal gan adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru ac yn byw yn rhywle arall.

1.7 I'r rhai a oedd yn bodloni'r meini prawf hyn, roedd gan y cynllun peilot gyfnod cofrestru yn para 12 mis, rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 ar gyfer pawb a gafodd ben-blwydd yn 18 oed yn ystod y cyfnod hwnnw. I'r rhai a gofrestrodd, dechreuodd y trosglwyddiad y mis ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed a pharhaodd am 24 mis[4]. Cyfanswm y taliad incwm sylfaenol yw £1,600 gros y mis, sy'n cael ei drethu o flaen llaw fel bod y derbynyddion yn cael swm net o £1,280 bob mis[5]. Gall derbynyddion yr incwm sylfaenol ddewis p'un a gaiff ei dalu mewn un trosglwyddiad misol o'r swm llawn, neu drosglwyddiadau dwywaith y mis o hanner y swm. Gallant hefyd ddewis cael costau tai eu talu o'r incwm sylfaenol yn uniongyrchol i'w landlordiaid. Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol, fe allai rhai pobl ifanc fod yn gymwys i gael ad-daliadau treth ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol maen nhw'n derbyn taliadau incwm sylfaenol. Pan ddatblygwyd y polisi yn 2021/22, gosodwyd lefelau'r taliad i gyd-fynd yn fras â'r Cyflog Byw Gwirioneddol (Cyflog Byw Cymru, 2023) ar gyfer gweithiwr amser llawn bryd hynny. Mae'r taliadau hyn yn ddiamod, yn unol â'r ail egwyddor a grybwyllwyd uchod, a chyda'r syniad y dylai derbynyddion fod yn rhydd i wneud eu dewisiadau bywyd eu hunain heb gael eu gorfodi i ddilyn llwybr penodol.

[2] Teitl blaenorol: Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.
[3] Neu gyfnodau lluosog sy'n cyfateb i 13 wythnos o leiaf.
[4] Ac eithrio rhai a gofrestrodd yn hwyr am resymau a oedd y tu allan i'w rheolaeth, ac felly a ddechreuodd dderbyn taliadau yn fuan ar ôl yr adeg hon.
[5] Bydd rhai derbynyddion yn gymwys i gael ad-daliad treth yn dibynnu ar enillion trethadwy eraill, fel enillion o gyflogaeth.

1.8 Yn ogystal â'r taliadau incwm sylfaenol bob mis, mae'r bobl ifanc dan sylw hefyd yn gymwys i gael cymorth ynglŷn â chyllidebu a rheoli cyllid yn rhan o'r cynllun peilot. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae hyn yn cael ei ddarparu gan Gyngor ar Bopeth Cymru, ond mae rhai awdurdodau lleol yn darparu cyngor ariannol trwy ddarparwyr eraill. Cynlluniwyd yr elfen hon o'r cynllun peilot i gynnig cyngor ariannol a chymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc unigol, gan gynnwys 'cyfeirio a chymorth ychwanegol yn ymwneud â lles, addysg, gwaith, yn ogystal â chyngor ariannol ehangach' (Llywodraeth Cymru, 2022a). Fel rhan o'r penderfyniad i gofrestru ar y cynllun peilot, roedd cyfrifiad 'Gwell eich Byd' dewisol ar gael i lywio'r penderfyniad hwn ac amcangyfrif p’un a fyddai'r incwm sylfaenol yn gyfystyr â chynnydd net yn incwm unigolyn ai peidio.

1.9 Ni fwriedir i unrhyw agwedd ar y cynllun peilot effeithio ar eu cymhwysedd am wasanaethau arferol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor gyntaf a grybwyllwyd uchod ac yn adlewyrchu awydd i ychwanegu at y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal yn hytrach na disodli'r ddarpariaeth bresennol. Fel rhai sy'n gadael gofal, mae pobl ifanc yn gymwys i gael ystod o wasanaethau, gan gynnwys cymorth gan 'Gynghorydd Person Ifanc' a ddyrannwyd, sy'n darparu cyngor a chymorth un-i-un ynglŷn ag agweddau amrywiol ar fywyd. Maen nhw hefyd wedi'u heithrio rhag talu’r dreth gyngor, yn gymwys ar gyfer bwrsariaethau addysg uwch a thaliadau costau byw, a gallant wneud cais am grantiau ariannol trwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, sy'n cael ei gweinyddu gan awdurdodau lleol ochr yn ochr â mathau lleol o gymorth.

1.10 Mae'r cynllun peilot wedi bod yn boblogaidd, gyda 97% o’r bobl ifanc a oedd yn gymwys yn cymryd rhan (n= 644; Llywodraeth Cymru 2024).

1.11 Mae gan y cynllun peilot strwythur llywodraethu sy'n cynnwys Grŵp Llywio, Grŵp Gweithredol, Grŵp Cynghori Ymchwil a Gwerthuso a Grŵp Cynghori Technegol annibynnol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys gweision sifil ac arbenigwyr annibynnol, a'u swyddogaeth yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ddylunio a chyflwyno'r cynllun peilot. Yn ogystal, mae gan y gwerthusiad grŵp cynghori ar wahân, sy'n cynnwys arbenigwyr o wahanol feysydd astudio academaidd ac ymarfer proffesiynol.

**Trosolwg o'r gwerthusiad**

1.12 Dechreuodd y gwerthusiad a gomisiynwyd ym mis Tachwedd 2022 a disgwylir iddo ddod i ben yn 2027. Mae sawl agwedd ar y cynllun peilot o fewn cwmpas y gwerthusiad. Byddwn yn mesur ei effaith ar y gwahanol feysydd o fywydau derbynyddion y manylwn arnynt isod. Byddwn hefyd yn archwilio sut mae'r cynllun yn cael ei weithredu, agweddau a phrofiadau'r rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig, a chost-effeithiolrwydd y cynllun peilot o safbwynt sector cyhoeddus a

chymdeithasol. Mae'r cwestiynau ymchwil canlynol yn ymdrin â'r agweddau gwahanol hyn ar y cynllun:

- Cwestiwn Ymchwil 1: Beth yw effaith y cynllun peilot?
- Cwestiwn Ymchwil 2: A yw'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd?
- Cwestiwn Ymchwil 3: Sut brofiad yw'r cynllun peilot?
- Cwestiwn Ymchwil 4: Sut mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol i bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru?
- Cwestiwn Ymchwil 5: Pa mor gost-effeithiol yw'r cynllun peilot?

1.13 Mae protocol yr astudiaeth (Westlake et al., 2024) yn disgrifio ein dull o ateb y cwestiynau hyn yn fanylach. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb helaethach o gefndir y cynllun peilot, trafodaeth o ymchwil flaenorol ar y pwnc, a'r heriau a'r cyfyngiadau a wynebwn wrth gynnal yr astudiaeth hon.

1.14 Mae'r gwerthusiad wedi'i gynllunio o amgylch pum maes craidd o'r enw 'pecynnau gwaith.' Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

**a. Cyd gynhyrchu**

Mae cyd-gynhyrchu yn sail i'r astudiaeth ac mae dulliau cyfranogol yn bwydo i mewn i'r dylunio a'r casglu data. Mae grŵp o oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal, sy'n byw mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd addysgol, cyflogaeth a thai, yn cyfarfod yn rheolaidd i roi cyngor. Eu rôl yw cyd-greu cwestiynau ymchwil ac offerynnau casglu data, ystyried cwestiynau moesegol a dadansoddol a chynghori ar oblygiadau polisi ac ymarfer. Mae saith cyfarfod o'r fath wedi cael eu cynnal hyd yma, pob un ohonynt yn cynnwys 6-10 o bobl ifanc, ac mae cyngor y grŵp wedi llywio penderfyniadau allweddol yn sylweddol. Mae enghreifftiau o newidiadau a phenderfyniadau a wnaed ar y cyd â'r grŵp hwn yn cynnwys pa fesurau arolwg i'w dewis, cwestiynau grŵp ffocws i gynghorwyr pobl ifanc a newid i'r weithdrefn i ganiatáu i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfweliadau ansoddol mewn parau neu grwpiau bach, yn hytrach nag yn unigol yn unig, os ydynt eisiau.

**b. Gwella theori**

Mae'r astudiaeth yn werthusiad seiliedig ar theori, ac mae'n defnyddio technegau a lywiwyd gan werthuso realaidd (Chen, 2014; Pawson, 2013; Pawson a Tilley, 1997). Mantais y dull hwn yw ei fod yn addo cipolwg ar sut a pham y gallai'r cynllun peilot gael yr effeithiau bwriadedig ar gyfer y gwahanol bobl sy'n gysylltiedig neu beidio.

**c. Gwerthuso effaith**

Mae effaith y cynllun peilot yn cael ei mesur yn ôl sawl canlyniad, fel y gallwn weld ym mha ffyrdd a faint o effaith y mae'n ei chael ar gyfer y bobl ifanc dan

sylw. Mae'r canlyniadau o ddiddordeb ar gyfer y cynllun peilot, a bennwyd ar y dechrau gan Lywodraeth Cymru, yn perthyn i'r categorïau canlynol:

(1) lles
(2) llythrennedd / diogelwch ariannol
(3) cydlyniant cymunedol / ymgysylltu
(4) effeithiau tlodi
(5) mynediad at farchnadoedd llafur ac addysg
(6) gwirfoddoli a sgiliau bywyd
(7) iechyd corfforol a meddyliol.

**d. Gweithredu a gwerthuso'r broses**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar sut mae'r cynllun peilot yn cael ei weithredu, ei ddarpariaeth barhaus, a sut mae'r cynllun yn cael ei brofi a'i ystyried gan y rhai sy'n gysylltiedig. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn archwilio sut mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru, gan gynnwys croestoriadau â gwasanaethau presennol. Cafodd elfennau ansoddol y pecyn gwaith hwn eu gwella a'u hymestyn yn 2023, pan ddaeth rhagor o arian ar gael. Mae hyn yn cynyddu cwmpas yr astudiaeth er mwyn deall profiad byw y bobl ifanc dan sylw.

**e. Gwerthusiad economaidd**

Bydd y gwerthusiad economaidd yn ystyried p'un a yw'r cynllun peilot yn cynrychioli gwerth am arian o ran y canlyniadau a gyflawnwyd. Ei nod yw cyfuno costau a chanlyniadau'r cynllun peilot, er mwyn llywio dadansoddiad cost a budd cymdeithasol. Mae dadansoddiad cost a budd cymdeithasol yn estyniad o ddadansoddiad cost a budd, wedi'i addasu i ystyried y sbectrwm llawn o gostau a buddion (gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol) y mae cymdeithas gyfan yn eu hwynebu o ganlyniad i ymyrraeth neu raglen. Bydd dadansoddiad canlyniadau a chostau ychwanegol yn edrych ar ystod o ganlyniadau allweddol i archwilio lles pan fydd y data'n caniatáu, ac agweddau ar gyrhaeddiad addysgol, ymgysylltu â'r farchnad lafur a sicrwydd ariannol.

1.15 Mae'n rhaid i'r holl ymchwil a wneir gan Brifysgol Caerdydd gael adolygiad moesegol. Ystyriwyd yr astudiaeth hon gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd ac fe'i cymeradwywyd ym mis Ionawr 2023 o dan y cyfeirnod SREC/323. Cymeradwywyd diwygiad, i gynnwys dulliau ansoddol ychwanegol, ar 20 Mehefin 2023. Cyn hynny, cafwyd cymeradwyaeth foesegol i Coram Voice[6] weinyddu'r arolwg gan Brifysgol Rhydychen o dan y

[6] Elusen hawliau plant yw Coram Voice a gomisiynwyd ar wahân gan Lywodraeth Cymru i gasglu data arolwg gan gyfranogwyr y cynllun peilot.

cyfeirnod CIA-22TT-149. Mae'r astudiaeth hefyd yn cael ei chynnal yn unol ag egwyddorion moesegol / rhestr wirio Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth.

### Nodau a chwmpas yr adroddiad hwn

1.16 Mae'r adroddiad hwn yn agor gyda diweddariad gan ein grŵp cyd-gynhyrchu. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn cyfarfod ers mis Rhagfyr 2022, yn fuan ar ôl i'r gwerthusiad ddechrau. Mae wedi cyfarfod naw gwaith hyd yn hyn ac mae'n cynnwys oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal a oedd yn rhy hen i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun peilot. Mae'r rhan fwyaf yn eu hugeiniau cynnar, mae ganddynt ystod eang o brofiadau personol, cyflogaeth ac addysgol, ac maen nhw'n dod o bum ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Nod yr adran hon yw galluogi ein partneriaid cyd-gynhyrchu i adrodd yn uniongyrchol ar eu profiadau hyd yn hyn wrth weithio gyda'r astudiaeth ymchwil, ac mae'r grŵp wedi penderfynu ar y cyd ar fformat a chynnwys yr adran honno. Bydd y grŵp yn adrodd eto yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.

1.17 Yn dilyn y cyflwyniad a'r adroddiad gan ein grŵp cyd-gynhyrchu, byddwn yn canolbwyntio ar y ddau faes dadansoddi a nodwyd uchod: profiadau cyfranogwyr a gweithredu cychwynnol. Mae'r rhain yn ymwneud â Chwestiynau Ymchwil 2 a 3: ‘A yw'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd?’, a ‘Sut brofiad yw'r cynllun peilot?’

1.18 Mae'r adran profiadau cyfranogwyr yn cyflwyno safbwyntiau a phrofiadau cynnar gan bobl ifanc sy'n derbyn yr incwm sylfaenol. Mae safbwyntiau wyth oedolyn sy'n ‘gefnogwyr’ a enwebwyd gan y cyfranogwyr hyn wedi'u cynnwys hefyd. Nod yr adran hon o'r adroddiad yw amlygu profiadau buddiolwyr bwriadedig y cynllun peilot. Adroddir ar eu profiadau a'u safbwyntiau amrywiol ynglŷn â'r incwm, a gwneir cymariaethau â safbwyntiau a phrofiadau ymarferwyr a gynhwyswyd yn yr adroddiad gwerthuso cyntaf.

1.19 Mae'r adran gweithredu cychwynnol yn amlinellu'r daith wrth roi'r cynllun peilot ar waith, o'i ddylunio, ei lansio, a phrofiadau cychwynnol ohono. Dyma'r rhan gyntaf o'r dadansoddiad o sut y rhoddwyd y cynllun peilot ar waith, ac mae'n darparu dadansoddiad disgrifiadol o'r camau gweithredu cynnar. Mae'n ystyried profiadau, heriau, cyfleoedd a dysgu o safbwyntiau'r rhai sy'n ymwneud â dylunio a gweithredu'r cynllun peilot, a'r rhai sy'n ei dderbyn. Bydd dadansoddiad pellach o weithredu'n cynnwys data mwy diweddar ar gamau olaf y cynllun peilot, gan gynnwys y broses ymadael. Bydd hyn yn defnyddio dull mwy gwerthusol, gan ymgorffori cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol, ac yn ceisio ateb y cwestiwn 'a roddwyd y cynllun peilot ar waith yn effeithiol?'

1.20 Mae agweddau amrywiol ar y cynllun peilot hwn yn ei wneud yn unigryw a digynsail. Dyma'r llywodraeth gyntaf i gynnal cynllun peilot incwm sylfaenol o'r natur a'r raddfa hon, mae'n gweithredu o fewn cyd-destun llywodraethu datganoledig ac yn gweithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n wynebu llawer o heriau cymdeithasol ac economaidd. O ystyried y cyd-destun hwn, mae ein dadansoddiad o weithredu'n berthnasol nid yn unig i'r cynllun peilot hwn, ond hefyd i raglenni eraill o natur debyg.

## 2. Cyfraniad gan y grŵp cyd-gynhyrchu gwerthuso

**Grŵp Cyd-gynhyrchu'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol — Pwy ydym ni?**

2.1 Mae'r grŵp cyd-gynhyrchu yn grŵp o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sydd i gyd yn eu hugeiniau cynnar i ganol eu hugeiniau. Ni yw'r genhedlaeth hŷn (o ychydig bach), ac nid yw'r rhan fwyaf ohonom yn gymwys i elwa o'r cynllun peilot incwm sylfaenol (BIP). Rydym yn ymwneud â chyd-gynhyrchu er mwyn rhannu'r hyn sy'n fuddiol yn ein barn ni - a'r hyn efallai na fydd mor fuddiol - ynglŷn â derbyn y BIP. Rydym wedi taflu goleuni ar y risgiau a'r gwendidau sy'n gysylltiedig â derbyn y swm mawr o arian sy'n rhan o'r BIP.


2.2 Mae'r llun hwn yn dangos rhai o'r bobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'n grŵp cyd-gynhyrchu dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae rhai pobl ifanc yn dod yn rheolaidd i fwydo i'n proses ymchwil — mae eraill wedi mynychu'n achlysurol. Mae pob un wedi rhoi gwybodaeth wych ar hyd y ffordd.



VFC
VOICES FROM CARE
Tel. 029 2045 1431
vfcc.org.uk • info@vfcc.org.uk • Twitter@VoicesFromCare
Young Person Led


**Ein llinell amser cyd-gynhyrchu**


Rydyn ni hanner ffordd drwodd — beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn? Dilynwch yr ôl troed i weld ein taith.




...Dechrau ar y gwaith cyd-gynhyrchu
Hydref i Gaeaf 2022
Blwyddyn 1 Blwyddyn 2
Tachwedd 2022
Mae Prifysgol Caerdydd (CASCADE) yn cael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddechrau gwerthuso'r BIP...
Contract sy'n para 4 blynedd - tan fis Tachwedd 2026!
CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD
CASCADE
Rhagfyr 2022
Cynhelir cyfarfod cyntaf y grŵp cyd-gynhyrchu (ar-lein)...
...Rhoddir cyngor i'r ymchwilwyr ar gwestiynau i'r arolwg am iechyd meddwl


...Gwanwyn prysur o grwpiau cyd-gynhyrchu
Prosiect BIP
Blwyddyn 1
Blwyddyn 2
Chwefror 2023
Ail gyfarfod y grŵp (wyneb yn wyneb - yn swyddfa Lleisiau!)
Mae'r grŵp yn rhoi cyngor ar gwestiynau ymchwil...
Mawrth 2023
Trydydd cyfarfod y grŵp (ar-lein)
Mae'r grŵp yn rhoi cyngor ar gwestiynau i'w gofyn i gynghorwyr personol.
Mai 2023
Pedwerydd cyfarfod y grŵp!
Fe'i cynhaliwyd yn swyddfa Lleisiau. Rhoddwyd cyngor ar ddulliau ar gyfer cyfweld â phobl ifanc.
Cynhelir cyfweliadau grŵp: 41 o gynghorwyr personol a rheolwyr; rhai gofalwyr maeth a staff cyngor ar bopeth.
Gaeaf i Gwanwyn 2023


...Haf o arolygon a chyfweliadau
Prosiect BIP
Blwyddyn 1 Blwyddyn 2
Haf 2023
64%
Mae'r arolwg o bobl ifanc sy'n rhy ifanc i gael y BIP yn dechrau - byddant yn ffurfio'r grŵp cymharu.
Gorffennaf 2023
Mae'r arolwg cyntaf ar gyfer pobl ifanc sy'n cael y BIP yn gorffen. Ymatebodd 64%!
Pumed cyfarfod ein grŵp, yng Nghaerfyrddin.
Mae'r grŵp yn rhoi cyngor ar gwestiynau i'w gofyn i bobl ifanc... ac fe baention ni fygiau!
44 PERSON IFANC
8 OEDOLYN
Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb cyntaf gyda phobl ifanc ar y BIP...
...a rhai cyfweliadau gydag oedolion sy'n eu cefnogi.


...i mewn i 2024
Prosiect BIP
Blwyddyn 1
Blwyddyn 2
Mawrth 2024
Chwefror 2024
Dechreuodd yr ymchwilwyr gasglu data gan awdurdodau lleol am y costau a'r arbedion gyda'r BIP.
Tachwedd 2023
Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol cyntaf y gwerthusiad.
Chweched cyfarfod y grŵp, yn swyddfa Lleisiau.
Cyngor ar brofiadau grwpiau lleiafrifol o'r BIP.
Gaeaf 2023 i Gwanwyn 2024

# O'r Gwanwyn i'r Hydref 2024

Prosiect BIP

Blwyddyn 1 Blwyddyn 2

## Ebrill 2024

**Seithfed cyfarfod** y grŵp, yn swyddfa Lleisiau…

Rhoddwyd llawer o gyngor ar:

- Cwestiynau am nodau yn y dyfodol yn y rownd nesaf o arolygon.
- Cwestiynau i'w gofyn i bobl ifanc mewn cyfweliadau ynglŷn â phryd byddan nhw'n rhoi'r gorau i gael y BIP.
- Y ffyrdd gorau o rannu canfyddiadau â phobl ifanc.

Dechrau **cyfweliadau dal i fyny** gyda phobl ifanc i glywed sut maen nhw'n ymdopi â'r BIP.

## Mai 2024

Gofyn i bobl ifanc gwblhau **arolwg** pan fyddant yn rhoi'r gorau i gael y BIP

*- ar agor ar gyfer y flwyddyn nesaf…*

## Mehefin 2024

Mae'r ymchwilwyr yn dechrau **arsylwi cyfarfodydd** rhwng pobl ifanc a'u cynghorwyr personol — er mwyn gweld sut maen nhw'n paratoi'r bobl ifanc ar gyfer diwedd y taliadau…

## Mis Awst a mis Tachwedd 2024

Defnyddiwyd **wythfed a nawfed** cyfarfod y grŵp i gynllunio'r adran hon o'r adroddiad!

**Prif effeithiau'r ymchwil**



Dyma rai enghreifftiau o sut mae'r grŵp cyd-gynhyrchu wedi ffurfio'r ymchwil:

- O restr o gwestiynau a brofwyd yn flaenorol, fe **ddewisodd y grŵp gwestiynau iechyd meddwl** ar gyfer yr arolwg yr oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn bwysig ac yn sensitif.
- **Ychwanegodd gwestiynau a phynciau** ar gyfer y cyfweliadau â gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc, e.e. i ofyn ynglŷn â newidiadau i hyder wrth gymdeithasu â ffrindiau – mynd am goffi, pryd o fwyd neu ddiwrnod allan.
- Cyngor ar **sut i helpu pobl ifanc i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus** mewn cyfweliadau.
- Cyngor ar **sut i holi ynglŷn â phynciau sensitif mewn** cyfweliadau, fel defnyddio alcohol a chyffuriau.
- **Awgrymodd ein bod yn cynnig** cyfweliadau unigol, pâr neu grŵp i bobl ifanc, nad oedd yn y cynllun ymchwil gwreiddiol ond a weithiodd yn dda.
- Cyngor ar **sut i gynnal cyfweliadau grŵp** gyda phobl ifanc.
- **Diystyru rhai syniadau** yr oedd yr ymchwilwyr o'r farn eu bod yn greadigol, ond yr oedd y grŵp o'r farn eu bod yn rhy gymhleth!

**Dyma rai o'n meddyliau am y grŵp cyd-gynhyrchu gwerthuso**



## 3. Y fethodoleg

3.1 Er ein bod yn defnyddio ystod o ddulliau ar draws yr astudiaeth yn ei chyfanrwydd, rydym yn canolbwyntio yma ar y dulliau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn[7]. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar ddulliau ansoddol a ddefnyddiwyd trwy gyfweliadau, grwpiau ffocws ac arsylwadau, ac mae'n ymwneud â'r Cwestiynau Ymchwil canlynol[8]:

- Cwestiwn Ymchwil 2: A yw'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd?
- Cwestiwn Ymchwil 3: Sut brofiad yw'r cynllun peilot?
- Cwestiwn Ymchwil 4: Sut mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol i bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru?

**Ffynonellau data**

3.2 Gwahoddwyd pobl ifanc, trwy eu Cynghorwyr Personol, i gymryd rhan mewn cyfweliad. Recriwtiwyd ar gyfer cyfweliadau er mwyn sicrhau gwasgariad daearyddol ledled Cymru ac ystod amrywiol o sefyllfaoedd bywyd. Er mwyn recriwtio'r sampl o bobl ifanc, roeddem yn ddibynnu'n fawr ar awdurdodau lleol i hwyluso mynediad a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfle i gymryd rhan. Anogwyd gweithwyr proffesiynol i gynnig cyfle i gynifer o bobl ifanc â phosibl a dywedwyd wrthynt fod gan y tîm ymchwil ddiddordeb mewn safbwyntiau a phrofiadau amrywiol.

3.3 Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a gymerodd ran wedi bod yn derbyn yr incwm sylfaenol am bedwar i chwe mis o leiaf ar adeg y cyfweliad (a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Rhagfyr 2023). Cynhaliwyd cyfweliadau ar sail un-i-un yn bennaf, gydag ychydig o eithriadau lle'r oedd yn well gan bobl ifanc gael eu cyfweld ag eraill a oedd yn derbyn yr incwm sylfaenol neu gyda chymorth oedolyn arall (e.e., eu partner neu Gynghorydd Personol). Cynhaliwyd cyfweliadau dilynol pan oedd y bobl ifanc hanner ffordd drwy'r cynllun peilot a bydd cyfweliadau pellach yn cael eu cynnal sawl mis ar ôl diwedd y cynllun peilot er mwyn archwilio eu profiadau ymhellach. Roedd y cyfweliadau'n archwilio barn pobl ifanc am ddyluniad y cynllun peilot, eu defnydd o'r arian parod, ymgysylltu â'r cymorth ychwanegol a oedd ar gael, a'u profiadau o les, defnydd o amser yn ogystal â gobeithion, ofnau a dyheadau ar y cynllun peilot.

3.4 Gofynnwyd i'r bobl ifanc a hoffent enwebu oedolyn sy'n 'gefnogwr' i gymryd rhan mewn cyfweliad i drafod eu profiadau o'r cynllun peilot. Roedd yr oedolion hyn yn cynnwys Cynghorwyr Personol, rhieni biolegol, gofalwr sy'n berthynas (a elwir

[7] Ceir trafodaeth fwy cynhwysfawr ynglŷn â'r fethodoleg werthuso ym mhrotocol yr astudiaeth (Westlake et al, 2024)
[8] Gweler Atodiadau 2-5 am ganllawiau pwnc cyfweliadau a grwpiau ffocws.

weithiau'n ofalwyr sy'n aelodau o'r teulu a ffrindiau), a phartner. Roedd y cyfweliadau hyn â 'chefnogwyr' yn archwilio eu barn am y cynllun peilot a sut mae wedi effeithio ar y person ifanc a'u henwebodd.

3.5 Defnyddiwyd ystod eang o ffynonellau ar gyfer yr ymholiad ynglŷn â gweithredu'r cynllun peilot. Tynnwyd profiadau o weithredu o gyfweliadau pobl ifanc a chefnogwyr ac o'r trafodaethau grŵp ffocws gydag ymarferwyr (Cynghorwyr Personol, Rheolwyr Tîm, Penaethiaid Gwasanaethau) a gynhaliwyd yn y gwanwyn 2023. Yn ogystal, cynhaliwyd grwpiau ffocws yn ystod y gaeaf 2023 gyda thîm polisi Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Llywodraeth Cymru ac aelodau Cyngor ar Bopeth.

3.6 Archwiliodd y ddwy set o grwpiau ffocws daith y cynllun peilot o'r syniad cychwynnol i'r profiadau, llwyddiannau, heriau ac arloesiadau parhaus wrth ei ddylunio a'i gyflwyno. Yn olaf, ceisiom wybodaeth a thriongli o nodiadau maes a gasglwyd mewn gwahanol ddigwyddiadau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r cynllun peilot, gan gynnwys digwyddiadau ymarferwyr a fynychwyd gan weithwyr proffesiynol awdurdodau lleol a Chyngor ar Bopeth, ac o Gofnod Datblygu Polisi Llywodraeth Cymru, sy'n cofnodi digwyddiadau arwyddocaol ar hyd taith y cynllun peilot.

**Tabl 1. Cyfranogiad mewn gweithgareddau casglu data ansoddol**

| **Math o gyfranogwr** | **Fformat cyfranogi** | **Nifer y cyfranogwyr** | **Amser cyfranogi** |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr Personol | Grwpiau ffocws a chyfweliadau | 22 | Gwanwyn 2023 |
| Penaethiaid gwasanaethau / uwch reolwyr | Grwpiau ffocws | 12 | Gwanwyn 2023 |
| Rheolwyr tîm | Grwpiau ffocws | 7 | Gwanwyn 2023 |
| Pobl ifanc | Grwpiau ffocws a chyfweliadau | 44 | Gwanwyn 2023 i gaeaf 2023 |
| Cefnogwr - Cynghorydd Personol | Cyfweliadau | 4 | Gwanwyn 2023 i gaeaf 2023 |
| Cefnogwr - Rhiant biolegol | Cyfweliadau | 2 | Gwanwyn 2023 i gaeaf 2023 |
| Cefnogwr - Partner | Cyfweliadau | 1 | Gwanwyn 2023 i gaeaf 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cefnogwr - Gofalwr sy’n berthynas | Cyfweliadau | 1 | Gwanwyn 2023 i gaeaf 2023 |
| Cyngor ar Bopeth Cymru. | Grwpiau ffocws | 11 | Gaeaf 2023 |
| Tîm polisi Llywodraeth Cymru | Grwpiau ffocws | 6 | Gaeaf 2023 |

**Dadansoddi ansoddol**

3.7 Cafodd trawsgrifiadau dienw o gyfweliadau a grwpiau ffocws, nodiadau maes, a Chofnod Datblygu Polisi Llywodraeth Cymru eu codio gan ddefnyddio meddalwedd NVivo (NVivo, 2018). Roedd codio’n ddiddwythol ac anwythol, yn yr ystyr bod theori a chwestiynau ymchwil cychwynnol y rhaglen wedi llywio ein codau cychwynnol, ac amlygwyd codau ychwanegol o'r data yn dilyn trawsgrifio, darllen data a myfyrio gan y tîm gwerthuso. Roedd y cam dadansoddi cyntaf yn cynnwys dau ymchwilydd yn darllen trawsgrifiadau a chodio darnau o destun i greu themâu ac is-themâu. Trwy drafod o fewn y tîm gwerthuso, datblygwyd y codau ymhellach ac fe’u casglwyd at ei gilydd yn themâu y cytunwyd arnynt ar draws y tîm. Cynhaliwyd pob un o'r dadansoddiadau ar gyfer dwy ran yr adroddiad ar wahân, er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil yn ymwneud â (1) phrofiadau a safbwyntiau cynnar y derbynyddion a'r cefnogwyr a (2) sefydlu a gweithredu'r cynllun peilot yn gychwynnol.

3.8 Roedd cam olaf y dadansoddiad yn cynnwys swyddogion polisi a gwerthuso o Lywodraeth Cymru. Adolygwyd drafft cyntaf yr adroddiad gan aelodau o'r tîm polisi a oedd yn gyfrifol am reoli'r cynllun peilot, ac a fu'n ymwneud fel cyfranogwyr ymchwil yn y grwpiau ffocws y manylwyd arnynt uchod. Diwygiwyd y drafft dilynol yng ngoleuni eu hadborth.

3.9 Fe’i lluniwyd i wasanaethu'r dibenion canlynol:

1. Gwirio ffeithiau i sicrhau cywirdeb, a oedd yn cynnwys ychwanegu manylion am agweddau ar ddatblygu polisi nad oeddent wedi'u cynnwys yn wreiddiol. Er enghraifft, amseriad gwahanol agweddau ar ddatblygu polisi yn y cyfnod cyn i'r gwerthusiad gael ei gomisiynu (y misoedd yn arwain at fis Tachwedd 2022). Roedd hyn hefyd yn golygu gwirio synnwyr y dadansoddiad a’r cyflwyniad yn fwy cyffredinol er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau'n glir ac yn gyson.
2. Adolygwyd y dyfyniadau a sut y nodweddwyd eu cyfraniadau eu hunain er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn gynrychioliadol o'u barn a'u profiadau.

Mewn rhai achosion, gwnaed newidiadau a rhoddwyd eglurhad drwy gais ar ôl i'r adborth hwn gael ei ddychwelyd i awduron yr adroddiad.

3. Rhoddwyd cyfle i'r swyddogion polisi nodi lle’r oeddent yn teimlo y dylai canfyddiadau o'r cynllun peilot fel y’i hadroddwyd gan gyfranogwyr gael eu cyflwyno ochr yn ochr â thystiolaeth gofnodedig ynglŷn â sut y rhoddwyd y polisi ar waith. Lle gwnaed yr ychwanegiadau hyn, fe'u nodir yn y testun - er enghraifft, 'nododd swyddogion polisi fod canllawiau ar y broses a drafodir gan y cyfranogwr hwn wedi cael eu cyhoeddi ym mis Mai 2022.’

3.10 Er bod cyfyngiadau i'r dull hwn, fel y trafodir yn adran 6, roedd yn ymddangos yn gyffredinol bod ffurfioli hyn yn gam dadansoddi yn ffordd gadarnhaol a thryloyw o sicrhau dadansoddiad cynhwysfawr a chynnal trylwyredd.

## 4. Canfyddiadau: Profiadau a safbwyntiau derbynyddion a chefnogwyr ym mlwyddyn gyntaf y cynllun peilot

4.1 Mae'r adran hon yn adrodd ar farn a phrofiadau cynnar pobl ifanc a dderbyniodd y cynllun peilot. Yn ogystal â'r data o gyfweliadau â derbynyddion, mae hefyd yn defnyddio data gan 'gefnogwyr' a enwebwyd gan bobl ifanc - pobl a oedd yn eu hadnabod yn dda ac a fyddai'n cynnig gwybodaeth ychwanegol yn gysylltiedig â'u profiadau o'r cynllun peilot.

4.2 Yn gyntaf, disgrifiwn ein sampl o dderbynyddion a chefnogwyr, cyn adrodd ar safbwyntiau ar ddyluniad y cynllun peilot, profiadau cynnar ac effeithiau canfyddedig.

**Disgrifiad o'r cyfranogwyr: derbynyddion a'u cefnogwyr enwebedig**

4.3 Roedd y 44 o bobl ifanc a gymerodd ran mewn cyfweliadau ansoddol i gyd yn 18 oed. Roedd y cyfranogwyr wedi'u lledaenu ar draws 13 o'r 22 awdurdod lleol ac roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc o ogledd, de a chanolbarth Cymru. Dangosodd data cofrestru fod pobl ifanc wedi dechrau derbyn y taliadau incwm sylfaenol rhwng mis Awst 2022 a mis Gorffennaf 2023.

4.4 Wrth gofrestru, datganodd ychydig yn llai na hanner y bobl ifanc a gymerodd ran yn y cyfweliadau eu bod yn Gymry (48%; n=21), 20% yn Brydeinwyr (n=9), 9% yn Saeson (n=4), ac roedd 10% wedi nodi hunaniaeth arall neu heb ymateb (n=23). Roedd dros 60% o'r bobl ifanc yn fenywaidd (61%, n=27), roedd 30% yn wrywaidd (n=13) ac nid oedd 9% wedi ymateb (n=4). Dywedodd tua 30% o'r bobl ifanc fod ganddynt gyflwr iechyd hirdymor y disgwylir iddo bara am 12 mis neu fwy (27%; n=12), dywedodd 61% nad oes ganddynt gyflwr o'r fath (n=27), a dywedodd 11% nad ydynt yn gwybod, nad ydynt eisiau dweud, neu nid oeddent wedi ymateb (n=5). Roedd pump o bobl ifanc yn gyn-blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches (11%).

4.5 Er bod y crynodeb uchod yn dangos amrywiaeth ar draws ein sampl cyfweliadau, ni fwriedir i'r canfyddiadau awgrymu eu bod yn cynrychioli'r holl dderbynyddion incwm sylfaenol. Gweler yr adran 'cyfyngiadau' isod i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

4.6 Yn seiliedig ar yr wybodaeth reoli a gyrchwyd ym mis Ionawr 2024, roedd y bobl ifanc yn derbyn yr incwm sylfaenol yn fisol (n=25, 57%) neu ddwywaith y mis (n=19, 43%). Roedd deunaw o bobl ifanc (41%) yn cael arian a dalwyd yn uniongyrchol i'w landlord. Yn seiliedig ar ddata cofrestru, roedd wyth o bobl ifanc (18%) yn parhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth (y trefniant 'Pan Fyddaf yn Barod'[9]) ac roedd saith (6%) mewn llety â chymorth.

[9] Ni adroddwyd gwybodaeth am drefniadau 'Pan Fyddaf yn Barod' cyn mis Ionawr 2023, felly mae'n debygol bod mwy o unigolion yn byw mewn lleoliad o'r math hwn wrth gofrestru.

4.7 Ar adeg y cyfweliad, dywedodd ychydig dros hanner (52%) o'r bobl ifanc nad oeddent mewn addysg na chyflogaeth ar hyn o bryd (Tabl 2). Roedd pedwar o'r bobl ifanc hyn i fod i ddechrau yn y coleg neu’r brifysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Roedd un ar bymtheg o bobl ifanc (37%) mewn addysg, ac roedd tri yn gweithio'n rhan-amser ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Roedd pedwar person ifanc arall (9%) mewn gwaith amser llawn neu ran-amser.

**Tabl 2. Statws addysg neu waith adroddedig pobl ifanc**

| **Statws addysg neu waith** | **n** | **Canran** |
|---|---:|---:|
| Mewn addysg | 13 | 30 |
| Mewn addysg a chyflogaeth ran-amser | 3 | 7 |
| Mewn cyflogaeth (rhan-amser neu amser llawn) | 4 | 9 |
| Heb fod mewn addysg na chyflogaeth | 23 | 52 |
| Heb ei adrodd | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **44** | **100** |

4.8 Yr wyth cefnogwr oedd, Cynghorwyr Personol (4), rhieni biolegol (2), gofalwr sy’n berthynas a phartner. Pan gyfwelwyd Cynghorwyr Personol, fe'u hanogwyd i symud o siarad am eu barn eu hunain ynglŷn â'r cynllun peilot (a drafodwyd ar wahân mewn cyfweliadau â gweithwyr proffesiynol) i'r effaith ar y person ifanc penodol a'u henwebodd i gymryd rhan yn y rhan hon o'r gwerthusiad.

4.9 Ym mhob achos, roedd y cefnogwyr yn trafod derbynnydd unigol. Mewn un achos lle’r oedd Cynghorydd Personol wedi cael ei enwebu gan dri derbynnydd yn ei llwyth achosion, trafododd bob un yn ei dro, gan ateb pob cwestiwn mewn perthynas ag un person ifanc, cyn ateb yr un set o gwestiynau mewn perthynas â'r lleill. Cyfwelwyd wyth o gefnogwyr i gyd, yn cynrychioli 10 o dderbynyddion. Dewisodd rhai cyfranogwyr beidio ag enwebu cefnogwr, ac mewn achosion eraill ni ellid sicrhau cyfweliad â'r cefnogwr.

4.10 Er mwyn diogelu anhysbysrwydd y cyfranogwyr, caiff data gan gefnogwyr ei integreiddio i’r drafodaeth ac nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r person ifanc a'u henwebodd.

**Barn am ddyluniad y cynllun peilot**

4.11 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau ac awgrymiadau'r bobl ifanc ynglŷn ag elfennau dylunio allweddol y cynllun peilot: y garfan a ddewiswyd, oedran y derbynyddion, swm y trosglwyddiad, a hyd y cynllun peilot.

**Y garfan a ddewiswyd**

4.12 Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r garfan a ddewiswyd a darparu cymorth ychwanegol i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Nododd y cyfranogwyr nad oedd y rhai sy'n gadael gofal wedi 'cael y dechrau gorau mewn bywyd' yn aml ac nad oeddent yn gallu dibynnu ar gymorth ariannol gan rieni biolegol yn yr un ffordd ag y gallai pobl ifanc nad oes ganddynt brofiad o ofal, efallai (YP4). Fe wnaethant nodi heriau amlochrog sy'n wynebu pobl sy'n gadael gofal ac roeddent yn ystyried bod eu carfan dan anfantais yn emosiynol ac yn ymarferol:

> 'Rwy'n gwybod bod gan lawer ohonon ni sy'n gadael gofal lawer o bryderon am ddiogelwch ariannol... Rydyn ni'n gadael gofal, chi'n gwybod. Dydyn ni ddim yn gwybod i ble rydyn ni'n mynd, beth rydyn ni'n ei wneud, sut mae'n mynd i weithio. Chi'n gwybod, [gyda'r cynllun peilot hwn] mae'r llywodraeth yn cael gwared â'r pryder ariannol. Mae hynny'n help mawr gyda llawer o broblemau pryder sydd gan y rhan fwyaf ohonon ni, ac unrhyw rai o'r problemau iechyd meddwl. Mae'n gwneud ein bywyd ychydig yn haws i drosglwyddo, a pheidio â phoeni am sut rydych chi'n mynd i dalu eich biliau, talu eich contractau ffôn, a phopeth arall y mae angen i chi ei wneud. ' (YP2)

> 'Rwy'n cytuno â'i roi i bobl sy'n gadael gofal fel grŵp. Rydych chi eisoes mewn sefyllfa eithaf difreintiedig. Dwi'n gwybod bod y llywodraeth yn ceisio gwneud iawn am hynny, ond nid yw bob amser yn golygu eich bod ar yr un lefel â phobl eraill pan fyddwch chi wedi gorffen, sy'n golygu pan fyddwch wedi gadael, weithiau dwi'n meddwl ei fod yn eithaf brawychus i lawer o bobl. Dwi'n gwybod... dwi'n gwybod bod cael swydd yn rhan o fywyd ac ennill arian a phopeth, ond dwi ddim yn credu bod pawb ar yr un lefel â phawb arall. Mae'n... mae'n gymaint... mae'n well rhoi'r help yna i bobl sy'n llai breintiedig oherwydd bod wir ei angen arnyn nhw. ' (YP8)

4.13 Roedd 'sefyllfa ddifreintiedig' ac ansicrwydd amgylchiadau llawer o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn 18 oed yn themâu craidd ar draws y cyfweliadau. Yn aml, credid bod y derbynyddion yn haeddu cymorth ariannol ychwanegol, ac ystyriwyd bod hyn yn ddefnyddiol wrth leddfu rhai o'r heriau. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd rhiant biolegol fod eu plentyn yn mynd trwy gyfnod anodd oherwydd trawma blaenorol, ond bod yr incwm sylfaenol wedi gwneud un agwedd ar fywyd yn haws oherwydd bod 'y frwydr ariannol yn ychwanegu at yr hyn sydd eisoes yno' (SUP1).

4.14 Yn ogystal â chytuno bod y rhai sy'n gadael gofal yn grŵp da i'w gynnwys, mynegodd pob cyfranogwr werthfawrogiad am fod yn rhan o'r cynllun peilot. Roeddent yn cydnabod ei fod yn cyflwyno cyfle gwerthfawr - un yr oeddent am wneud y gorau ohono. Er eu bod yn fuddiolwyr y polisi, tynnodd y cyfweliadau sylw at ymdeimlad pobl ifanc o gyfrifoldeb cymdeithasol, gyda chyfeiriadau penodol at ‘arian trethdalwyr’ a gobeithion iddo gael ei ddefnyddio'n gyfrifol. Dywedodd un person ifanc fod y cynllun peilot '... yn dda i'r bobl nad ydynt yn camddefnyddio alcohol na chyffuriau' a rhybuddiodd y ‘gallai'r arian hwn eich arwain ar y trywydd anghywir' (YP3). Aethant ymlaen i ychwanegu, i'r rhai heb broblemau o'r fath, y gall yr incwm sylfaenol helpu pobl mewn ffyrdd amrywiol - trwy 'gael lle i’w hunain, trwy gael car iddyn nhw, eu helpu i wneud prawf theori [gyrru], [cael] beic a [helpu gyda] eu gyrfa... pe na byddai gen i hynny, ni fyddwn i lle rydw i heddiw.’ Myfyriodd person ifanc arall, a gydnabu ei fod yn 'eithaf ffodus i'w gael', ar y grŵp yn ei gyfanrwydd, gan ddweud:

> 'Ie, ond, croesi bysedd, [rwy'n] gobeithio ac yn gweddïo bod digon ohonon ni’n ddigon synhwyrol i sylweddoli ein bod ni wedi cael bendith gudd yma, i allu cael hyn, oherwydd nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn ei gael... Felly, byddwn ni’n ei ddefnyddio’n ddoeth yn hytrach na'i wastraffu fel y byddai rhywun yn ei arddegau. Chi'n gwybod, tyfu i fyny ychydig bach, a chymryd rhywfaint o gyfrifoldeb. ' (YP2)

**Oedran**

4.15 Roedd rhai cyfranogwyr yn credu na ddylai’r cynllun peilot fod wedi cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n troi'n 18 oed rhwng cyfnod diffiniedig, gan ddadlau y dylai gael ei roi i bawb sy'n gadael gofal - ni waeth beth fo'u hoedran na’u cyfnod pontio. Fodd bynnag, wrth fyfyrio ar yr agwedd hon ar ddyluniad y cynllun peilot, roedd cyfranogwyr eraill yn teimlo’n gyffredinol bod 18 oed yn adeg briodol i ddechrau derbyn yr incwm sylfaenol. Dywedodd rhai fod hwn yn gyfnod pontio allweddol, a chyfeiriodd eraill at y risgiau sy’n gysylltiedig ag aros nes bod y derbynyddion yn hŷn:

> 'Rwy'n credu mai 18 yw'r oedran perffaith i dderbyn hyn, oherwydd rydych chi'n mynd i fod yn oedolyn, rydych chi'n ennill y cyfrifoldeb, ac mae'n dda cael y cymorth ariannol yna pan fyddwch chi'n troi'n oedolyn, oherwydd nid yw’r rhan fwyaf o bobl sy'n gadael gofal, yn ystod eu plentyndod, erioed wedi cael unrhyw beth sy’n eiddo iddyn nhw’n gyfan gwbl - y gallen nhw ei reoli. Felly, dwi’n credu ei fod wedi ein helpu i deimlo rheolaeth. ' (YP1)

> 'Rydyn ni'n gadael gofal yn 18 oed... os oedden nhw eisiau ei roi pan fyddwch chi’n 20 neu’n 21, byddwch chi eisoes wedi gadael gofal [ac yn] poeni'n fawr am eich diogelwch ariannol a phethau fel ’na... Felly, 18 yw'r adeg iawn, byddwn i'n dweud, i dderbyn BIP. ' (YP2)

4.16 Yn arbennig, roedd pobl ifanc o’r farn bod yr incwm sylfaenol yn gymorth mawr ei angen i helpu i ddod o hyd i lety a gwneud penderfyniadau ynghylch addysg a chyflogaeth (a drafodir ymhellach isod). Yn y cyd-destun hwn, ystyriwyd bod yr incwm sylfaenol yn bont ddefnyddiol wrth helpu pobl ifanc i ymdopi â'r trawsnewidiadau cythryblus hyn yn 18 oed. Mewn ffordd debyg, roedd rhai pobl ifanc yn credu y gallai’r incwm sylfaenol gael ei gysylltu’n agosach â'r adeg pan fyddan nhw’n gadael lleoliadau gofal, pa oedran bynnag yw hwn:

> 'Ie, dwi'n meddwl, yn bersonol, byddwn i wedi elwa mwy ‘tasen i wedi’i gael pan oeddwn i’n iau, yn 17 neu’n 16 oed, oherwydd nid yw pawb mewn gofal nes eu bod yn 18 oed. Nid yw pawb yn gadael yn 18 oed, oherwydd fe adewes i ofal yn 16.’ (YP4)

> 'Rwy'n credu os bydd rhywun sy'n gadael gofal yn gadael gofal yn 16 oed, ac yn mynd yn syth i mewn i hostel, rwy'n credu y dylai gael ei gynnig hefyd... '(YP29)

> 'Oherwydd bod y rhan fwyaf o bobl yn symud allan pan fyddan nhw’n 21 oed, ac efallai bydd angen yr arian arnyn nhw i dalu am rent a phethau. ' (YP32)

4.17 Er eu bod wedi tynnu sylw at y gofynion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod pontio ac awgrymu rhywfaint o hyblygrwydd o ran oedran, cododd ychydig o gyfranogwyr gwestiynau ynghylch aeddfedrwydd hefyd. Er enghraifft, lleisiodd rhai cyfranogwyr bryder efallai na fydd gan 'rai pobl 18 oed' yr aeddfedrwydd na'r ddealltwriaeth i reoli eu cyllid, yn enwedig pan fydd yr arian parod a gânt yn sylweddol fwy nag maen nhw’n wedi’i drin fel arfer. Dywedodd un, yn yr achosion hyn, 'efallai y gallai fod yn ddrwg hefyd, oherwydd dydyn nhw ddim wir yn gwybod sut i ddefnyddio'r arian hwnnw'n iawn, felly, efallai y gellid ei wthio’n ôl flwyddyn neu ddwy' (YP5).

4.18 Er nad oedd unrhyw gyfranogwyr wedi mynegi pryderon am eu haeddfedrwydd eu hunain wrth reoli'r arian yn 18 oed, myfyriodd rhai na fyddent wedi bod yn ddigon aeddfed petai'r incwm sylfaenol wedi cael ei roi cyn 18 oed. Dywedodd un wrthym 'ni fyddwn i wedi gwybod beth i'w wneud gyda'r arian hwnnw pan oeddwn i’n iau' a rhagwelodd y byddai wedi ‘gwario’n wyllt’ (YP16). Yn yr un modd, myfyriodd partner cyfranogwr 'pan fyddwch chi'n troi'n 18 oed, rydych chi’n gallach a dydych chi ddim yn mynd i’w wastraffu ar bethau ar hap... ' (SUP6).

**Swm yr arian**

4.19 Gellid gwahaniaethu’r sgyrsiau ynghylch swm yr incwm sylfaenol rhwng y rhai a ystyriodd yr incwm sylfaenol mewn perthynas â threuliau ac incwm gwario, a'r rhai oedd yn ystyried yr hyn oedd yn incwm realistig neu resymol. Mewn perthynas â threuliau, awgrymodd llawer fod y swm o £1,280 y mis yn ddigonol i ddiwallu anghenion sylfaenol a chaniatáu ar gyfer rhywfaint o gynilo neu wario ychwanegol:

> 'Rwy'n credu ei fod yn iawn. Rwy'n credu ei fod yn cwmpasu popeth sydd ei angen arnoch chi mewn gwirionedd ar y pryd' (YP1)

> 'Rwy'n credu ei fod yn eithaf da, oherwydd mae'n rhoi rhywfaint o arian gwario i bobl hefyd i'w roi o'r neilltu, i'w gynilo. ' (YP22)

> 'Ond mae hefyd yn eich galluogi i wneud pethau rydych chi eisiau eu gwneud, yn ogystal â phethau efallai y mae angen i chi eu gwneud' (YP4)

4.20 Teimlai un cyfwelydd ar y cynllun peilot ei fod yn ddigonol heb fod yn swm a allai annog pobl i wastraffu'r arian neu ei ddefnyddio'n annoeth:

> 'Hefyd, nid yw'n swm chwerthinllyd, chi'n gwybod, dim ond tri chant ar ddeg y mis... Mae'n ddigon i gadw'ch pen uwchlaw'r dŵr, ond nid yw'n ddigon i chi ddechrau gwneud pethau twp... yn gyffredinol, gyda phawb dwi wedi siarad â nhw sy'n ei gael, ie. Mae'r rhan fwyaf yn cynilo hanner, ac yna'n defnyddio'r hanner arall i dalu eu biliau, talu am wersi gyrru, talu am yswiriant car, pethau synhwyrol i'w ddefnyddio ar eu cyfer, ac yna maen nhw'n chwilio am swydd, fel y gallan nhw ddefnyddio arian swydd i wneud eu holl stwff allgyrsiol ychwanegol maen nhw eisiau ei wneud. ' (YP2)

4.21 Roedd yr awgrym nad oedd yr incwm sylfaenol 'yn swm chwerthinllyd' yn gyson â'r sylw canlynol gan Gynghorydd Personol a enwebwyd ar gyfer cyfweliad fel oedolyn sy'n gefnogwr i dderbynnydd:

> 'Rwy'n credu bod y swm, er ei fod yn swnio'n enfawr pan fyddwch chi'n edrych arno gyntaf, mewn gwirionedd, dyna beth sydd ei angen arnoch i fyw bywyd eithaf cyfforddus. Nid cyfforddus hyd yn oed, bywyd gweddus. Nid yw'n swm enfawr, dwi ddim yn meddwl, erbyn i chi dalu eich ffordd, does gennych chi ddim swm enfawr o incwm gwario ar ôl. Felly, rwy'n credu bod y swm yn rhesymol ar gyfer y safon byw rydw i eisiau i bob person yng Nghymru ei chael. ' (SUP7)

4.22 Mae'r sylwadau hyn yn awgrymu bod swm yr incwm sylfaenol wedi galluogi pobl ifanc i dalu eu treuliau a hefyd wedi caniatáu rhywfaint o ddewis a rheolaeth gyda'r arian sy'n weddill. Fodd bynnag, roedd y graddau yr oedd y cyfranogwyr yn teimlo bod ganddynt arian dros ben ar ôl costau byw yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau penodol (e.e. lleoliad daearyddol a threfniadau byw). Nodwyd bod y canfyddiad nad oedd y swm o arian yn ormodol yn arbennig o wir i'r rhai sy'n talu costau tai uchel. Er enghraifft, awgrymodd un cyfranogwr, 'mae'n rhy isel, oherwydd mae'n rhaid i mi dalu £600 [mewn rhent], a dim ond £600 sydd ar ôl gennyf [i dalu am fwyd, biliau, teithio ac ati]. ' (YP32), a dywedodd un arall ei fod 'yn talu £800 mewn rhent, felly mae hynny'n cymryd llawer o fy arian BIP' (YP35).

4.23 Yn y modd hwn, er bod y cyfranogwyr yn cefnogi swm yr incwm sylfaenol yn gyffredinol, roedd hyn yn dibynnu ar y graddau y gallai gyfrif am dreuliau sylfaenol unigolyn **a** chaniatáu ar gyfer rhywfaint o ryddid ariannol.

4.24 O ran cyfranogwyr eraill, ystyriwyd swm yr incwm sylfaenol mewn perthynas â safonau cenedlaethol yn ymwneud ag incwm. Er enghraifft, roedd un yn ei gymharu â chyflog sylfaenol, sef 'tua'r un swm ar isafswm cyflog i rywun o'm hoedran i' (YP18). Mae hyn yn adleisio penderfyniad Llywodraeth Cymru i osod y swm i fod yn debyg yn fras i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar adeg datblygu'r polisi (Holland et al., 2024). Er bod y cyfranogwyr weithiau'n ystyried bod hyn yn ffordd synhwyrol o osod swm yr incwm sylfaenol, lleisiodd eraill bryderon y gallai fod yn rhy uchel. Roedd yn ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â chymariaethau rhwng yr incwm sylfaenol a'r math o incwm y gallent ddisgwyl ei ennill o gyflogaeth yn y dyfodol, a'r syniad y gallai'r incwm sylfaenol osod disgwyliadau afrealistig ar gyfer pa incwm y gallent ei gael yn y tymor hwy:

> 'Rwy'n credu nad yw hynny'n eu paratoi ar gyfer agwedd go iawn arian. Oherwydd dydyn ni ddim bob amser yn mynd i gael y £1,600 yma y mis. Felly beth fydd yn digwydd? Rwy'n ei seilio ar beth rwy'n gweld fy ffrindiau yn ei wneud nad ydyn nhw yn y system gofal ac nad ydyn nhw'n cael yr arian yma, ac mae gen i swm sylweddol fwy na nhw... Pan oeddwn i'n gweithio'n amser llawn mewn swydd haf, ac roeddwn i'n gweithio cryn dipyn o oriau yn y mis, y mwyaf a enillais i erioed oedd £1,000 mewn mis. Felly, dydw i ddim - dwi ddim yn meddwl ei fod yn beth realistig i gychwyn yn syth yn 18 oed. ' (YP6)

4.25 Mae'r awgrym hwn bod y swm yn peryglu gosod profiadau neu ddisgwyliadau afrealistig nad ydynt yn gynaliadwy, efallai, ar ôl y cynllun peilot yn bryder a rannwyd gan Gynghorydd Personol wrth drafod y person ifanc yr oedd yn ei gefnogi:

> 'Nid yw wedi'i rhoi mewn sefyllfa i fethu, ond rwy'n teimlo nad yw wedi bod yn realistig o ran beth mae'n rhaid i chi ei wneud i ennill arian y dyddiau hyn [...]. Nid wyf yn credu ei bod yn sylweddoli, fel y dywedais, yr ymdrech y bydd rhaid iddi ei gwneud i fod yn yr un sefyllfa ariannol ymhen blwyddyn. ' (SUP5)

**Hyd**

4.26 Wrth drafod hyd y cynllun peilot, cytunodd y cyfranogwyr fod argaeledd yr incwm sylfaenol yn ystod y cyfnod pontio rhwng 18 ac 20 oed yn ddefnyddiol. Er eu bod yn cydnabod y bydd 'dwy flynedd [yn] mynd yn gyflymach nag y meddyliwch' (YP1), cydnabu'r cyfranogwyr fod y cyfnod yn darparu rhwyd ddiogelwch a chlustog i helpu i lywio heriau gadael gofal:

> 'Rwy'n credu bod cael y swm hwnnw am ddwy flynedd yn sicr yn rhoi'r help llaw y mae arnoch ei angen.... Hyd yn oed os ydych chi'n gweithio, mae

gennych chi rywbeth i syrthio’n ôl arno bob amser, mae gennych chi’r ymdeimlad hwnnw o ddiogelwch. ' (YP8)

4.27 Mae'r sylw uchod yn awgrymu bod hyd y cynllun peilot o gymorth yn ymarferol ac yn emosiynol wrth helpu pobl ifanc i bontio i fod yn oedolion a'r annibyniaeth sy'n gysylltiedig â hynny. Ystyriwyd bod y 'rhwyd ddiogelwch' a'r 'ymdeimlad o ddiogelwch' ychwanegol yn ddefnyddiol wrth i bobl ifanc sicrhau llety, cwblhau addysg a / neu chwilio am waith. Yn gysylltiedig â hyn, roedd rhai o'r farn y dylai'r cynllun peilot fod wedi para tair blynedd yn hytrach na dwy, er mwyn caniatáu ar gyfer cwblhau cyrsiau prifysgol neu goleg, a / neu ganiatáu mwy o amser i gynilo. Awgrymodd un person ifanc leihau’r swm fel y gallai fod wedi para'n hirach:

> 'Yn bersonol, rwy'n credu y dylai [y swm] fod ychydig bach yn llai, ond am flwyddyn yn hwy. Oherwydd, yn amlwg, rydw i yn y coleg, ac mae'n para tair blynedd. Felly, petai'n dair blynedd, fe allwn i fod wedi gorffen y coleg heb boeni am yr arian' (YP5)

4.28 Pwysleisiodd un arall fanteision posibl cael yr incwm sylfaenol am drydedd flwyddyn i gynilo ar gyfer y dyfodol:

> 'Dwi ddim yn credu bod dwy flynedd yn ddigon hir, oherwydd roeddwn i... mae'n rhoi amser byr i chi gynilo ar gyfer cludiant a phethau fel ’na, ond petai'n dair blynedd, byddai gennych flwyddyn ychwanegol i gynilo llwyth o arian ar gyfer y pethau y mae arnoch eu hangen.' (YP12)

4.29 Fodd bynnag, roedd eraill yn cydnabod bod angen taro cydbwysedd rhwng darparu cymorth ychwanegol i bobl ifanc trwy gyfnod pontio anodd, a pheidio â thanseilio ymdeimlad pobl ifanc o hunan-benderfyniad a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, roedd rhai yn credu y byddai cyfnod hwy yn gweithredu fel datgymhelliad i ddod o hyd i waith:

> 'Ie, ni fyddwn yn dweud, chi’n gwybod, bod angen iddo bara’n hirach. Oherwydd rwy’n poeni byddai hynny'n dechrau annog pobl i beidio â chael swydd... Rydw i wedi dysgu bod amser yn hoffi ymgripio i fyny arnoch chi. Felly, yn y pen draw byddan nhw’n cyrraedd y diwedd, ac ni fydd ganddyn nhw unrhyw brofiad gwaith. Dim swydd, dim byd. A bydd yn anodd iawn iddyn nhw symud ymlaen.' (YP2)

4.30 Trafodwyd diwedd y cynllun peilot yn aml mewn cyfweliadau. Er nad oedd y cyfranogwyr yn disgwyl i'r incwm sylfaenol fod ar gael am gyfnod amhenodol, dywedodd bron pob person ifanc eu bod wedi meddwl am ddiwedd y cynllun peilot a'u bod yn ymwybodol ei fod am gyfnod cyfyngedig. Roedd rhai yn ddigyffro ynglŷn â hyn, gan ddweud y byddant mewn sefyllfa dda bryd hynny, gyda chynilion a'r cyfle i weithio'n rhan-amser. Roedd un cyfranogwr a oedd yn bwriadu dechrau cwrs prifysgol yn rhannu’r farn hon, gan ddweud 'ni fydd yn effeithio arnaf gormod oherwydd byddaf wedi cynilo’r arian. Byddaf yn cael swydd ran-amser pan fyddaf yn

dechrau yn y brifysgol' (YP41). Roedd eraill hefyd yn meddwl am yr angen i 'gael swydd ychydig cyn iddo orffen '(YP18), ac roedd y sicrwydd o wybod y byddai cynilion wedi cronni yn helpu eraill wrth iddynt edrych tuag at ddiwedd y cynllun peilot:

> 'Roeddwn i wedi meddwl amdano, oherwydd yn amlwg wedyn bydd rhaid i mi newid rhywfaint o fy nghyllideb, ...ond dwi ddim yn credu fy mod yn poeni gormod amdano... Oherwydd rwy'n gwybod bydd gen i dipyn wedi'i gynilo erbyn hynny. ' (YP22)

4.31 Serch hynny, ochr yn ochr ag agwedd obeithiol rhai pobl ifanc, roedd eraill yn fwy pryderus. Er enghraifft, disgrifiodd un cyfranogwr ddiwedd y taliadau incwm sylfaenol fel 'tynnu blanced oddi ar faban' (YP31), tra mynegodd un arall bryder ynghylch addasu i incwm sylweddol lai - gan nodi'r hawl is o lawer y byddai Credyd Cynhwysol yn ei darparu:

> 'Rwy'n credu mai'r her fwyaf rydyn ni wastad wedi siarad amdani yw beth fydd yn digwydd ar y diwedd. Ei fod - mae'n mynd i swnio'n llym iawn, ond ei fod yn ein rhoi mewn sefyllfa i fethu. Rydyn ni, gwych, mae gennym ni £1,600 y mis, yn fras... ac yna'n sydyn rydych chi lawr i £72 bob pythefnos... mae'n rhywbeth rydw i wastad wedi'i gadw yn fy meddwl, ac er fy mod i'n synhwyrol, dwi'n gwybod bod y cyfan yn mynd i fod yn her i mi. Hyd yn oed i'r person mwyaf parod yn y byd, bydd yn ostyngiad mawr o hyd.' (YP6)

**Crynodeb o farn pobl ifanc am ddyluniad y cynllun peilot**

4.32 I grynhoi, tynnodd y bobl ifanc sylw at sefyllfa ddifreintiedig y rhai sy'n gadael gofal a chroesawu bwriad polisi'r cynllun peilot i ddarparu cymorth ychwanegol. Ystyriwyd y gallai darparu incwm sylfaenol liniaru anfantais a'i fod yn ddefnyddiol wrth reoli'r cyfnod pontio i fod yn oedolyn.

4.33 Argymhellodd y cyfranogwyr rywfaint o hyblygrwydd yn y dyluniad i adlewyrchu amrywiaeth anghenion a sefyllfaoedd pobl ifanc. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn ymwybodol y byddai profiadau a chyfleoedd pobl ifanc sy'n derbyn yr incwm sylfaenol yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a chostau byw. Yn gysylltiedig â hyn, mynegwyd rhai pryderon mewn perthynas â sut y byddai rhai pobl ifanc yn defnyddio'r incwm sylfaenol ac yn cael eu dylanwadu ganddo.

4.34 Yn olaf, mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod y cyfranogwyr yn cefnogi hyd dwy flynedd y cynllun peilot i raddau helaeth. Er yr awgrymodd rhai y byddai cyfnod ychydig yn hwy yn werthfawr wrth gefnogi trawsnewidiadau a dyfodol pobl ifanc, derbyniodd y cyfranogwyr fod y ddarpariaeth am gyfnod cyfyngedig. Yn gysylltiedig â hyn, roedd pobl ifanc yn ymwybodol o ddiwedd y cynllun peilot a lleisiodd rhai bryder ynghylch rheoli ac addasu i'r newid. Ailystyrir rhai o'r materion hyn isod, lle byddwn yn trafod profiadau cynnar pobl ifanc o'r cynllun peilot.

**Profiadau cynnar o'r cynllun peilot**

4.35 Mae'r adran ganlynol yn trafod profiadau cynnar pobl ifanc o'r cynllun peilot - yn gyntaf mewn perthynas â'r cymorth a oedd ar gael iddynt yn ystod y cyfnod hwn, ac yna ynglŷn â'u canfyddiadau o effeithiau cynnar.

**Ymgysylltu â chyngor ariannol**

4.36 Ar wahân i'r trosglwyddiadau arian parod bob mis, roedd gan dderbynyddion fynediad parhaus at wasanaethau arferol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys mynediad at Gynghorydd Personol. Fel rhan o'r cynllun peilot, gallai pobl ifanc gael mynediad at gyngor ariannol arbenigol, a ddarparwyd gan Gyngor ar Bopeth yn y rhan fwyaf o leoliadau. Roedd hyn yn cynnwys cyfrifiadau 'Gwell eich Byd' a oedd ar gael cyn i bobl ifanc gofrestru ar gyfer y cynllun, er mwyn sicrhau na fyddai unigolion yn waeth eu byd yn ariannol drwy gofrestru, er enghraifft oherwydd gwell hawliau i fudd-daliadau lles o ganlyniad i anghenion iechyd neu ofal cymhleth, na fyddai ar gael mwyach o bosibl.

4.37 Yn aml, mae llawer o weithwyr proffesiynol yn ymwneud â bywydau pobl ifanc sy’n derbyn gofal, felly nid yw’n syndod efallai nad oedd y rhan fwyaf yn cofio enw'r gwasanaeth neu'r gweithiwr proffesiynol yn glir, na manylion eu cyfarfod cychwynnol. Yn hytrach, roedd pobl ifanc yn tueddu i gyfeirio at 'un o'r cyfarfodydd' ar y dechrau, yn enwedig pan atgoffwyd nhw gan gyfeirio at y cyfrifiad 'Gwell eich Byd.’ Roedd atgofion eraill yn ansicr hefyd, gyda datganiadau yn cynnwys 'Dydw i ddim yn cofio' (YP17) a'r 'dyn arall yma a oedd yn gweithio i BIP. Ac... roedden nhw'n gofyn i mi am fy nhreuliau' (YP14).

4.38 Er gwaethaf hyn, derbyniwyd yn gyffredinol bod argaeledd cyngor ariannol i helpu pobl ifanc i reoli'r arian yn bwysig. Ar gyfer lleiafrif o’r ymatebwyr a gymerodd ran mewn cyfweliadau, roedd cyflwyno gweithiwr Cyngor ar Bopeth, neu weithiwr cyfatebol, wedi arwain at wiriadau ariannol rheolaidd:

> 'Ie, fe siarades i â rhywun, ac mae hi'n gweithio yng Nghyngor ar Bopeth yng nghanol y dref, ac fe ges i hi ar y cychwyn cyntaf. Felly, mae hi'n cael cyfarfodydd gyda fi tua unwaith y mis, neu unwaith bob dau fis, dim ond i weld sut mae pethau’n mynd, a siarad am faint rydw i wedi'i gynilo, a beth gwaries i fy arian arno, a phethau fel ’na. Ac yna, yn amlwg, mae hi'n rhoi cyngor hefyd, am beth fyddai o gymorth gyda'r arian weithiau, a phethau. ' (YP1)

4.39 Fodd bynnag, yn fwy cyffredin, roedd pobl ifanc yn teimlo'n dawel eu meddwl eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar gyngor ariannol a chymorth os oedd arnynt ei angen:

> 'Fe ges i gyflwyniad gyda [enw], ac fe esboniodd hi beth yw ei rôl a sut gall hi helpu a phethau.... Dydw i ddim wedi angen cael unrhyw gyngor ganddi ar hyn

o bryd, ond os oes angen i mi wneud hynny, mae gen i ei manylion cyswllt i gysylltu â hi. ' (YP27)

'Rwy'n hoff iawn o'r ffaith, cyn i chi fynd ar BI, eu bod nhw’n eich anfon i gael sgwrs fach gyda Chyngor ar Bopeth... mae gen i eu cyfeiriad e-bost nhw o hyd, yr un dyn, fel cyswllt uniongyrchol. Os bydd byth arna’ i ei angen. Yn bersonol, dwi’n credu bod hynny’n wych oherwydd byddwn i ddim wedi mynd i Gyngor ar Bopeth unrhyw bryd, ond nawr rwy'n gwybod beth maen nhw ar ei gyfer, os bydd gen i unrhyw broblemau yn nes ymlaen, nid dim ond am BI, ond unrhyw beth y gallai Cyngor ar Bopeth helpu gydag ef. Mae gen i linell yn uniongyrchol at rywun nawr, a fydd yn gallu siarad amdano. Felly, mae'n syniad da yn gyffredinol mewn gwirionedd. ' (YP2)

4.40 Mae'n ymddangos bod gwybod bod arbenigwr y gallent droi ato os oedd arnynt angen cyngor ariannol yn dawelwch meddwl i lawer, er bod atgofion pobl ifanc am gyngor ariannol ar ddechrau'r cynllun peilot yn annelwig, a bod eu hymgysylltiad â chymorth yn amrywio.

**Ymgysylltu â Chynghorwyr Personol a gweithwyr proffesiynol eraill**

4.41 Fel y nodwyd uchod, roedd gan bobl ifanc fynediad a hawl i gymorth i’r rhai sy’n gadael gofal tra oeddent yn derbyn yr incwm sylfaenol. O'r herwydd, cyfeiriodd llawer at eu rhyngweithiadau ag ystod o weithwyr proffesiynol yr oeddent yn ymgysylltu â nhw ac fe’u disgrifiwyd fel ffynonellau pwysig o wybodaeth a chyngor ynglŷn â’r incwm sylfaenol. Disgrifiodd un cyfranogwr gynnal cysylltiad â'i weithiwr cymdeithasol, ynghyd â gweithiwr cymorth:

'Os oes arna’ i eu hangen [gweithwyr proffesiynol], rwy'n anfon neges atyn nhw. Rydw i hefyd yn anfon negeseuon at fy hen weithiwr cymdeithasol, mae hi bob amser yn gofyn amdana’ i beth bynnag a hi yw'r gweithiwr cymdeithasol ar gyfer fy mrodyr a’m chwiorydd. Mae gen i weithiwr cymorth hefyd...mae hi'n cadw llygad arna’ i. Rwy'n cwrdd â hi ar ôl hyn. ' (YP29)

4.42 Er bod nifer y gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau yr oedd â phobl ifanc yn ymwneud â nhw yn amrywio, ffynhonnell allweddol o gymorth i lawer oedd y Cynghorydd Personol:

'Roedd fy Nghynghorydd Personol yno, ac fe esboniodd hi’r cynllun peilot i mi. Fe dawelodd hi fy meddwl ac fe siaradon ni drwy gynllun a sut rydw i'n mynd i ddefnyddio'r arian a, chi’n gwybod... Roedd hi'n anhygoel, fel bob amser. Unrhyw beth dydw i ddim yn ei wybod, os nad yw hi'n gwybod, bydd hi'n chwilio am yr ateb.' (YP13)

'Fe siaradodd hi â fi am sut, os oedd angen, gallwn i gael help gyda chyllidebu a dysgu sut i gynilo a rheoli arian a hynny i gyd, ac roedd hi bob amser yn dweud wrtha i y gallwn ddod ati os oeddwn i angen cymorth gyda [yr incwm

sylfaenol]. Oherwydd rwy'n credu weithiau, i rai pobl, fe allai fod yn dipyn o arian. Mae'n wir, dwi ddim yn gwadu hynny, ond mae'n llawer o arian ac fel y dywedes i o'r blaen, dwi'n credu ei bod yn llethol cael hyn yn sydyn a meddwl, wel, beth dwi'n ei wneud ag ef nawr. Ond mae hi wastad wedi bod yno i ddweud wrtha i, os oes angen help arnat ti i drefnu hyn a'r llall, byddwn ni'n ei wneud. ' (YP8)

4.43 Mae'r sylwadau uchod yn dangos y potensial i rai pobl ifanc fod yn bryderus ynglŷn â'r syniad o reoli'r incwm uwch neu gael eu llethu ganddo. Cyfeiriodd y bobl ifanc a gyfwelwyd dro ar ôl tro at y Cynghorydd Personol fel rhywun sy'n darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol. Yn gyson â hyn, roedd y mwyafrif yn credu nad oedd unrhyw newid i'w hymgysylltiad â'u Cynghorydd Personol o ganlyniad i'r cynllun peilot:

'Fe wnes i gyfarfod â'm Cynghorydd Personol o'r blaen. A bod yn onest, nid yw wedi newid llawer. Mae hi'n rhoi i mi... mae hi'n dal i wneud yr un peth, mae hi'n dal i anfon popeth y mae arna' i angen help gydag ef neu fynediad ato, felly nid yw'n wahanol, na.' (YP8)

4.44 Er ei bod yn bwysig nodi nad oedd y cyfranogwyr yn gallu cymharu'r cymorth â'r hyn y byddent wedi'i gael heb y cynllun peilot yn ystod y cyfnod pontio hanfodol hwn mewn bywyd, roedd pobl ifanc serch hynny'n gweld eu Cynghorydd Personol fel adnodd allweddol ac yn dibynnu arnynt am gyngor ar gynilion a chynllunio sut i ddefnyddio cyllid. Yn yr un modd, dywedodd cyfranogwyr fod eu Cynghorydd Personol hefyd yn rhoi anogaeth, cyngor a / neu rybuddion parhaus ynghylch gwario. Yn ôl un person ifanc, byddai ei Gynghorydd Personol yn:

'... cadw llygad arnoch chi, gweld beth rydych chi wedi bod yn gwario arian arno. Gwneud yn siŵr eich bod chi'n ei wneud yn gywir, eich cynghori i gynilo, ac yn y bôn, popeth y gallech ofyn i rywun wneud yn siŵr bod gennych chi'r arian y tu ôl i hynny, rhag ofn y bydd ei angen arnoch chi.' (YP3)

4.45 Roedd un arall yn gwerthfawrogi'r cyngor ynghylch cynilo a chydnabu 'Rwy'n anobeithiol am gynilo beth bynnag, felly... mae'n eithaf anodd i mi gynilo, ond mae hi'n fy atgoffa bob dydd i gynilo.' (YP12). Eithriad i hyn oedd un person ifanc a ddywedodd fod yr incwm sylfaenol wedi lleihau faint o weithiau yr oedd yn ceisio cymorth gan ei Gynghorydd Personol, oherwydd bod yr incwm sylfaenol yn negyddu'r angen am gymorth ariannol gan y cyngor:

'Mae wedi bod ychydig yn llai oherwydd pan oedd angen i mi, er enghraifft, gael arian ar gyfer rhywbeth, roedd rhaid i mi ofyn a allai'r cyngor fy nghynorthwyo. Rydw i wedi gallu defnyddio'r arian incwm sylfaenol yn lle hynny.' (YP20)

4.46 Ar y cyfan, mae hyn yn awgrymu bod llawer o bobl ifanc yn gwerthfawrogi cymorth gweithwyr proffesiynol y gellir ymddiried ynddynt, ac yn arbennig y Cynghorydd

Personol, yn ystod camau cynnar y cynllun peilot. Fodd bynnag, i leiafrif o'n sampl, roedd llai o gymorth ar gael. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc y byddai wedi hoffi cael mwy o wybodaeth am y cynllun peilot. Pan ofynnwyd iddo am yr hyn a ddywedwyd wrtho i ddechrau:

> 'Cyfranogwr: Dim llawer mewn gwirionedd, ond y cyfan y dywedodd hi mewn gwirionedd oedd rydych chi'n ei gael dros ddwy flynedd, ...rydych chi'n ei gael dros ddwy flynedd, a chi'n gwybod, mae'n eich helpu gyda phethau fel 'na. Rhoddodd hi ddim disgrifiad llawn i mi o beth ydoedd mewn gwirionedd.
>
> Cyfwelydd: A fyddech chi wedi hoffi ychydig mwy o wybodaeth?
>
> Cyfranogwr: Yn bersonol, ie.' (YP12)

4.47 Roedd enghreifftiau eraill hefyd o bobl ifanc yn adrodd bod angen gwybodaeth neu gymorth nad oedd ar ddod:

> 'Dwi ddim yn gallu gwneud fy ffurflen ad-daliad treth, mae mor hir. Fe ofynnes i i'm Cynghorydd Personol ac fe ddywedodd hi wrtha i am ei llenwi. Ond dyw hynny ddim yn ddefnyddiol. Fe anfones i neges atoch chi am reswm.... Doedd gen i ddim syniad beth oedd rhaid i mi ei wneud, felly fe anfones i neges ati hi yn gofyn iddi fy helpu i plîs. Fe ddywedodd hi, mae'n rhaid i ti ei llenwi a'i hanfon yn ôl. Mae'n ffurflen 15 tudalen, dwi ddim yn deall dim ohoni, plîs helpa fi.' (YP7)
>
> 'Fe wnes i geisio gofyn i [Cynghorydd Personol] fy rhoi mewn cysylltiad â rhywun ynglŷn â chyllidebu ers hynny, ychydig o weithiau, ond dwi ddim wedi cael unrhyw gysylltiad ag unrhyw gyngor ariannol ers hynny. Felly, er enghraifft, byddwn i'n dechrau cyfrif cynilo efallai, i roi rhywfaint o'r arian i mewn fel y gallai fy helpu ar ôl y brifysgol, oherwydd yn amlwg yn y brifysgol mae cymorth arall y gallaf ei gael heblaw am y cynllun peilot. Ond dwi ddim wedi gallu holi neb am gynilion na dim tebyg oherwydd dwi wedi gofyn, ond does dim cymorth ar gael. ' (YP20)

4.48 Efallai bod hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa lle'r oedd Cynghorwyr Personol yn dysgu am sut oedd y cynllun peilot yn gweithio'n ymarferol ar yr un pryd â'r derbynyddion, fel y mae ein dadansoddiad arall wedi awgrymu, ac fel y sylwodd un person ifanc:

> 'Roedd [cymorth gan y Cynghorydd Personol] yn ddefnyddiol... ond nid yw llawer o Gynghorwyr Personol a gweithwyr cymdeithasol yn deall y cynllun peilot eu hunain mewn gwirionedd oherwydd mae'n amlwg ei fod yn newydd... Felly, rydych chi'n gofyn cwestiynau iddyn nhw ac maen nhw'n mynd yn ôl ac yn gofyn cwestiynau i bobl eraill, ac mae oedi cyn cael yr atebion.' (YP11)

4.49 Fel y tystiwyd o'r blaen, roedd pobl ifanc yn ein sampl yn ymwybodol o'r cyfle a gyflwynwyd gan y cynllun peilot ac weithiau roeddent yn teimlo'n ansicr, wedi'u gorlethu neu'n bryderus ynglŷn â rheoli'r arian. Er eu bod yn deall 'newydd-deb' y

cynllun peilot a'r oedi a'r ansicrwydd cysylltiedig, roedd angen cyngor amserol a chywir ar bobl ifanc serch hynny, yn ogystal â chymorth ymatebol a rhagweithiol. Mae’n ymddangos bod y cymorth hwn ar gael i raddau amrywiol.

**Cymorth anffurfiol**

4.50 Yn ogystal â chymorth proffesiynol, cyfeiriodd pobl ifanc hefyd at y cymorth a oedd ar gael gan aelodau'r teulu a gofalwyr. Roedd rhai yn ystyried bod aelodau'r teulu, gofalwyr a phartneriaid yn ffynonellau da o gyngor gan eu bod yn deall eu sefyllfa. Dywedodd un:

> 'Rwy'n ymddiried yn eu barn [aelodau'r teulu]. Maen nhw wedi bod trwy'r rhan fwyaf o'r hyn dwi wedi bod trwyddo, ac maen nhw wedi llwyddo mewn bywyd hyd yn hyn, felly byddwn yn derbyn eu cyngor a'u cymorth, oherwydd maen nhw'n gwybod beth maen nhw'n ei ddweud a beth maen nhw'n ei wneud .' (YP33)

4.51 Trafododd cyfranogwyr eraill sut oedd aelodau'r teulu a gofalwyr wedi rhoi cyngor ac arweiniad ynghylch gwario a chynilo’r incwm sylfaenol. Mae enghreifftiau’n cynnwys y person ifanc y mae ei frawd yn 'dweud wrtha i am ei gynilo' (YP30), un yr oedd ei ofalwr maeth wedi’i helpu i agor cyfrif cynilo (YP3), ac un arall yr oedd ei fam wedi atgyfnerthu’r cyngor gan Gyngor ar Bopeth:

> 'Fe ges i sgwrs fach [gyda fy mam], ac fe ddywedodd hi... yr un fath o beth ag y dywedodd Cyngor ar Bopeth. Paid â’i wastraffu ar bopeth... Oherwydd ei fod... mae'n... byddai’n wastraff arian.' (YP18)

4.52 Mae'r sylwadau uchod yn gyson â'r rhai a adroddwyd mewn perthynas â gweithwyr proffesiynol allweddol, lle mae unigolion yn dangos diddordeb yn nefnydd pobl ifanc o'r arian ac yn annog penderfyniadau gwario a chynilo cadarnhaol.

4.53 Mewn cyferbyniad â'r sylwadau uchod, roedd cymhlethdod perthnasoedd pobl ifanc yn amlwg weithiau wrth i gyfranogwyr ddatgelu profiadau negyddol neu ddweud eu bod wedi dewis peidio â dweud wrth aelodau'r teulu neu ffrindiau am y cynllun peilot. Mae hyn yn cynnwys enghraifft a adroddwyd i ni, lle’r oedd cyn-bartner cyfranogwr 'eisiau arian yn unig' ganddo (a dywedwyd wrtho am 'fynd i ddod o hyd i dy arian dy hun') (YP32), ac eraill a adroddodd am fod yn ofalus ynghylch pwy oedd yn gwybod eu bod yn rhan o'r cynllun peilot:

> 'Dwi ddim wedi dweud wrth neb fy mod yn [derbyn yr arian], ar wahân i wasanaethau cymdeithasol, fi fy hun, a phobl eraill ar y BIP, dwi'n credu, nid oes llawer o bobl yn gwybod fy mod i arno. Byddai'n well gen i beidio â dweud wrthyn nhw; does dim angen iddyn nhw wybod.' (YP4)

> 'Rwy'n credu y byddai wedi bod yn her petawn i wedi datgelu i bob un o'm ffrindiau a fy mam fy mod wedi cael yr holl arian yma.' (YP6)

4.54 Mae'r enghreifftiau hyn yn ymwneud â phryderon ehangach, a nodwyd yn ein dadansoddiad o ganfyddiadau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol (Holland et al., 2024), am y posibilrwydd o gamfanteisio. Codwyd yr un mater yn rhai o’r cyfweliadau â chefnogwyr. Er enghraifft, adroddodd un Cynghorydd Personol fod y person ifanc y mae'n gweithio gydag ef wedi penderfynu peidio â dweud wrth aelod agos o'r teulu am yr incwm sylfaenol oherwydd bod y person ifanc 'yn gwybod os oedd [yr aelod o'r teulu] yn gwybod, byddai [yr aelod o'r teulu] yn ei ffonio yn gofyn am arian' (SUP5).

4.55 Ar y llaw arall, roedd enghreifftiau eraill lle datgelodd pobl ifanc fod yr incwm sylfaenol wedi caniatáu iddynt gefnogi aelodau'r teulu yr oedd arnynt ei angen:

> 'Rwy'n aml yn rhoi benthyg arian i'm modryb drwy gydol y mis, os oes ei angen arni, ond rwy'n ei gael yn ôl yn syth. Rwy'n rhoi decpunt i'm brawd nawr ac yn y man. Yr un peth gyda fy chwaer hefyd.' (YP1)

> 'Mae gen i frawd/chwaer ac weithiau roeddwn i'n prynu ychydig o fwyd neu rywbeth neu anrheg iddyn nhw a dyna ni.' (YP20)

> 'Os yw fy mam neu fy mam-gu’n cael trafferth, bydda i’n rhoi rhywbeth bach iddyn nhw , chi'n gwybod. Bydden nhw’n gwneud yr un peth i mi.' (YP29)

4.56 Yn yr enghreifftiau hyn, roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cyfle i roi yn hytrach na derbyn cymorth. Nid oedd yn ymddangos bod y cyfranogwyr hyn yn credu bod rhoi arian i ffrindiau a theulu yn 'echdynnol' neu’n orfodaethol, ond yn hytrach yn gilyddol. Roedd yn ymddangos eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i helpu'r rhai sy'n agos atynt, yn enwedig oherwydd nodwyd bod teuluoedd yn byw mewn tlodi hefyd. Myfyriodd Cynghorydd Personol ar hyn mewn perthynas ag un o'r bobl ifanc y mae’n ei gynorthwyo:

> 'Mae ei theulu’n bwysig iawn iddi ac rwy’n credu bod llawer o’i harian wedi mynd ar brynu pethau iddyn nhw, siopa am fwyd oherwydd nid oes gan ei rhieni lawer o arian, chi’n gwybod, prynu bwyd ar gyfer y tŷ a chynorthwyo pawb arall... Rwy'n credu mai dyna beth mae hi wedi’i gymryd o hyn ac mae hi wedi mwynhau hynny, wyddoch chi, dwi ddim yn credu eu bod nhw wedi bod yn cymryd oddi wrthi.' (SUP4)

**Effeithiau canfyddedig**

4.57 Mae'r adran hon yn crynhoi'r ffyrdd yr oedd y cyfranogwyr yn ystyried bod yr incwm sylfaenol yn effeithio ar eu bywydau ym mlwyddyn gyntaf y cynllun peilot. Mae'n bwysig pwysleisio mai *canfyddiadau* grŵp bach o gyfranogwyr yw'r rhain ac na ddylid eu dehongli fel effeithiau'r cynllun peilot yn ei gyfanrwydd, a fydd yn sail i ddadansoddiad cymharol meintiol maes o law. Serch hynny, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos sut mae rhai cyfranogwyr yn teimlo am y cynllun peilot a pha rôl

sydd ganddo yn eu bywydau ac yn nodi ffyrdd y gallai'r cynllun peilot fod yn cael effeithiau ar y canlyniadau o ddiddordeb.

4.58 Roedd tair thema yn amlwg o'n dadansoddiad mewn perthynas â (1) llythrennedd ariannol pobl ifanc, (2) iechyd a lles ac (3) ymreolaeth a rheolaeth.

**a) Datblygu llythrennedd ariannol**

4.59 Disgrifiodd llawer o gyfranogwyr broses o ddysgu ac addasu i dderbyn yr incwm sylfaenol. Fel rhan o hyn, roedd pobl ifanc weithiau'n hunan-feirniadol am eu bod wedi prynu pethau ‘twp’, neu’n parhau i wneud hynny. Roedd hyn yn ymwneud â gwario ar bethau yr oeddent yn teimlo nad oedd eu hangen arnynt mewn gwirionedd, er enghraifft:

> 'Ie, weithiau dwi'n prynu pethau twp... Mae gen i Xbox, er enghraifft. Weithiau dwi'n prynu pethau ar Xbox... Mae rhai ohonyn nhw'n gemau, mae rhai ohonyn nhw’n docynnau brwydr a phethau fel ’na.' (YP12)

> 'Mae gen i broblem siopa, chi’n gwybod.  Os dwi’n gweld dillad pert i fabanod, dwi'n eu codi nhw, chi’n deall.' (YP7)

4.60 Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd gofalwr sy’n berthynas:

> 'Mae [person ifanc] yn hoffi bod allan drwy'r amser, ac fe ddywedais, fe esboniais wrthi, “Os a phan fydd yr arian yna'n dod i ben, does dim mwy.” Dywedais, “bydd angen i ti gynilo ychydig bach,... oherwydd ni fydd yno am byth, ac yna fe fyddi di’n edrych yn ôl ac yn meddwl, wel, byddai’n dda gen i taswn i wedi cynilo ychydig ohono.”' (SUP2)

4.61 Maes arall o wariant yr adroddodd rhai pobl ifanc eu bod wedi dysgu amdano oedd gorwario ar alcohol neu gyffuriau yn gynnar yn y cynllun peilot, ond cymedroli hyn yn ddiweddarach:

> 'Oherwydd... ddim yn hir yn ôl roeddwn i'n ’smygu wîd, a dyna lle'r oedd fy holl arian yn mynd, a doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod ble’r oedd yn mynd.' (YP28)

> 'Dwi'n mynd i fod yn onest nawr. Felly, pan fu farw fy nhad-cu, roeddwn i’n isel iawn, ac yn ’smygu wîd. Roeddwn i’n prynu wîd, a byddwn i’n talu 50 punt ar wîd, a dyna ni. Ac yna byddai fy holl gyflog yn cael ei wario ar wîd, ac mae wedi bod yn bum mis ers i mi fod oddi arno.' (YP3)

4.62 Adroddodd un arall am wariant sylweddol ar alcohol yn fwy diweddar, ond disgrifiodd hyn fel defnydd negyddol o'r arian, gan ddangos awydd i wahanu gwariant o'r math hwn oddi wrth ffyrdd eraill o ddefnyddio'r arian:

> 'wel, fe es i allan o reolaeth yr wythnos o'r blaen oherwydd... chwalodd fy mherthynas yn ddiweddar, ac roeddwn i'n gwario... yn y bôn, oherwydd bod

gen i tua £800 yn fy nghyfrif, fe waries i £300 yn y pen draw. Y cyfan ar alcohol.' (YP16)

4.63 Datgelodd llawer o'r cyfranogwyr mai'r incwm sylfaenol oedd y tro cyntaf iddynt deimlo bod 'ganddynt arian' a dywedasant eu bod wedi cael trafferth i ddechrau wrth flaenoriaethu'r pethau yr oeddent eu hangen ar draul y pethau yr oeddent eu heisiau. Yn galonogol, newidiodd patrymau gwariant yn ystod y cynllun peilot, ac roedd llawer o bobl ifanc yn credu bod eu sgiliau llythrennedd ariannol wedi datblygu yn ystod y camau cynnar. Disgrifiodd pobl ifanc fyfyrio ar eu gwariant a'i addasu dros amser. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc:

> 'Ar y dechrau, roeddwn i'n ei wario ar unrhyw beth ac yna, yn amlwg fe ges i, fe ofynnes i am gyngor ar beth i'w wneud oherwydd roeddwn i'n sylweddoli, dwi'n cael pethau ac mae'n... nid dyna beth dwi ei angen. ' (YP18)

4.64 Mae'r sylw uchod yn adleisio'r drafodaeth flaenorol a nododd sut oedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi cyngor a chymorth a oedd ar gael o ffynonellau dibynadwy. Mewn enghreifftiau eraill, disgrifiodd pobl ifanc gynnydd o ran cynilo a chyllidebu:

> 'Roedd hi'n anodd cynilo ar y dechrau...Oherwydd roeddwn i'n meddwl, "O, mae hynny'n llawer o arian." Felly, roedd fy ymennydd yn dweud, "Fe ddylen ni ei wario." Ond wedyn, yn y pen draw, fe ddes i'n gyfarwydd ag ef, ac fe ddysges i sut i gyllidebu...' (YP17)

> 'Mae wedi dangos i mi sut beth ydyw mewn gwirionedd... sut byddai 'taswn i'n byw ar fy mhen fy hun, yn annibynnol, a sut... ac mewn gwirionedd mae wedi fy helpu i gyllidebu, nid dim ond gwario ar beth bynnag, ar bethau nad oes eu hangen mewn gwirionedd.' (YP27)

4.65 Trafodwyd cynilo'n fynych mewn cyfweliadau. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr at bwysigrwydd cynilo, gan fod yr incwm sylfaenol am gyfnod cyfyngedig, a gwnaethant fynegi eu dymuniad i sicrhau rhywfaint o fudd tymor hwy a / neu sicrwydd ar gyfer y dyfodol. Mae hyn i'w ddisgwyl, efallai, o ystyried yr hyn a wyddom am yr ansicrwydd y mae pobl sy'n gadael gofal yn ei wynebu a'r ffaith nad yw llawer ohonynt yn gallu dibynnu ar gymorth gan eu teuluoedd.

> 'Dwi'n credu gyda Chredyd Cynhwysol, mae'n cael ei gyllidebu ar gyfer y mis hwnnw i raddau helaeth... Ond gyda BIP, gan fy mod yn gweithio, dwi am gynilo ar gyfer y brifysgol, dwi am gynilo ar gyfer... llawer o bethau. Car, gwersi gyrru...' (YP14)

> 'Dwi eisiau gwneud yn siŵr bod gen i rywbeth wrth gefn, oherwydd does gen i ddim syniad i ble dwi'n mynd yn fy mywyd, felly mae angen i mi wybod, chi'n gwybod, os byddaf yn penderfynu mynd i'r brifysgol neu'n penderfynu symud allan, neu os byddaf yn penderfynu mynd am y swydd hon neu'r llall, byddaf yn gallu cynnal fy hun a gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn.' (YP23)

4.66 Yn gysylltiedig â hyn, trafododd rhai pobl ifanc ddewisiadau ynghylch amlder taliadau (yn fisol neu ddwywaith y mis) a chysylltu hyn â chylchoedd ariannol eraill yr oeddent wedi'u sefydlu. Er nad oedd pob person ifanc wedi dweud y cynigiwyd dewis iddynt yn y mater hwn, roedd y rhai y rhoddwyd dewis iddynt fel arfer yn disgrifio gwneud penderfyniad gwybodus er mwyn eu helpu i gyllidebu. I rai, roedd taliad misol yn efelychu cyflog gwaith ac yn cyd-fynd â chylchoedd rhenti a biliau.

> 'Cyfwelydd: Rydych chi’n ei gael...
>
> Cyfranogwr: Bob mis.
>
> Cyfwelydd: A pham oedd hynny? Beth ysgogodd y penderfyniad i fynd bob pythefnos neu bob mis?
>
> Cyfranogwr: Mae’n haws talu'r rhent.' (YP32)

4.67 Ystyriodd eraill eu harferion gwario eu hunain a sôn am sut oedd cael arian ddwywaith y mis yn golygu nad oeddent byth yn ei ddefnyddio i gyd cyn diwedd y mis.

> 'Felly, dwi'n hoffi ei dderbyn mewn dau daliad, oherwydd mae hefyd yn fy helpu gyda'r ochr gynilo, oherwydd dwi’n defnyddio’r hanner cyntaf, ac yna’n cynilo’r hanner arall, ac mae'n gweithio'n eithaf da i mi hefyd. Mae hefyd yn ei ledaenu ar draws y mis. Ie. Felly, dwi ddim yn ei dderbyn i gyd ar unwaith, yn gwario’r cyfan, ac yna’n eistedd am weddill y mis yn dweud “Does gen i ddim arian”.' (YP2)

4.68 Trafododd rhai pobl ifanc wariant strategol hefyd, er enghraifft, gwario gwahanol ffynonellau incwm at wahanol ddibenion a'i reoli mewn gwahanol ffyrdd gan ddefnyddio gwahanol offer. Roedd hyn yn wir am berson ifanc oedd ar fin dechrau cwrs prifysgol:

> 'Ie, yn enwedig nawr dwi'n mynd i'r brifysgol oherwydd byddaf yn cael cymorth gan fenthyciadau myfyrwyr i dalu am y brifysgol a byddai'n braf rhoi rhywfaint o arian o'r neilltu ar gyfer y dyfodol ac mae cyfrif cynilo yn ymddangos fel ffordd ddoeth o wneud hynny, yn enwedig o ystyried cyfraddau llog presennol.' (YP20)

**b) Iechyd meddwl a lles**

4.69 Lleddfu anawsterau iechyd meddwl a gwella lles oedd dau o'r canlyniadau o ddiddordeb a amlinellwyd ar ddechrau'r cynllun peilot, felly mae'r cyfweliadau hyn yn cynnig cipolwg cynnar ar sut mae pobl ifanc yn credu bod y cynllun peilot yn effeithio arnynt. Yn ystod y cyfweliadau, gwnaethant gyfeirio'n aml at straen ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig â gadael gofal, gan adleisio'r hyn y mae gwaith ymchwil blaenorol wedi'i ddangos am y mater hwn a nodwyd uchod. Adroddodd pobl ifanc

dro ar ôl tro fod yr incwm sylfaenol wedi lleddfu eu pryderon a'u helpu i reoli pryderon:

> 'Rwy'n dioddef gyda phryder, felly po leiaf straen, gorau oll, i mi... Mae [y cynllun peilot] wedi cael effaith sylweddol iawn, ond nid yn y ffordd y byddech chi'n meddwl, hynny yw. Mae’r effaith yn fwy ar fy iechyd meddwl, y straen a’r pryderon sy’n gysylltiedig â chyllid a phethau eraill... Rwy'n teimlo bod fy nyfodol yn fy rheolaeth oherwydd dydw i ddim yn cael fy rhuthro i mewn iddo. Gallaf ei wneud ar fy nghyflymder i.’ (YP2)
>
> 'Ie, rwy'n teimlo bod gen i reolaeth ar fy mywyd. ’Taswn i ddim yn cael y BIP, byddwn i wedi bod yn teimlo straen, oherwydd dwi’n pryderu. Byddai wedi difetha fy iechyd meddwl llawer. A gyda'r straen sy’n gysylltiedig â mynd i’r coleg, mae'n debyg na fyddwn i'n gallu mynd i'r coleg oherwydd y straen.' (YP1)

4.70 Mae'r ddau gyfranogwr hyn yn cyfeirio at deimlo bod ganddynt fwy o ‘reolaeth’ ar eu bywydau o ganlyniad i'r incwm sylfaenol. Roedd syniadau o ymreolaeth a rheolaeth yn codi droeon ac fe'u trafodir ymhellach isod. Yn bwysig, ystyriwyd bod ymdeimlad cynyddol pobl ifanc o reolaeth yn fuddiol i'w hiechyd meddwl. Roedd hyn hefyd yn cael ei gydnabod gan drydydd partïon. O ran un Cynghorydd Personol, roedd y manteision i'r person ifanc y mae'n ei gefnogi yn weladwy yn ei golwg a'i hymarweddiad:

> 'Yn ddiweddar, aeth [y person ifanc] i swyddfa'r awdurdod lleol a sylwodd pawb ar yr effaith yr oedd yn ei chael arni’n gorfforol. Mae hi'n edrych mor dda, mor hamddenol ac mor hapus â’r dewisiadau mae hi wedi'u gwneud yn ddiweddar.' (SUP8)

4.71 Yn ogystal â lleihau ansicrwydd, credid hefyd bod yr eitemau materol a'r gweithgareddau a ariannwyd trwy'r incwm sylfaenol yn rhoi hwb i iechyd meddwl:

> 'Rwy'n prynu dillad sy'n gwneud i mi deimlo'n dda... Ac... o, ac yn lliwio fy ngwallt... Yn cael gwneud fy holl ewinedd. ... Nawr, rwy’n gallu gwneud i fy hun deimlo'n well, trwy wneud y pethau hyn. Mae'n gwella eich hyder a, chi’n gwybod, yn gwneud i chi deimlo'n dda, yn gwneud i chi deimlo'n well.' (YP14)
>
> 'Ac mae'n rhoi'r arian ychwanegol yna iddyn nhw i... wneud hobi; er enghraifft, dwi'n pobi nawr... Felly, fe ganiataodd i mi gael ychydig bach o’r plentyndod yna yn ôl.' (YP13)

4.72 Er bod pobl ifanc weithiau'n cyfeirio at wariant o'r fath fel rhoi 'trît' i’w hunain, sy’n debycach i wario ar yr hyn rydych chi ei eisiau yn hytrach na’i angen, roedd y cyfranogwyr yn gwneud cysylltiadau’n gyson rhwng yr incwm sylfaenol a gwell iechyd meddwl a lles. Amlygwyd hyn hefyd gan bartner a fyfyriodd:

'Rydw i wedi sylwi, ers iddi allu darparu ar ei chyfer ei hun, prynu pethau neis i'w hun, bod ei hiechyd meddwl wedi gwella cymaint. Er efallai na fydd hi'n meddwl hynny, mae hi wedi'n sicr. [...] Mae hi'n gallu prynu pethau i'w hun, gwneud i'w hun deimlo'n well. Mae hi'n gallu cael tatŵs, mae hi'n gallu bwyta, mae hi'n gallu cael y bwyd mae hi ei eisiau, mae hi'n gallu cael McDonald's os ydy hi eisiau, mae ganddi hynny...' (SUP6)

4.73 Credwyd bod mwy o ddewis o ran gwario a'r gallu i roi trît i'ch hun yn lleihau stigma - mewn rhai achosion, gan leihau'r ymdeimlad o wahaniaeth ac anfantais a deimlir gan rai cyfranogwyr. Yn hytrach na theimlo fel 'plentyn maeth ystrydebol [sydd i gyd] â rhywbeth yn bod a phethau [heb] lawer o deulu, nac unrhyw beth yn digwydd yn ein bywydau' (YP17), adroddodd llawer o dderbynyddion fod yr incwm wedi cynyddu eu cyfranogiad mewn cymdeithas. Roedd hyn yn cynnwys gwneud pethau ar eu pen eu hunain a chyda phobl eraill, yn gwneud gweithgareddau y mae angen talu amdanynt a hefyd - yn ddiddorol - gweithgareddau rhad ac am ddim. Er enghraifft, soniodd sawl cyfwelai am ddefnyddio eu hincwm i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel cerdded, beicio, gyrru, ymweld â lleoedd newydd ac ymuno â champfeydd neu ddefnyddio'r ganolfan hamdden leol yn fwy. Er enghraifft, trafododd y derbynnydd canlynol welliannau i'w iechyd corfforol a meddyliol o ganlyniad i'r cynllun peilot:

'Byddwn i'n dweud ei fod yn golygu fy mod yn fwy sefydlog, sydd wedi golygu y gallaf ganolbwyntio ar wella fy iechyd. Roeddwn i'n afiach iawn pan ddes i i ofal, a hefyd pan oeddwn i'n gadael gofal. Felly nawr, diolch i, chi'n gwybod, gael pethau fel beic a gallu mynd allan a gwneud mwy o bethau, mae fy iechyd wedi mynd yn eithaf da..., does dim rhaid i mi fwyta rhywbeth sy'n rhad ac yn afiach. Gallaf gael pryd o fwyd nad yw'n cynnwys llwyth o galorïau a phan fyddaf yn cael pryd o fwyd dwi'n edrych ar y calorïau yn llai ac yn edrych yn fwy ar, chi'n gwybod, a yw'n ddigon iach i mi achos dwi ddim yn poeni am gael yr holl galorïau sydd eu hangen arnaf am yr arian oherwydd, chi'n gwybod, os byddaf yn gwario ychydig yn ychwanegol mae'n iawn.' (YP20)

4.74 Roedd enghreifftiau eraill yn dangos sut oedd lles pobl ifanc wedi gwella yn sgil eu gallu i dreulio amser a gwneud pethau gydag eraill:

'Rwy'n credu ei bod hi'n wych does dim rhaid i mi feddwl, "o, galla' i ddim gwneud hyn, sori, bawb,... Galla' i ddim gwneud hyn mewn gwirionedd oherwydd does gen i ddim digon o arian ar hyn o bryd", ond rwy'n gwybod bod gen i ddigon nawr ac rwy'n gwella fy lles yn yr ystyr y galla' i weld fy ffrindiau.' (YP22)

'Ac rwy'n meddwl... oherwydd bod llawer o fy... does dim un o'm ffrindiau o gefndir gofal maeth neu gefndir gadael gofal, felly rwy'n credu ei fod yn rhoi... os ydyn ni'n bwriadu gwneud rhywbeth, mae'n fy rhoi ar lefel debyg iddyn nhw.

> Felly, os ydyn nhw eisiau cynllunio rhywbeth mawr fel, wn i ddim, mynd i Fanceinion neu rywbeth, dwi'n gwybod y byddai gen i'r arian i fynd gyda nhw ac ni fyddwn i'n cael fy ngadael ar ôl.' (YP8)

> 'Felly, fe es i i [lleoliad 1 dramor] ac roedd hynny'n gymaint o hwyl. Dim ond am gwpl o ddiwrnodau yr es i gyda fy ffrindiau, ac yna fe es i i [lleoliad 2 dramor], ac fe dreulies i amser gyda fy nheulu yn [lleoliad 2 dramor].' (YP14)

4.75 Mae'r dyfyniadau hyn yn awgrymu bod gwell sefyllfa ariannol pobl ifanc wedi creu cydraddoldeb â'u cyfoedion a chaniatáu iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau y byddent wedi cael eu heithrio ohonynt yn flaenorol. Dywedwyd bod yr ymdeimlad llai o wahaniaeth ac anfantais yn fuddiol i berthnasoedd pobl ifanc ac i'w lles, ac roedd y gallu materol i ariannu gweithgareddau a oedd yn rhy ddrud o'r blaen fel petai'n cynorthwyo'r ymdeimlad hwn o gydraddoldeb ymhlith cyfoedion.

**c) Ymreolaeth a rheolaeth**

4.76 Roedd y cyfuniad hwn o fuddion emosiynol a materol a nodwyd i bobl ifanc yn rhoi ymdeimlad o ymreolaeth a rheolaeth iddynt dros eu bywydau. Gwelwyd hyn wrth i bobl ifanc deimlo'n llai dibynnol ar bobl eraill i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu - nodweddwyd hyn gan un cyfranogwr fel 'does dim rhaid i chi ddibynnu ar bobl eraill, fe allwch chi wneud pethau ar eich pen eich hun.' (YP22). Yn fwy penodol, disgrifiodd person ifanc arall hyn fel rhyddid rhag dibynnu ar gymorth gan y cyngor:

> 'Oherwydd fy mod i mewn gofal, oherwydd bod llawer o'r pethau rydw i'n eu gwneud a'r cymorth rydw i'n ei gael yn dibynnu ar y cyngor. Os ydw i eisiau, er enghraifft, cysylltu â rhywun yn y cyngor i drafod pethau, mae'n cymryd llawer o amser... mae hynny wedi gwella ychydig gyda'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol oherwydd o'r blaen roeddwn i'n dibynnu ar bobl am fwyd ac am bopeth, ond nawr dwi ddim yn dibynnu ar bobl am y pethau sylfaenol. Fe alla' i gael ychydig mwy o annibyniaeth ac mae hynny wedi bod yn eithaf defnyddiol.' (YP20)

4.77 Yn ogystal â theimlad cyffredinol o fwy o ymreolaeth a rheolaeth, cyfeiriodd pobl ifanc at agweddau penodol ar eu bywydau hefyd. Er enghraifft, adroddodd rhai am fwy o ddewis a rheolaeth mewn perthynas â thai:

> 'Gallaf fynd allan ac edrych ar fflatiau y gallwn i... y gallaf i... Wel, nid eu prynu, ond eu rhentu... gyda'r arian yna.  Hebddo, ni fyddai hynny wedi gallu digwydd.' (YP30)

> 'Felly, mae cael yr arian yma... mae wedi bod yn help mawr i mi, oherwydd fe ges i fy nhroi allan o'r lle yr oeddwn i ynddo ar ôl fy nhaliad cyntaf. Felly, roedd cael yr arian yma wedi fy helpu i gael popeth oedd ei angen arnaf ar gyfer y [lle] yma.' (YP1)

'Rydw i eisoes wedi penderfynu symud i mewn gyda fy nhad, ie. Ond roedd wedi'i gwneud yn haws, oherwydd bod fy nhad druan wedi byw ar ei ben ei hun ers cryn amser. Ac roedd yn dweud, "o, y cynnydd mewn biliau", a phethau fel 'na. Doedd e ddim wedi cyfrif am hyn, ac fe allwn i ddweud, "Fe dala' i am beth dwi'n ei ddefnyddio", a helpodd lawer gyda'r ochr ariannol; rydyn ni'n eithaf cyfforddus yn hunangynhaliol.' (YP2)

4.78 Mae dylanwad yr incwm sylfaenol ar benderfyniadau tai - ac, yn wir, diogelwch tai yn rhywbeth a nodwyd gan gefnogwyr hefyd. Roedd un Cynghorydd Personol yn credu bod y cynllun peilot wedi galluogi'r person ifanc i osgoi bod yn ddigartref:

'Felly, os nad oedd ganddi'r cynllun peilot incwm sylfaenol ac nad oedd yr arian hwnnw'n mynd yn syth i'r landlord, dwi ddim yn credu y byddent wedi ymestyn ei thenantiaeth a byddai hi wedi bod yn ddigartref ym mis Mawrth eleni.' (SUP5)

4.79 Fodd bynnag, amlygwyd a chydnabuwyd bod cyfnod cyfyngedig yr incwm sylfaenol yn darparu'r hyn a allai fod yn rhyddhad dros dro yn unig rhag heriau tai hirsefydlog. Aeth yr un Cynghorydd Personol ymlaen i roi gair o rybudd. Wrth ddisgrifio derbynnydd fel 'merch boster' ar gyfer y cynllun peilot - bod yn y brifysgol ac yn dal swydd ar yr un pryd - roedd hi'n rhagweld y byddai diwedd y cynllun peilot yn broblemus:

'Ni fydd hi'n gallu fforddio rhent o £700 y mis. Hyd yn oed gyda dwy swydd, grantiau prifysgol, bwrsariaethau, ni fydd hi'n gallu fforddio'r rhent yna a'r holl filiau yna oni bai bod newid enfawr yn y system.' (SUP5)

4.80 Mae'r sylwadau uchod yn awgrymu, o fewn paramedrau'r cynllun peilot, bod yr incwm sylfaenol wedi cynyddu dewis pobl ifanc o dai, darparu adnoddau i roi annibyniaeth ariannol ac ymdopi â newidiadau tai annisgwyl. Cyfeiriwyd at y syniad o allu ymdopi â sefyllfaoedd annisgwyl neu annodweddiadol hefyd mewn cyfweliadau eraill:

'Ac yna pan sylweddoles i fy mod i'n feichiog, roeddwn i fel, iawn. Ac yna fe feddylies i, mae'r arian yma'n ddefnyddiol iawn, chi'n gwybod, oherwydd fe brynes i fy... fe brynes i fy mhram gydag ef, fe brynes i fy masged Moses, dwi wedi prynu popeth ar gyfer y baban o'r arian yma.' (YP7)

'Yn ddiweddar, byddwn i'n dweud tua mis yn ôl, fe ges i ffit, ac roeddwn i'n... Doeddwn i ddim yn gallu cyrraedd yr ysbyty, a'r bore y ges i'r ffit yna, fe ges i rywfaint o arian o incwm sylfaenol, ac roeddwn i'n gallu cael... tacsi i lawr i'r ysbyty er mwyn gallu cael fy nhrin.' (YP12)

4.81 Yn amlwg, mae gan gyfranogwyr ar y cynllun peilot ystod eang o wahanol brofiadau, ac eto mae ymdeimlad a rennir bod yr incwm sylfaenol wedi eu galluogi i reoli ac ymdopi â digwyddiadau disgwyliedig ac annisgwyl. Fel y dengys yr

enghreifftiau hyn, yn achos beichiogrwydd heb ei gynllunio, neu argyfwng meddygol, mae'r incwm sylfaenol yn amlwg wedi gwneud bywyd yn haws.

4.82 O ran cynllunio ar gyfer y dyfodol, dywedodd pobl ifanc hefyd eu bod yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth. Er bod y cynllun peilot wedi lleihau'r pwysau a deimlai pobl ifanc i sicrhau incwm, roedd y rhai y siaradom â nhw yn aml yn dal i fod yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad:

> 'Dydw i ddim yn mynd i fyw ar yr arian yn unig am ddwy flynedd ac yna cael swydd, oherwydd bod dwy flynedd o ddim profiad gwaith braidd yn anodd i'w hesbonio i gyflogwr.' (YP2)

> 'Byddai'n well gen i fynd allan i wneud ychydig o waith a chael cyflog, oherwydd dyna'r math o berson ydw i, byddai'n well gen i fod yn y gwaith nag yn eistedd yn y tŷ, yn gwneud dim byd, yn chwarae ar yr Xbox, yn hamddena. Byddai'n well gen i gael cymhwyster neu rywbeth y tu ôl i mi.' (YP3)

4.83 Mae'r sylwadau hyn yn gysylltiedig â'r drafodaeth gynharach ynglŷn â chyfnod cyfyngedig y cynllun peilot. Er gwaethaf y sicrwydd a ddaw yn sgil incwm sylfaenol am ddwy flynedd, roedd pobl ifanc yn parhau i fod yn ymwybodol o'r dyfodol a'r angen i symud ymlaen o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. I'r person ifanc isod, roedd yr incwm sylfaenol wedi caniatáu iddo wneud dewisiadau mwy ystyriol, archwilio llwybrau a rheoli'r 'telerau' yr oedd yn ymgysylltu â chyflogaeth:

> 'Dydw i ddim yn tynnu gwallt fy mhen ac yn mynd yn llwyd. Ie, na, dwi'n teimlo bod fy nyfodol o fewn fy rheolaeth oherwydd dydw i ddim yn cael fy rhuthro i mewn iddo. Galla’ i ei wneud ar fy nghyflymder i... Mae gen i rywbeth wrth gefn, felly fe alla’ i ddod o hyd i swydd dwi’n gyfforddus â hi... Ac os na alla’ i gael swydd yn syth, oherwydd bod gen i BIP, efallai y gwnaf i ychydig o wirfoddoli yn un o'r lleoedd amddiffyn cathod... Tra byddaf yn gwirfoddoli, fe alla’ i chwilio am swydd ran-amser go iawn... Byddai'r profiad gwaith ar fy nhelerau i, nid eu telerau nhw... felly, does dim rhaid i chi boeni am, o, os byddaf yn rhoi'r gorau i'r swydd yma, dwi ddim yn mynd i gael cyflog. Mewn gwirionedd. Wel, fe alla’ i roi'r gorau i'r swydd yma, dibynnu ar BIP, dod o hyd i swydd arall sy'n mynd i fod yn addas i mi.' (YP2)

4.84 Mae hyn yn adleisio rhai o fecanweithiau damcaniaethol y cynllun peilot y manylwyd arnynt yn yr adroddiad cyntaf - yn arbennig y syniad y gallai pobl ifanc gael y rhyddid i gael cyflogaeth o ansawdd uwch a chynllunio ar gyfer y tymor hwy, yn hytrach na gorfod derbyn cyflogaeth o ansawdd isel. Yn yr un modd, i bobl ifanc sydd â diddordeb mewn addysg uwch, credid bod yr incwm sylfaenol yn helpu i wneud hynny’n opsiwn ymarferol:

> 'Hyd yn oed i bobl nad ydynt yn dod o gefndir gofal, rwy'n credu bod mynd i'r brifysgol yn benderfyniad mawr. Mae'n dipyn o... yn enwedig o ran cyllid, mae'n un eithaf anodd i'w wneud. Nid yw pawb eisiau cael baich dyled, ond

dwi'n... fel, trwy hyn rwy'n gwybod fy mod mewn sefyllfa well a bod fy mreuddwydion yn fwy realistig o lawer, yn ôl pob tebyg.' (YP8)

4.85 Mewn cyferbyniad ag enghreifftiau lle y credai pobl ifanc fod yr incwm sylfaenol wedi newid eu teithiau cyflogaeth, dywedodd eraill y siaradom â nhw y byddent wedi gwneud yr un penderfyniadau o ran coleg, gwaith a phrentisiaethau, yn ôl pob tebyg, ni waeth am yr incwm sylfaenol. Yn nodweddiadol, yn yr enghreifftiau hyn, dywedwyd bod yr incwm sylfaenol wedi 'lleddfu'r pwysau', gan olygu nad oedd pobl ifanc yn teimlo 'gormod o straen ynglŷn â methu' a chaniatáu iddynt ganolbwyntio ar eu hastudiaethau neu eu hyfforddiant. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc yn osgoi'r angen i gymryd oriau ychwanegol:

'Mae'n helpu cymaint oherwydd dwi'n credu 'taswn i ddim... 'taswn i ddim yn cael BIP byddwn i'n cael llawer mwy o drafferth... byddai'n rhaid i mi weithio llawer mwy o oriau, yn y gwaith, a... ac rydw i eisoes yn gweithio 16 nawr...' (YP14)

4.86 Roedd cyfweliadau â chefnogwyr hefyd yn awgrymu bod pobl ifanc yn mwynhau mwy o ryddid o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Weithiau, gwelwyd bod hyn yn ysgogi pobl ifanc a'u hannog i fynd ar drywydd diddordebau a nodau. Er enghraifft, soniodd un partner am sut oedd Credyd Cynhwysol yn datgymell gweithio, oherwydd bod cynnydd mewn incwm cyflogedig yn lleihau cymhwysedd i gael cymorth, ond nid oedd hyn yn wir am yr incwm sylfaenol. Mewn enghraifft arall, awgrymodd Cynghorydd Personol fod yr incwm sylfaenol wedi caniatáu i'r person ifanc newid llwybr gyrfa:

'Ac un peth oedd ei fod yn ei grymuso i wneud dewis bywyd o ran addysg. Roedd hi ar y brentisiaeth gyda'r GIG a doedd hi ddim yn ei mwynhau llawer ac mae hi bob amser wedi bod eisiau trin gwallt. Ac yna, wyddoch chi, fe benderfynodd hi roi'r gorau i'r brentisiaeth yn y diwedd, o ystyried bod ganddi'r incwm yma'n gefn [iddi], yn ariannol. Fe roddodd hyder iddi ac mae hi'n mynd i'r coleg ac wrth ei bodd, yn gwneud y cwrs trin gwallt.' (SUP8)

4.87 Cafwyd adroddiadau hefyd am bobl ifanc â chynlluniau presennol a oedd yn gallu eu dilyn yn fwy rhydd. Soniodd un Cynghorydd Personol am dderbynnydd a fyddai'n cael llawer mwy o amser i'w neilltuo i'w chwrs prifysgol gan nad oedd yn gorfod gweithio ochr yn ochr ag ef. Soniodd un arall am sut oedd yr incwm sylfaenol wedi rhoi mwy o amser i dderbynnydd benderfynu beth oedd hi eisiau ei wneud, ac anelu am incwm uwch:

'Mae wedi rhoi cyfle iddi ymchwilio i gyrsiau coleg newydd, ac mae hi'n mynd yn ôl i'r coleg ym mis Medi. Diolch byth, mae hi'n dal i eisiau mynd i'r brifysgol, felly nid yw wedi newid hynny. Mae wedi gwneud iddi sylweddoli, mewn gwirionedd, os bydd hi'n cael swydd dda iawn, y bydd hi'n gallu cynnal a gwella'r lefel hon o fyw y mae hi eisoes arni.' (SUP7)

4.88 Er gwaethaf hyn, mewn enghreifftiau eraill, roedd cefnogwyr yn credu bod yr incwm sylfaenol wedi cael effaith niweidiol ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Dywedodd un rhiant ei fod yn poeni am ddiffyg cymhelliant ei blentyn ac awgrymodd y gellid bod wedi defnyddio'r arian i helpu pobl ifanc i gael gwaith yn lle hynny. Amlygodd un Cynghorydd Personol y pryder hwn fel y 'thema' gyffredinol ar gyfer y bobl ifanc yr oedd yn eu cynorthwyo:

> 'Rwy'n credu bod yr un thema’n gyffredin i'r tri ohonyn nhw ar wahanol lefelau [...] mae wedi effeithio ar eu cymhelliant i geisio gwaith neu addysg, neu i wthio eu hunain i wneud unrhyw beth arall.' (SUP4)

4.89 Er bod pobl ifanc yn credu bod yr incwm sylfaenol wedi caniatáu iddynt wneud penderfyniadau mwy gwybodus ac o dan lai o bwysau mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, roedd hyn yn cael ei ddehongli’n negyddol weithiau gan eu cefnogwyr. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur i ba raddau yr oedd yr incwm sylfaenol wedi datgymell pobl ifanc. Wrth drafod un o'r tri pherson ifanc y mae'n eu cynorthwyo, myfyriodd y Cynghorydd Personol:

> 'Mae [YP] yn ferch hyfryd iawn, ond does ganddi ddim cymhelliant. A dyna sut mae hi wedi bod ers i mi ei hadnabod. Rwy’n credu bod ei magwraeth yn cyfrannu llawer at hynny, wyddoch chi, yn yr un ffordd â llawer o'n pobl ifanc, wyddoch chi, nid oes ganddi unrhyw fath o brofiad o unrhyw aelodau o'r teulu’n gweithio neu’n cael cyflogaeth.' (SUP4)

4.90 Ar y llaw arall, dywedodd rhai pobl ifanc wrthym nad oeddent yn ddi-waith oherwydd diffyg cymhelliant, ond diffyg cyfleoedd. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc:

> 'Rwy'n awyddus i ddechrau gweithio, ie. Mae llawer o bobl yn gallu gweld fy mod i'n awyddus i ddechrau gweithio, ond does dim swydd ar gael. Rydw i wedi gwneud cais i [cwmni], doedden nhw ddim wedi fy nerbyn am ryw reswm, [cwmni], doedden nhw ddim eisiau fy nerbyn.' (YP3)

4.91 Aeth ymlaen i restru amrywiaeth o swyddi yr oedd wedi gwneud cais amdanynt dros yr ychydig fisoedd diwethaf, ers gadael y coleg, ond nid oedd wedi llwyddo i sicrhau swydd ar adeg y cyfweliad.

4.92 Mae hyn yn ein hatgoffa nad yw'r incwm sylfaenol yn ateb i bopeth ac mae'n tanlinellu'r angen i ystyried yr ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar lwybrau pobl ifanc. Er y gallai'r incwm sylfaenol leihau anfantais pobl ifanc a chynyddu eu dewisiadau a'u cyfleoedd, mae anghenion a heriau hirsefydlog yn parhau.

**Crynodeb o brofiadau cynnar pobl ifanc o'r cynllun peilot**

4.93 I grynhoi, mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod pobl ifanc yn gwerthfawrogi argaeledd cyngor ariannol ac yn gwerthfawrogi cymorth gan weithwyr proffesiynol, gofalwyr ac aelodau o’r teulu ynglŷn â’u penderfyniadau gwario a chynilo. Adroddwyd bod yr incwm sylfaenol wedi hyrwyddo helpu i ddatblygu llythrennedd

ariannol ar gyfer rhai pobl ifanc. Er bod llawer wedi cael trafferth rheoli'r arian i ddechrau, sylwyd bod penderfyniadau gwario wedi gwella dros amser. Er bod y broses hon yn barhaus a bod llythrennedd ariannol yn amrywio ar draws y cyfranogwyr, roedd canfyddiadau pobl ifanc o wariant doeth ac annoeth, a phwysigrwydd cynilo, yn gyson ar draws y cyfweliadau hyn.

4.94 Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod yr incwm sylfaenol wedi lleihau ansicrwydd ariannol i bobl ifanc a lleddfu eu pryderon. Trafododd rhai pobl ifanc allu prynu pethau braf iddyn nhw eu hunain neu gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau, a oedd wedi arwain at welliannau i’w hiechyd a'u lles. Adroddwyd hefyd bod yr incwm sylfaenol wedi hyrwyddo annibyniaeth pobl ifanc a’u hymdeimlad o reolaeth dros eu bywydau. Roedd hyn yn ymwneud â'r penderfyniadau yr oedd pobl ifanc yn eu gwneud nawr o ran cyflogaeth, addysg, a hyfforddiant, a sut maen nhw'n treulio eu hamser, ac wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

## 5. Canfyddiadau: Gweithredu cynnar a chyflawni

5.1 Mae symlrwydd ymddangosiadol trosglwyddiadau arian parod a chynlluniau incwm sylfaenol yn rhan bwysig o'u hapêl. Mae nodweddion fel effeithlonrwydd gweinyddol a'r gallu i 'docio' biwrocratiaeth yn cael eu pwysleisio'n rheolaidd gan gefnogwyr a chynigwyr (Standing, 2020; Nettle et al., 2021). Fodd bynnag, fel sy'n cael ei wireddu fwyfwy, mae manylion dylunio'r polisi, y cyd-destun y caiff ei weithredu ynddo a'r saernïaeth lywodraethu y caiff ei gyflwyno ynddi yn ei wneud yn gynhenid gymhleth (Aerts et al., 2023; Marchall a Marx, 2024).

5.2 Mae camau cynnar y cynllun peilot yn cefnogi'r arsylwadau hyn, gan ddangos natur gymhleth gweithredu cynllun peilot o'r fath. Yn yr adran hon, ymdriniwn â'r profiadau, yr heriau a'r llwyddiannau sy'n gysylltiedig â dod â menter polisi newydd fel yr un hon o bolisi peilot *ar bapur* i bolisi *ymarferol.* Yn seiliedig ar wybodaeth gan y swyddogion hynny sy'n ymwneud â dylunio a chyflwyno'r cynllun peilot ar wahanol gamau, myfyriwn ar y galluogwyr a'r rhwystrau a arweiniodd y daith, yr heriau sy'n dod i'r amlwg, a'r dull ailadroddol a pherthynol a ddefnyddiwyd.

5.3 Mae agweddau amrywiol ar y cynllun peilot hwn yn ei wneud yn unigryw a digynsail: hwn yw'r cynllun peilot incwm sylfaenol cyntaf a gynhaliwyd gan y llywodraeth o'r natur a'r raddfa hon; mae'n gweithredu o fewn cyd-destun llywodraethu datganoledig; ac mae'n cael ei ddarparu ar y cyd â gwahanol weithredwyr ar wahanol lefelau a chyda grŵp y mae ei aelodau'n aml yn wynebu llawer o heriau cymdeithasol ac economaidd. O'r herwydd, gall y dadansoddiad hwn daflu goleuni nid yn unig ar lwyddiannau a heriau penodol y cynllun peilot hwn, ond hefyd cysylltu â rhaglenni eraill sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion hyn.

5.4 Strwythurwn yr adran hon o'r adroddiad yn ôl cyfres o themâu a amlygwyd gennym trwy ddadansoddiad ansoddol. Yn gyntaf, disgrifiwn y cefndir gyda phwyslais ar yr ymrwymiad gwleidyddol a'r arloesiadau biwrocrataidd wrth wraidd lansio'r cynllun peilot (5.5). Yna, canolbwyntiwn ar y ddwy thema graidd ar hyd y daith weithredu, sef *Partneriaethau a Rhyngweithio* ag awdurdodau lleol ledled Cymru a Chyngor ar Bopeth wrth gyflawni'r rhaglen (5.12); a *Chymhlethdod* wrth reoli trefniadau llywodraethu datganoledig ac amgylchiadau amrywiol ac unigryw gwahanol bobl ifanc ar y cynllun peilot (5.45). Yn olaf, myfyriwn ar rolau ailadrodd ac addasu wrth gyflawni'r ymyrraeth 'syml' hon, yn gyflym, mewn amgylchedd mor gymhleth. (5.70).

### Cyhoeddiadau cychwynnol a chefndir

5.5 Cynhwysodd Llywodraeth Cymru y cynllun peilot fel ymrwymiad yn ei Rhaglen Lywodraethu ym mis Gorffennaf 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021). Erbyn yr hydref 2021, roedd y Prif Weinidog ar y pryd, sef Mark Drakeford AS, wedi cadarnhau cynllun yn gyhoeddus i brofi cynllun peilot incwm sylfaenol, i wneud hynny gyda'r rhai sy'n gadael gofal fel grŵp targed, a bwriad i lansio'r cynllun erbyn mis Ebrill

2022[10] (Senedd Cymru, 2021). Deilliodd y cynlluniau hyn o gyfnod o gwmpasu ac ymgynghoriadau o fewn adrannau amrywiol y llywodraeth (megis timau Trechu Tlodi a Thai, Trysorlys Cymru, Carchardai a Gwasanaeth Prawf EF ac eraill), arbenigwyr a gweithredwyr cymdeithas sifil (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru, Voices from Care Cymru), yn ogystal â grwpiau sydd â phrofiad o gynnal cynlluniau peilot incwm sylfaenol ac ymchwilio iddynt (e.e. Grŵp Llywio’r Astudiaeth Ddichonoldeb Incwm Sylfaenol Dinasyddion yn yr Alban, a'r tîm sy'n cynnal cynllun peilot incwm sylfaenol gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal maeth yn Santa Clara, Califfornia). Yn ogystal, roedd Grŵp Llywio (grŵp mewnol Llywodraeth Cymru o uwch swyddogion) a Grŵp Gweithredol (mewnbwn allanol ochr yn ochr â swyddogion o adrannau Llywodraeth Cymru) wedi llywio'r cam hwn o'r cynllun peilot. Adroddodd y ddau grŵp i'r Prif Weinidog, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolaidd.

5.6 Cyhoeddwyd y cynllun peilot yn ffurfiol ym mis Chwefror 2022 a dechreuodd y rhai sy'n gadael gofal gofrestru arno o fis Gorffennaf 2022, sef cyfnod o chwe mis (gweler Atodiad 6 am drosolwg o rai dyddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun peilot a'i weithredu).

5.7 Roedd dwy thema’n glir o gyhoeddiadau cynnar a lansio'r cynllun peilot, ac mae eu goblygiadau’n amlwg ar draws themâu a chamau'r cynllun peilot. Yn gyntaf, yr 'ewyllys wleidyddol' sylweddol o blaid y cynllun peilot ac a lywiodd nodweddion dylunio allweddol. Yn ail, yr angen i gyflwyno'r cynllun peilot, a chwblhau a chyfleu gwaith paratoi cysylltiedig, o fewn amserlenni byr.

5.8 Mae Shen (2024, tud.2) yn diffinio ewyllys wleidyddol fel 'graddau’r ymrwymiad ymhlith y rhai sy’n gwneud penderfyniadau allweddol (h.y. gwleidyddion etholedig mewn democratiaeth neu arweinwyr gwleidyddol mewn awtocratiaeth) i ddeddfu a gweithredu atebion polisi penodol sy'n mynd i'r afael â mater penodol... y tu hwnt i gefnogi syniad polisi yn unig... i weithredu’r polisi er gwaethaf rhwystrau.’ Mae hyn yn cyfuno *bwriad* gweithredwyr i gyflawni polisi, a'r *camau gweithredu* cyllidol, gwleidyddol a sefydliadol parhaus a gyflawnir i'w wireddu (Brinkerhoff, 2000; Post et al., 2010). Ym mhenderfyniadau dylunio allweddol y cynllun peilot, gwelwn gefnogaeth gref gan weinidogion, sydd wedi parhau yn natganiadau cyhoeddus a gwleidyddol y Gweinidogion sy'n gyfrifol am y polisi. Mae datganiadau cyhoeddus gan Brif Weinidog Cymru ar y pryd a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn parhau i dynnu sylw at y gefnogaeth barhaus a’r gobaith am lwyddiant y cynllun peilot (BBC News, 2023b). Wrth droi’r ymrwymiad gwleidyddol yn gynllun peilot gwirioneddol, mae data gan grwpiau ffocws y tîm polisi yn adlewyrchu awydd gweinidogol i wneud y cynllun peilot mor effeithiol a chynhwysol â phosibl. Adlewyrchir hyn mewn penderfyniadau amrywiol, megis gosod swm yr incwm

[10] Cofnod y Trafodion, Senedd Cymru, 19 Hydref 2021, Paragraff 83

sylfaenol yn unol â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar adeg datblygu'r polisi ar ôl i swyddogion gyflwyno ystod o opsiynau cyllidebol (Cyflog Byw, 2023); y penderfyniad i gynnwys pob ymadawr gofal Categori 3; a dymuniad i'r cynllun peilot gael ei gwblhau o fewn tymor y llywodraeth er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw darfu ar ei gyflwyno a'i werthuso[11].

5.9 Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, roedd rhaid i'r tîm polisi gwblhau'r holl drefniadau logistaidd (e.e. partneriaeth gydag Chyngor ar Bopeth, partner talu dibynadwy, paratoi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a datblygu mecanweithiau a phrosesau cyflawni) o fewn amserlenni cymharol fyr. Cynhaliodd y tîm polisi a oedd yn gyfrifol am y cynllun peilot ymgynghoriadau a thrafodaethau pellgyrhaeddol ar draws adrannau'r llywodraeth, yn ogystal â chyda gweithredwyr allanol o fewn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang, i lywio'r broses o ddylunio a chyflawni'r cynllun peilot:

> 'Dysgais yn fuan fod llawer i'w wneud mewn cyfnod byr iawn oherwydd bod disgwyliadau ynglŷn â phryd y byddai hyn yn cael ei gyflawni... Ac nid yw'n rhywbeth sy'n bodoli mewn gwirionedd, nid oes copi carbon y gallwn ei wneud a'i addasu yma ac acw.' (Aelod 3, Tîm Datblygu Polisi)

5.10 Y dasg allweddol o'r cyhoeddiadau i gyflwyno oedd ffurfio partneriaethau a pharatoi'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill (e.e. Cyngor ar Bopeth) gyda'r canllawiau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyflwyno'r cynllun peilot a pharhau i ddarparu cymorth parhaus i'r bobl ifanc. Roedd y partneriaid hyn yn rhan annatod o ddylunio a chyflawni'r cynllun, ac roedd eu rôl yn amrywio o gofrestru pobl ifanc ar y cynllun i ddarparu cymorth parhaus ar hyd y cynllun peilot. Roedd hyn yn golygu llunio canllawiau helaeth a'u rhannu gydag ystod o randdeiliaid o fewn awdurdodau lleol. Un o'r prif heriau yn y broses hon oedd yr angen i gydbwyso rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r holl randdeiliaid â rheoli disgresiwn polisi wrth ddylunio a lansio. Ymhellach, wrth i fanylion y cynllun peilot ddechrau dod i'r amlwg, roedd pryderon ynglŷn â chodi disgwyliadau'r rhai a allai fod yn gymwys, a chyflawni o fewn y llinellau amser a gyhoeddwyd:

> '... roedd rhaid i ni fod yn ofalus iawn, iawn ynglŷn â phryd y gwnaethom ei gyhoeddi oherwydd disgwyliadau'r bobl ifanc a fyddai'n ei dderbyn. Felly, po fwyaf y cafodd ei wthio'n ôl ...yn amlwg, byddai gwahanol bobl yn ei gael. Ac ar ôl i ni gyrraedd y pwynt lle'r oeddem yn ymgysylltu â'r holl awdurdodau lleol - ac roedd hynny ym mis Ebrill a mis Mai 2022 - roeddem yn glir iawn na all [y lansiad] fynd y tu hwnt i fis Gorffennaf [2022]' (Aelod 2, Tîm Datblygu Polisi)

5.11 Er bod y tîm polisi'n adrodd eu bod wedi gwneud eu gorau i ymgysylltu â'r holl bartïon perthnasol a'r holl awdurdodau lleol, roedd cyfyngiadau amser a diffyg cyfranogiad gan yr holl randdeiliaid yn golygu nad oedd hyn bob amser yn bosibl. Roedd rhaid i Lywodraeth Cymru ddibynnu ar wybodaeth yn rhaeadru i lawr haenau

[11] Fel y digwyddodd mewn cynlluniau peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn yr Unol Daleithiau (gweler Frazee, 2021).

awdurdodau lleol er mwyn i'r canllawiau gyrraedd yr holl staff, yn enwedig y rhai sy'n gweithio agosaf gyda phobl ifanc.

**Partneriaethau a rhyngweithio**

5.12 Un enghraifft glasurol o natur gymhleth gweithredu incwm sylfaenol yw'r partneriaethau sy'n ofynnol rhwng lefelau llorweddol a fertigol llywodraeth, ac unrhyw weithredwyr allanol. Mae'r adran hon yn archwilio profiadau o weithredu'r cynllun peilot mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol (sy'n gyfrifol am wasanaethau gadael gofal) ledled Cymru a Chyngor ar Bopeth (sy'n gyfrifol am elfen cyngor ariannol ychwanegol y cynllun peilot).

**Partneriaethau ag awdurdodau lleol**

5.13 Datblygodd y perthnasoedd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn ystod cyfnodau cynnar y cynllun peilot. O safbwynt y Cynghorwyr Personol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, datblygodd o ddryswch a rhwystredigaeth cychwynnol i berthnasoedd llawer cryfach a mwy cynhyrchiol. Roedd tair her allweddol ar y cychwyn cyntaf: pryderon amrywiol ymarferwyr ynglŷn â'r syniad o incwm sylfaenol yn gyffredinol a rhai nodweddion bregus ymhlith y boblogaeth sy'n gadael gofal; yr amrywioldeb mewn gwasanaethau gadael gofal ar draws awdurdodau lleol; a theimladau o dangynrychiolaeth ymhlith Cynghorwyr Personol.

**a) Pryderon am y cynllun peilot a'i effaith ar y rhai sy'n gadael gofal**

5.14 Un o'r materion cyntaf a gododd yn y bartneriaeth hon oedd y gwrthwynebiad cryf a wynebodd Llywodraeth Cymru gan ymarferwyr, a oedd yn pryderu am fregusrwydd y garfan a ddewiswyd, swm yr incwm sylfaenol a'r penderfyniad i'w wneud yn ddiamod. Adlewyrchir y pryderon hyn gan ymarferwyr yn fanylach yn adroddiad blynyddol cyntaf y gwerthusiad (Holland et al., 2024).

5.15 Ar ôl cyhoeddi'r cyfathrebiad swyddogol cyntaf am y cynllun peilot ym mis Chwefror 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfodydd amrywiol ag ymarferwyr i'w hysbysu a chael eu mewnbwn ar sut i reoli'r broses gyflwyno. Adeg bwysig yn y broses hon, a grybwyllwyd sawl gwaith gan gyfranogwyr amrywiol, oedd cyfarfod tair awr o hyd yn cynnwys y tîm polisi ac aelodau awdurdodau lleol o bob cwr o Gymru. Nod y swyddogion yn y cyfarfod oedd lleddfu pryderon ymarferwyr trwy gyflwyno tystiolaeth o gynlluniau peilot incwm sylfaenol byd-eang a thrafod mesurau diogelu presennol sydd ar waith ar gyfer pobl ifanc. Yn seiliedig ar adroddiadau gan y swyddogion, parhaodd yr ymarferwyr a fynychodd i bwysleisio risgiau'r cynllun peilot, yn eu barn nhw:

> 'Roedd tipyn o wrthdaro o ran... o glywed beth oedd y Gweinidog am ei wneud a [rhai ymarferwyr] yn dweud wrthyf, yn dweud wrthym fod y plant yma... yn debygol o, chi'n gwybod, wario'r cyfan.' (Aelod 5, Tîm Datblygu Polisi)

5.16 Lleisiodd ymarferwyr sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol bryderon ehangach am y cynllun peilot yn ystod y cyfarfodydd hyn hefyd. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu yn ystod y cam cynllunio, parodrwydd a chapasiti ar lefel leol, ac addasrwydd y model i’w weithredu gyda'r rhai sy'n gadael gofal:

> 'Does neb wedi rhannu unrhyw wybodaeth gyda ni amdano. Ie, felly, nid oedd hynny'n teimlo’n wych, y rhan gychwynnol. Ac yna dwi'n cofio cael fy ngwahodd i grŵp, ac es i gyda fy Mhennaeth Gwasanaeth, fe adawodd ni â llawer o gwestiynau am y bobl ifanc fregus hynny... Ac roedden nhw'n siarad llawer am y ffaith ei fod yn seiliedig ar fodel o Galiffornia, a phethau fel 'na. Fe wnaeth i ni feddwl, roedden ni ychydig yn bryderus am ei gymhwysedd i'n pobl ifanc ni yn [enw’r awdurdod lleol]' (Uwch Reolwr 2).

**b) Gwybodaeth, arweiniad ac amrywioldeb**

5.17 Yr ail fater allweddol yw amrywioldeb sut mae gwasanaethau gadael gofal yn cael eu trefnu ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd hyn yn cyfyngu ar ba mor ragnodol y gallai Llywodraeth Cymru fod ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol yn cyfleu manylion i bobl ifanc neu sut oeddent yn delio ag achosion ac amgylchiadau penodol:

> '... mae 22 awdurdod lleol gyda 22 ffordd wahanol o weithredu: ... mae rhai timau gadael gofal yn 14 a mwy, rhai yn 16 a mwy, mae rhai yn 18 a mwy, mae rhai ar gontract allanol. A phob un â gwahanol ffyrdd o weithio. A, chi’n gwybod, rydyn ni’n ceisio dylunio un dull sy'n addas i bawb...' (Aelod 3, Tîm Datblygu Polisi)

5.18 O'u rhan nhw, adroddodd aelodau o awdurdodau lleol nad oeddent wedi cael digon o ganllawiau a gwybodaeth am wahanol bosibiliadau’r cynllun peilot a'i effaith ar fudd-daliadau eraill y gallai pobl ifanc fod â hawl iddynt:

> 'Y diffyg arweiniad, dyna, yn fy marn i, un o'r prif faterion a gawson ni, gan nad yw'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth wedi cael arweiniad ar, dyweder, rywun mewn llety â chymorth, beth y disgwylir iddo ei dalu, hynny yw pa fudd-dal tai fydd yn cyfrannu tuag ato. ...pan ddechreuodd y cynllun peilot, mae hyn yn rhywbeth a ddylai fod wedi cael ei sefydlu, ac fe ddylai fod wedi bod yn rhan o'r canllawiau, neu dyweder, pan ddaw rhywun atom, “beth fydd gen i’r hawl iddo os ydw i yn y sefyllfa benodol hon?” Dylai'r holl wybodaeth honno fod wedi bod ar gael o'r cychwyn oherwydd bod hynny wedi bod yn fater enfawr.' (PA1)

5.19 Mae dau eglurhad yn berthnasol yma. Yn gyntaf, fel ymyrraeth, mae incwm sylfaenol yn effeithio ar bob rhan o fywydau pobl mewn economïau sy'n seiliedig ar arian parod (Mathur, 2024). Felly, er bod Llywodraeth Cymru wedi paratoi a dosbarthu ystod eang o ganllawiau ar y cynllun peilot, mae swyddogion yn nodi nad oedd yn bosibl darparu canllawiau ar bob posibilrwydd. Yn ail, o ystyried

amrywioldeb sut mae gwasanaethau gadael gofal yn cael eu trefnu ym mhob awdurdod lleol, roedd yn anodd rhoi arweiniad penodol ar rai materion. Cydnabu’r swyddogion yn y cyfweliadau fod hyn yn debyg i weithredu polisïau eraill ar raddfa fawr. Fe wnaethant nodi bod rhai awdurdodau lleol yn dymuno cael cyfarwyddiadau manylach tra bod yn well gan eraill fwy o ymreolaeth, felly roedd yn anodd taro cydbwysedd effeithiol.

**c) Parodrwydd**

5.20 Yn olaf, o fewn awdurdodau lleol, Cynghorwyr Personol, sy'n gweithio'n agosaf gyda phobl ifanc, oedd y rhai a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod heb eu paratoi’n ddigonol i ddechrau:

> 'Rwy'n teimlo, yn enwedig yn ystod y ddeufis cyntaf, na roddwyd digon o amser i ni fel gweithwyr baratoi gyda nhw, a darllen trwy rywfaint o'r dogfennau a roddwyd i ni, y bydden ni wedi gwneud tri mis o baratoi gyda nhw.' (PA14)

5.21 Mewn grwpiau ffocws, adroddodd Cynghorwyr Personol eu bod yn teimlo eu bod 'ar y droed ôl', oherwydd eu bod yn teimlo bod llawer o'r wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn am y cynllun peilot yn dod trwy'r cyfryngau a ffynonellau eraill, yn hytrach na thrwy sianeli ffurfiol. Dywedodd rhai Cynghorwyr Personol fod pobl ifanc roedden nhw'n gweithio gyda nhw yn gofyn iddynt am gynllun peilot roedden nhw wedi clywed amdano ar y teledu ac nad oeddent yn gallu darparu manylion. Fel y mae’r dyfyniad hwn gan Gynghorydd Personol o'n nodiadau maes yn amlygu, 'nid oedd y datganiad i'r wasg wedi helpu. “bydd *pob un* sy'n gadael gofal yn cael hyn”, ond ni ddywedon nhw *ba* garfan. Fe gawson ni ein llethu â galwadau ffôn.' (Nodiadau Maes Ymchwilwyr, fforwm ymarferwyr, Hydref 2023).

5.22 Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaeth hefyd at y pwysau ar ymarferwyr yn ystod y cyfnod hwn:

> 'Yn wreiddiol, dywedodd [Llywodraeth Cymru] y byddai'r garfan o'r cyntaf o Orffennaf ... yna fe ddywedon nhw peidiwch â dweud wrth y bobl ifanc hynny oherwydd efallai na fyddwn yn dewis y garfan honno. Felly, rydyn ni'n cyrraedd tua chanol Mai, diwedd Mai, ac maen nhw'n dweud wrthym yn sydyn, ac fe feddylies i, o, byddan nhw’n mynd am y cyntaf o Fedi nawr, fwy na thebyg. Yna maen nhw'n dweud wrthym, na, rydyn ni'n bwrw ymlaen â’r cyntaf o Orffennaf... roedd yn frysiog iawn yn y camau cynnar yna. Ac, wyddoch chi, ar adeg pan oedd llawer o brinder staff, roedd pwysau mawr, a bod yn onest â chi, ac nid oedd yn ddelfrydol' (Pennaeth Gwasanaeth 1)

5.23 Rhoddwyd y dasg ychwanegol i Gynghorwyr Personol o gynorthwyo pobl ifanc i gofrestru ar y cynllun peilot. Roedd hyn yn golygu delio â biwrocratiaeth a gwaith papur y cynllun peilot, ac er bod cofrestru ei hun yn gymharol syml, roedd angen ystyried effeithiau penodol budd-daliadau eraill a sefyllfaoedd bywyd ar bobl ifanc.

Adroddodd ymarferwyr fod y cynllun peilot wedi ychwanegu ymhellach at eu llwythi gwaith. Esboniodd un Cynghorydd Personol hyn yn fanwl, gan nodi'r canlyniadau ar gyfer nifer yr achosion y gallai eu trin:

> 'Pan gafodd ei greu, dwi ddim yn credu yr oedden nhw'n deall faint o waith y byddai'n ei olygu i ni. Fi yw'r cyswllt rhwng pawb yn ein tîm a Llywodraeth Cymru ac mae'n cymryd 80 i 90% o fy niwrnod, felly, rydw i wedi gorfod lleihau fy llwyth achosion er mwyn gallu hwyluso'r BI o fewn y tîm. A dwi ddim yn credu yr ystyriwyd hynny, faint o waith sy’n gysylltiedig heb unrhyw aelodau ychwanegol o staff.' (PA4)

5.24 Dywedodd Cynghorwyr Personol y bu’n rhaid iddynt addasu’n gyflym i fod yn ffynhonnell i ddatrys materion unigol yn ymwneud â rhent, budd-daliadau, a chymorth arall i bobl ifanc - rhywbeth nad oeddent yn teimlo eu bod wedi’u paratoi’n llawn ar ei gyfer. Er enghraifft, adroddodd rhai am ddryswch ynglŷn â’r goblygiadau i gyllid myfyrwyr, cyfathrebu ar draws ffin Lloegr, a delio â phryderon ynghylch cymorth cyfreithiol (gweler yr adran i ddod sy’n dechrau gyda pharagraff 5.55).

5.25 Amlygodd Llywodraeth Cymru (yng nghyfnod adolygu’r dadansoddiad) eu hymdrechion i sicrhau bod gan Gynghorwyr Personol y wybodaeth yr oedd arnynt ei hangen. Fe wnaethant nodi bod aelodau o Fforwm Gadael Gofal Cymru Gyfan bob amser yn rhan o Grŵp Gweithredol y cynllun peilot. At hynny, gwnaethant argymell bod Cynghorwyr Personol yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd gydag awdurdodau lleol ar gyfer trafodaethau, ochr yn ochr ag uwch reolwyr, ond nad oedd hyn yn bosibl yn aml am ystod o resymau gweithredol. Yn olaf, gwnaethant bwysleisio bod rhaid cydbwyso ymdrechion i ledaenu gwybodaeth a chynnal ymgynghoriadau â'r pryderon a nodwyd uchod ynghylch bod yn gyfrinachgar ynghylch swm y polisi, cymhwysedd a datgelu manylion eraill cyn pryd.

5.26 Dros amser, mae'r materion gweithredol cychwynnol hyn wedi cael eu datrys i raddau helaeth ac mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi gwella'n sylweddol. Fel y mae adran ddiweddarach (paragraff 5.40) yn amlygu'n fanylach, mae hyn yn ganlyniad i ymdrechion parhaus i fuddsoddi yn y berthynas hon, adeiladu ar adborth a sefydlu ymddiriedaeth ar draws grwpiau.

### Partneriaeth â Chyngor ar Bopeth Cymru

5.27 Yn ogystal â’r cymorth yr oedd gan bobl sy'n gadael gofal yr hawl iddo eisoes, lluniwyd y cynllun peilot fel y taliad arian parod *ynghyd â* chyngor ariannol ychwanegol. Yn yr ystyr hon, mae’n enghraifft o gynllun ‘incwm sylfaenol a mwy’, yn debyg i rai eraill fel WorkFREE (Mathur et al., 2023), CLARISSA (Howard et al., 2024), Cynllun Peilot Santa Clara (Sir Santa Clara, 2023) ac amryw rai eraill[9]. Cyflwynwyd yr elfen cyngor ariannol mewn partneriaeth â’r gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth, Cyngor ar Bopeth. Roedd gan Gyngor ar Bopeth rôl allweddol yn ystod y

cam cofrestru, yn enwedig wrth gynnal cyfrifiadau 'Gwell eich Byd' er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw berson ifanc yn waeth ei fyd yn ariannol ar y cynllun peilot.

5.28 Mae dwy thema’n amlwg o'r data a gasglwyd gan grwpiau ffocws gydag aelodau Cyngor ar Bopeth a'n nodiadau maes. Yn gyntaf, bod gweithio'n benodol gyda'r garfan hon yn brofiad newydd i ymarferwyr Cyngor ar Bopeth, ac ar ddechrau'r cynllun peilot nid oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o adnoddau i ddelio â'u hanghenion a'u hamgylchiadau unigryw. Yn ail, bod y perthnasoedd rhwng Cyngor ar Bopeth a phobl ifanc yn cael eu cyfryngu trwy Gynghorwyr Personol, a oedd yn berthynas newydd i'r rhan fwyaf.

**a) Capasiti Cyngor ar Bopeth a’u perthnasoedd â phobl ifanc**

5.29 Roedd cyfranogwyr ymchwil o Gyngor ar Bopeth yn tueddu i adrodd nad oedd ganddynt brofiad blaenorol o fod wedi gweithio'n benodol gyda’r rhai sy'n gadael gofal ac nad oedd ganddynt wybodaeth am eu hamgylchiadau na’u hawliau. At hynny, cwblhawyd y bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor ar Bopeth, a'u cyfranogiad yn y cynllun peilot, yn derfynol yn gymharol hwyr yn ystod ei datblygiad. Er bod gan rai awdurdodau lleol berthynas â Chyngor ar Bopeth eisoes, neu drefniadau eraill gyda darparwyr lleol, cwblhawyd y bartneriaeth derfynol fis yn unig cyn lansio’r cynllun peilot. O’r herwydd, adroddodd Cyngor ar Bopeth nad oedd ganddynt ddigon o amser i gynyddu capasiti i gefnogi'r grŵp hwn.

5.30 Roedd gallu Cyngor ar Bopeth i gynorthwyo pobl ifanc, yn enwedig y tu hwnt i'r cyfarfod cyfrifiad 'Gwell eich Byd' cyntaf, yn gofyn am gymhellion yn ymwneud â chyflenwad a galw. Amlygodd adolygiad cwmpasu gan Prendergast a chydweithwyr (2024) amrywiaeth o rwystrau a oedd yn atal y rhai sy’n gadael gofal rhag ymgysylltu â chymorth, gan gynnwys dymuniad i fod yn hunan-ddibynnol a diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau. Nododd rhai o'r ymarferwyr Cyngor ar Bopeth 'amharodrwydd i ymddiried' ymhlith rhai pobl ifanc, a’i bod yn ymddangos bod rhan o’r her yn deillio o ddiffyg eglurder ynghylch rôl Cyngor ar Bopeth. Gwelsant ei bod yn bwysig egluro bod Cyngor ar Bopeth yn annibynnol ar yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr o Gyngor ar Bopeth:

> 'Felly, nes iddynt deimlo'n gyfforddus gyda chi ac ymddiried ynoch chi i wneud yr hyn sydd orau iddynt, ac mae'n rhaid i ni roi gwybod iddynt yn amlwg ein bod ni'n ddiduedd, nid ydym yn rhan o Lywodraeth Cymru. Nid ydym yn rhan o'r awdurdod lleol, ac roedd hynny wedi helpu.' (Aelod 2, Cyngor ar Bopeth)

5.31 O ran gwneud yr asesiadau 'Gwell eich Byd', roedd rhai pobl ifanc eisoes wedi dechrau derbyn yr arian parod wrth i gyfranogiad Cyngor ar Bopeth gael ei gyflwyno ar draws awdurdodau lleol. Yna, cafodd y bobl ifanc hyn asesiadau 'Gwell eich Byd' yn ôl-weithredol, ond yn yr holl achosion hynny (fel y rhan fwyaf ar draws y cynllun peilot), roedd y bobl ifanc yn well eu byd ar y cynllun peilot nag ar y ddarpariaeth bresennol.

**b) Synergedd rhwng Cynghorwyr Personol ac ymarferwyr Cyngor ar Bopeth**

5.32 Roedd rheoliadau diogelu data yn pennu na allai Cyngor ar Bopeth gysylltu â phobl ifanc yn uniongyrchol heb eu caniatâd. Roedd hyn yn golygu gorfod mynd trwy awdurdodau lleol a Chynghorwyr Personol i sefydlu cysylltiad. Adroddodd cynghorwyr Cyngor ar Bopeth am roi cynnig ar strategaethau amrywiol, yn amrywio o gyswllt uniongyrchol ac ymdrechion i ffurfio perthynas â phobl ifanc (lle'r oedd caniatâd wedi'i sefydlu ymlaen llaw) i greu ffurflenni cyswllt penodol ar gyfer gwahanol awdurdodau lleol i atgyfeirio pobl ifanc iddynt. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, roedd staff Cyngor ar Bopeth yn teimlo nad oedd y gwasanaeth wedi cael ei ddefnyddio digon. Felly, eu nod allweddol oedd sicrhau bod llwybrau tuag at ymgysylltu yn parhau i fod yn agored i bobl ifanc â diddordeb:

> 'Rydym yn wasanaeth sy'n ymfalchïo mewn mynediad digidol, felly roeddem yn gwybod y byddai hynny'n rhywbeth a allai ddenu ein pobl ifanc i gadw mewn cysylltiad â ni, ac rydym yn amlwg yn cadw mewn cysylltiad â'r Cynghorwyr Personol ac yn gwneud yn siŵr, hyd yn oed os nad yw cleient yn teimlo ei fod am gysylltu â ni'n uniongyrchol, bod y llwybr atgyfeirio yna ar gael o hyd lle byddant yn dod yn ôl ac anfon e-bost atom a gofyn, a allwch chi godi hyn? (Aelod 2, Cyngor ar Bopeth)

5.33 Yn ogystal, cymhlethwyd rhyngweithiadau rhwng Cyngor ar Bopeth a derbynyddion gan y ffaith bod y perthnasoedd cychwynnol rhwng Cynghorwyr Personol (sy'n gweithio agosaf gyda'r bobl ifanc, ac yn llwybr i gysylltu â nhw) a Chyngor ar Bopeth yn llawn straen weithiau. Dywedodd rhai Cynghorwyr Personol eu bod yn teimlo nad oedd Cyngor ar Bopeth yn meddu ar y profiad a'r sgiliau angenrheidiol i weithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal ac nad oeddent yn fedrus wrth ddarparu'r cymorth ariannol cyfannol wedi'i deilwra i'w sefyllfaoedd bywyd. Dangosodd rhai enghreifftiau a adroddwyd wrthym mewn grwpiau ffocws neu a welwyd mewn cyfarfodydd rhwng ymarferwyr a'r llywodraeth fod Cynghorwyr Personol yn teimlo nad oedd Cyngor ar Bopeth yn deall pwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, neu fod gan Gynghorwyr Personol well gafael ar yr agweddau cynnil ar gyllidebu sy'n allweddol er mwyn i rywun sy'n gadael gofal fyw yn annibynnol:

> 'Ac rwy'n credu bod rhai safbwyntiau ynghylch pam comisiynu gwasanaeth, fel Cyngor ar Bopeth, oherwydd Cynghorwyr Personol sy'n gweithredu fel rhieni corfforaethol yw'r rhai sydd agosaf atynt, ac yn cynorthwyo ein pobl ifanc sy'n gadael gofal, ac sydd â'r berthynas sefydledig honno. ... efallai na fydd yn rhwydd i'n pobl ifanc fynd i gyfarfodydd a, chi'n gwybod, bron yn gorfod mynd i ofyn am y cymorth yna o ran cyllidebu.' (Uwch Reolwr 1)

5.34 Ar y llaw arall, adroddodd rhai ymarferwyr Cyngor ar Bopeth mewn grwpiau ffocws fod Cynghorwyr Personol yn porthgadw mynediad i bobl ifanc, efallai oherwydd eu bod yn teimlo bod Cyngor ar Bopeth yn ymgymryd â rolau a gyflawnwyd yn

draddodiadol gan y Cynghorydd Personol. Dadleuodd rhai nad oedd y Cynghorwyr Personol yn gadael i berthynas ddatblygu rhwng pobl ifanc a Chyngor ar Bopeth:

> 'Rwy'n credu yn rhannol eu bod nhw (Cynghorwyr Personol) yn teimlo ein bod ni'n dwyn eu swydd i ryw raddau... nid pob un ohonynt o bell ffordd... ond roedd yna ambell un a oedd â’r agwedd, “na, na, fy mherson ifanc i yw hwn ac fe alla’ i wneud hyn i gyd. Dydyn ni ddim eisiau i chi ddod i mewn ac ymyrryd”, ac felly, wyddoch chi, doedd dim ffordd o gysylltu ag unrhyw un yr oeddem wedi’i golli mewn gwirionedd.' (Aelod 11, Cyngor ar Bopeth)

5.35 Serch hynny, dros amser, daeth adroddiadau am y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth gan Gynghorwyr Personol yn fwyfwy cadarnhaol. Ychydig fisoedd ar ôl y grwpiau ffocws cychwynnol (a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2023) gydag ymarferwyr, rydym yn dechrau nodi gwerthfawrogiad cynyddol o'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth (o'r ardaloedd a oedd yn defnyddio’r gwasanaeth hwnnw). Wrth arsylwi fforwm ymarferwyr yn yr hydref 2023, fe wnaethom nodi bod un mynychwr wedi dweud bod 'Cyngor ar Bopeth yn benderfyniad gwych - eu cynnwys nhw’ a bod un arall wedi esbonio 'weithiau dydyn nhw (pobl ifanc) ddim yn gwrando arnoch chi mwyach oherwydd eich bod chi'n siarad â nhw drwy'r amser. Maen nhw wedi bod yn wych, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Maen nhw (pobl ifanc) yn gwrando arnyn nhw' (Nodiadau maes, fforwm ymarferwyr, Hydref 2023).

### c) Gwerthuso 'llwyddiant' elfen cyngor ariannol y cynllun peilot

5.36 Mae data ynghylch 'llwyddiant' gweithredu'r elfen hon o’r ymyrraeth yn cyflwyno darlun diddorol, er ychydig yn anghyson. Mae ein trafodaethau ansoddol gyda phobl ifanc ac ymarferwyr Cyngor ar Bopeth yn tynnu sylw at heriau yn ymwneud ag ymgysylltiad rheolaidd a pharhaus. Er enghraifft, roedd un cyfranogwr grŵp ffocws o Gyngor ar Bopeth (rhif 8) wedi disgrifio ymgysylltu fel 'yr her fwyaf rydyn ni wedi'i chael o bell ffordd' ac awgrymodd mai prif swyddogaeth Cyngor ar Bopeth oedd y cyfrifiadau 'Gwell eich Byd' - 'unwaith byddan nhw’n cael yr arian, pam dylen nhw ymgysylltu â ni?' Yn ein nodiadau maes, daethom o hyd i aelod arall o Gyngor ar Bopeth yn esbonio ei strategaeth ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc, ond nododd ddiffyg galw am ei fewnbwn:

> 'Fe ddechreues i drwy ffonio’r bobl ifanc yn fy llwyth achosion bob mis. Byddwn i'n gofyn iddyn nhw “Sut ydych chi?” “Ie, iawn”, “Oes angen unrhyw gymorth arnoch chi”, “Na, ddim felly”. Ar ôl ychydig fisoedd o sgyrsiau o'r fath, fe roddais i’r gorau i’w ffonio nhw mor rheolaidd. Efallai roeddwn i’n gwneud rhywbeth o chwith.' (Nodiadau maes, fforwm ymarferwyr, Hydref 2023)

5.37 Adroddodd cyfranogwyr o Gyngor ar Bopeth mai dim ond 'llond dyrnaid bach’ oedd yn cyfarfod â chynghorwyr Cyngor ar Bopeth yn rheolaidd - 'y lleiafrif o bell ffordd.’ (Aelod 8, Cyngor ar Bopeth)

5.38 Mewn cyferbyniad, mae nifer yr ymgysylltiadau Cyngor ar Bopeth a gofnodwyd â derbynyddion yr incwm sylfaenol yn manylu ar gannoedd o gysylltiadau rhwng cynghorwyr Cyngor ar Bopeth a phobl ifanc. Er enghraifft, rhwng diwedd mis Gorffennaf 2022 a diwedd mis Medi 2022, adroddodd Cyngor ar Bopeth am gysylltiadau â 385 o wahanol bobl ifanc ar y cynllun, naill ai wyneb yn wyneb, ar y ffôn neu drwy e-bost. Yn fwy diweddar, rhwng mis Ebrill 2024 a mis Awst 2024, adroddodd Cyngor ar Bopeth fod 161 o unigolion ar gyfartaledd, sef tua chwarter y garfan gyffredinol, yn cael eu cynorthwyo bob mis, ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

5.39 Mae hyn yn benbleth diddorol, y gellid ei esbonio gan faterion yn ymwneud â chofio, samplu ar gyfer y cyfweliadau ansoddol, canfyddiadau o arwyddocâd neu ffactorau eraill. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno'r adroddiadau a'r profiadau hyn o ymgysylltu yn syml. Ceisiwn archwilio hyn ymhellach yn ein hymarfer casglu data dilynol gyda phobl ifanc a Chyngor ar Bopeth, y disgwylir iddo ddechrau yng ngwanwyn 2025.

**Datblygiad perthynol: adborth, ailadrodd ac ymddiriedaeth**

5.40 Mae'n nodedig, er gwaethaf yr heriau amrywiol a amlygwyd uchod, sy'n deillio'n bennaf o amserlenni brysiog ac anghymesuredd gwybodaeth, ei bod yn ymddangos bod y cynllun peilot wedi cyrraedd cyfnod cyflawni sefydlog erbyn yr hydref 2023. Y farn gyffredinol ar draws grwpiau cyfranogwyr (pobl ifanc, ymarferwyr gofal cymdeithasol a chynghorwyr Cyngor ar Bopeth) oedd bod llawer o'r materion a oedd yn arwyddocaol ac yn frys yn ystod y cam cyflwyno, wedi derbyn sylw'n raddol wrth i'r cynllun peilot symud ymlaen. Mae'n ymddangos bod dau ffactor yn gyfrifol am hyn.

5.41 Yn gyntaf, mae cyfathrebu parhaus llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru ac ymdrechion cyson i feithrin perthnasoedd a mynd i'r afael â phryderon ymarferwyr wedi cryfhau ymddiriedaeth a datrys materion sy'n dod i'r amlwg yn ystod y cynllun peilot.

5.42 Dywedodd gweithwyr proffesiynol ar bob lefel fod problemau a wynebwyd yn ystod y cyfnod lansio ac yn syth wedi hynny wedi cael eu datrys yn gyflym. Adroddwyd bod y ddau brif gyfrwng cyfathrebu - blwch negeseuon e-bost y cynllun peilot a chyfarfodydd chwarterol un-i-un rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol unigol - ill dau yn effeithiol iawn o ran darparu cymorth cyflym, dibynadwy a pharhaus gan y tîm polisi. Crynhowyd hyn gan Bennaeth Gwasanaeth awdurdod lleol:

> 'Mae'r cymorth gan dîm [Llywodraeth Cymru] wedi bod yn wych. Felly, os byddaf yn e-bostio gyda chwestiwn, rwy'n cael ymateb o fewn yr awr, mae rhywun yn ymateb i mi. Nid mor hir â hynny hyd yn oed, ac yn dweud wrthyf beth sydd angen i mi ei wneud, yn dweud wrthyf beth rydw i wedi'i fethu, yn

> dweud wrthyf, wyddoch chi, beth fydd yn digwydd os na fyddwn yn gwneud hyn... Maen nhw'n datrys hynny'n syth. Felly, mae’r ffaith bod y tîm yn cadw mewn cysylltiad â ni yn beth positif...Felly, cael rhywun fydd yn ateb fy nghwestiynau, ni waeth pa mor dwp yw'r cwestiwn, dydyn nhw ddim yn edrych arnaf fel ’taswn i'n dwp. Ond byddan nhw’n rhoi ateb i mi. Ac felly, mae hynny wedi bod yn gadarnhaol iawn.' (Pennaeth Gwasanaeth 2)

5.43 Mewn fforwm ymarferwyr a gynhaliwyd ym mis Hydref 2023, myfyriodd sawl gweithiwr proffesiynol yn gadarnhaol ar gyfathrebu â Llywodraeth Cymru:

> '“Maen nhw mor ymatebol pan fydd gennych chi gyswllt personol yno” (enwyd sawl swyddog fel rhai ‘da’)', “maen nhw'n wych. Maen nhw mor hawdd cael gafael arnyn nhw”, ac ar ôl dweud “Rwy'n credu eu bod nhw’n rhagorol”, mae Cynghorydd Personol yn dechrau hel atgofion am gyfarfodydd BIP cynnar, cyn cyflwyno, lle’r oeddent wedi cyfarfod â grwpiau mawr o Gynghorwyr Personol ac “ateb un cwestiwn ar ôl y llall”.' (Nodyn maes ymchwilydd, fforwm ymarferwyr, Hydref, 2023).

5.44 Yr ail ffactor a oedd yn gysylltiedig â datrys y materion yn gyflym oedd bod swyddogion polisi yn ymddangos yn agored ac yn ymatebol i'r pryderon parhaus a oedd yn cael eu codi gan ymarferwyr. Mae sawl penderfyniad allweddol wrth ddylunio a gweithredu'r cynllun peilot yn adlewyrchu'r hyn y mae Ansell et al. (2017, tud.474) yn ei ddisgrifio fel dolenni 'adborth yn ôl' ac 'adborth ymlaen.’ Er enghraifft, ychwanegwyd opsiwn ar gyfer taliad ddwywaith mis ochr yn ochr â'r taliad misol ar ôl cael ei awgrymu gan Gynghorwyr Personol yn y cyfarfod tair awr hir cychwynnol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Yn yr un modd, cyflwynwyd yr opsiwn o wneud taliadau uniongyrchol i landlordiaid ar ran y bobl ifanc ar ôl awgrymiadau gan Gynghorwyr Personol. Mae enghreifftiau eraill ar hyd y cynllun peilot yn cynnwys gwneud newidiadau i'r system TG. Dyma ryngwyneb y cynllun peilot ar gyfer awdurdodau lleol, ac fe’i huwchraddiwyd ar ôl iddynt ganfod ei fod yn rhy gymhleth, ac i sicrhau cydymffurfedd â thrin data yn Llywodraeth Cymru. Gwnaed newidiadau hefyd i ffurflenni treth ac amryw ddarnau gweinyddol eraill:

> 'Roedd [delio â'r cyflwyniad cychwynnol] yn dipyn o ddryswch i ni, o ran ceisio mynd i'r afael ag ef, a beth oedd ei angen. Ond wedyn, wrth i amser fynd heibio, a'i fod bron wedi’i ymgorffori yn ein hymarfer, mae'r broses wedi mynd ychydig yn haws. Chi’n gwybod, mae gennym ni un Cynghorydd Personol sydd, diolch byth, i mi, wedi cymryd yr awenau, a hi yw'r un a fydd yn atgoffa pobl erbyn pryd y mae angen iddynt gofrestru pobl ifanc, wyddoch chi, beth y mae angen iddynt ei wneud cyn y cyfarfod hwnnw gyda’r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, ac yn y blaen. Ac mae ein dealltwriaeth o’r cynllun wedi gwella, dybiwn i, wrth i amser fynd heibio, ac mae hi'n mynd i holl gyfarfodydd Llywodraeth Cymru, ac yn teimlo ei bod hi’n cael ei chefnogi’n dda ganddyn

nhw... Ond, fel y dywedais, ar y dechrau un, roedden ni heb baratoi...' (Rheolwr Tîm 2)

**Cymhlethdod**

5.45 Yn fwy cyffredinol, mae’n ymddangos bod profiadau o weithredu’r cynllun peilot yn ei gamau cynnar yn cadarnhau honiadau mai'r cyd-destun, y system wleidyddol a gweinyddol, y garfan a ddewiswyd, swm yr incwm sylfaenol, y dull cyflawni, y cymorth cysylltiedig, y berthynas â budd-daliadau eraill a manylion eraill o'r fath sydd wir yn pennu natur ymyriadau o'r fath (Aerts et al., 2023).

5.46 Fel yr amlygwyd uchod, roedd y cydlynu rhwng canghennau amrywiol o’r llywodraeth a gweithredwyr allanol wedi arwain at ystod o heriau a chreu cromlin ddysgu ar gyfer gweithredu'r cynllun peilot. Yn yr adran hon, myfyriwn ar faterion pellach sy'n ychwanegu haenau o lywodraethu a chymhlethdod. Sef, gweithredu'r cynllun o fewn cyd-destun datganoledig, ac amrywioldeb amgylchiadau unigol pobl ifanc ac amgylchiadau trefniadaethol y gwasanaethau yr oeddent yn gweithio gyda nhw ledled Cymru. Yn gynnar, roedd yn amlwg i'r tîm polisi mai hwn oedd 'un o'r polisïau mwyaf cymhleth a chynhwysfawr yr oeddent wedi delio ag ef' (Aelod 3, y Tîm Datblygu Polisi).

**Datganoli**

5.47 Y ffactor sydd wedi cyfrannu at alluogi a chymhlethu'r cynllun peilot yw natur llywodraethu datganoledig yn y Deyrnas Unedig. Dywedodd un aelod (rhif 1) o'r tîm polisi '*Doeddwn i byth yn meddwl... y gallai cynllun peilot incwm sylfaenol ddigwydd mewn cyd-destun datganoledig*', wrth fyfyrio ar y rhwystrau a oresgynnwyd. Mae'r cyfyngiadau y mae'r trefniant datganoli presennol yn eu gosod ar y posibilrwydd o incwm sylfaenol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu cydnabod ers tro. Canfu un o brif gasgliadau'r astudiaeth ddichonoldeb helaeth a gynhaliwyd yn yr Alban:

> 'Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi penderfynu nad yw'n ymarferol ar hyn o bryd i unrhyw un lefel o lywodraeth ar ei phen ei hun gyflwyno model peilot Incwm Sylfaenol i Ddinasyddion fel y disgrifiwyd gan y Grŵp Llywio. Byddai angen newidiadau deddfwriaethol, technegol a chyflawni sylweddol a chymhleth i sicrhau bod Incwm Sylfaenol i Ddinasyddion yn rhyngweithio â'r system nawdd cymdeithasol bresennol mewn ffordd sy'n osgoi niwed i'r rhai sydd ar fudd-daliadau a'r incwm isaf' (Grŵp Llywio Astudiaeth Ddichonoldeb Incwm Sylfaenol i Ddinasyddion, 2020, tud.3)

5.48 Yn yr un modd, dywedodd Rebecca Evans, a oedd yn siarad bryd hynny fel Gweinidog Cyllid yn y Senedd (Senedd Cymru):

> 'Byddai Llywodraeth Cymru yn agored i gynnal treial [Incwm Sylfaenol Cyffredinol] o'r fath yng Nghymru, ond mae'n rhaid i ni fod yn realistig na fyddai treial o'r fath yn bosibl heb gydweithrediad gweithredol Llywodraeth y Deyrnas

Unedig, a hynny oherwydd sut mae incwm sylfaenol cyffredinol yn rhyngweithio â'r system dreth a budd-daliadau' (Rebecca Evans AS, Senedd Cymru, Medi 2020, paragraff 326)

5.49 Fodd bynnag, roedd ewyllys wleidyddol ac atebion biwrocrataidd yn golygu y gellid defnyddio datganoli fel offeryn, yn hytrach na rhwystr, i dreialu cynllun peilot incwm sylfaenol. Yn y bôn, defnyddiodd Llywodraeth Cymru y meysydd y mae ganddi gymhwysedd polisi ynddynt o dan y trefniant datganoli (e.e. gwasanaethau cymdeithasol a thai) i gynnal rhaglen o'r math hwn. Serch hynny, o gofio nad yw meysydd fel lles a threthiant wedi'u datganoli'n llwyr, roedd rhaid i Lywodraeth Cymru lywio llwybrau llywodraethu cymhleth nas defnyddir yn aml i wireddu'r cynllun peilot. Esboniwyd y cymhlethdod hwn gan y cyn Brif Weinidog:

> '[Mae’r] setliad datganoli yn ased ond mae ganddo ei gyfyngiadau gwirioneddol hefyd... ased y setliad datganoli yw ei fod yn ein galluogi i gynnal cynllun peilot o'r math hwn, rydym wedi gwneud penderfyniad pendant i ddod o hyd i dros 20 miliwn o bunnoedd o'n cyllideb i'w gefnogi... y cyfyngiadau yw pan fydd y pethau hyn yn cyffwrdd â chyfrifoldebau heb eu datganoli... roeddem yn siomedig iawn na lwyddasom i berswadio'r Adran Gwaith a Phensiynau ac yna, trwyddyn nhw, CThEF i fod yn rhan o’r arbrawf yma gyda ni... mae cryn dipyn, tua 20 miliwn o bunnoedd, bellach yn diweddu mewn trosglwyddiad uniongyrchol o dan gyllidebu Cymru yn ôl i gyllidebau yn Whitehall naill ai trwy drethiant neu drwy daliadau lles nad ydynt yn cael eu gwneud.' (Mark Drakeford, Cyn-Brif Weinidog Cymru[12], a ddyfynnwyd yn Prabhakar (2024, tud.(au) 2-3).

5.50 Nid oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod yr incwm sylfaenol fel budd-dal gan y llywodraeth a delir i bobl ifanc, a dywedodd yn fwy cyffredinol nad oedd o blaid treialu incwm sylfaenol yn y Deyrnas Unedig (Llywodraeth Cymru, 2022, 2023). O ganlyniad, mae proses Llywodraeth Cymru o weithredu'r cynllun peilot hwn yn golygu y bu’n rhaid ei ddatblygu a'i gyflawni mewn modd fel y gallai weithio o fewn systemau presennol nad ydynt wedi'u datganoli yn y Deyrnas Unedig. Un enghraifft o hyn oedd ym maes treth.

5.51 Gan fod yr arian incwm sylfaenol yn cael ei ystyried yn incwm 'heb ei ennill' i bobl ifanc, yn hytrach na budd-dal gan y llywodraeth, mae'r taliadau yn destun didyniadau treth. O dan ddeddfwriaeth dreth y DU, roedd angen i Lywodraeth Cymru drethu yr arian cyn ei dalu, a leihaodd y swm a dalwyd yn uniongyrchol o £1,600 i £1,280 y mis fesul unigolyn. Yna talodd Llywodraeth Cymru £320 y mis mewn treth i Lywodraeth y DU, ar ran pob derbynnydd. Roedd y system hon eisoes yn bodoli (o dan y cod CT61), ond dyma'r tro cyntaf iddi gael ei defnyddio ar gyfer cynllun incwm sylfaenol, hyd eithaf gwybodaeth y tîm polisi. Nid ydym yn

[12] Y sefyllfa bresennol: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

ymwybodol o unrhyw gynsail ar gyfer hyn yn y DU, ac efallai mai dyma'r unig enghraifft fyd-eang o lywodraeth ddatganoledig yn talu treth ar ran grŵp o ddinasyddion. Yna, gallai pobl ifanc hawlio treth yn ôl, naill ai'n annibynnol neu gyda chymorth Cynghorwyr Personol neu Gyngor ar Bopeth, os oedd didyniadau treth yn ddyledus iddynt - er enghraifft, os oedd ganddynt incwm cyffredinol islaw'r trothwy treth, ac yn dibynnu ar ba incwm arall oedd ganddynt.

5.52 Fodd bynnag, mae data o'r grwpiau ffocws a'r nodiadau maes yn awgrymu y bu hyn yn gymharol gymhleth. Er bod rhai ymarferwyr wedi dweud bod y broses dreth yn 'syml' (nodiadau maes ymchwilwyr, fforwm ymarferwyr, Hydref 2023), mae adroddiadau eraill yn dangos bod staff Cyngor ar Bopeth yn dweud eu bod wedi gorfod gwneud yr un hawliadau sawl gwaith. Mewn rhai achosion, roedd staff CThEF hyd yn oed yn ansicr ynghylch sut i drin hawliadau treth yn gysylltiedig â’r cynllun peilot, er eu bod i fod i gael eu categoreiddio fel achos ar wahân:

> '...o ran fy mhrofiad i o wneud cais am ad-daliad ar gyfer tua 10 o bobl, nid oedd yr un ohonynt wedi gweithio... Nid oedd gan CThEF, a oedd yn prosesu'r hawliadau, syniad am BIP, beth oedd yn ei olygu, beth oedd yr arian ar ei gyfer... ym mhob achos, roedd rhaid i mi wneud hawliad o leiaf ddwywaith ac mewn un achos tua phedair gwaith cyn iddo gael ei brosesu.' (Aelod 8, Cyngor ar Bopeth)

5.53 O ystyried y cymhlethdodau hyn, cydnabu'r tîm polisi, er bod y cynllun peilot yn cael ei reoli o fewn y fframweithiau hyn, y byddai angen newid deddfwriaethol er mwyn cyflwyno polisi llawn o'r math hwn yn y dyfodol:

> '...os yw'r rhyngweithio hwn â threth yn rhoi pen ar y cynllun yn llwyr o ran p’un a ellir addasu ei raddfa ac a yw’n gyflawnadwy yn y tymor hwy, byddai angen newid deddfwriaethol i ddod o hyd i lwybr gwell ar gyfer rheoli’r ochr dreth ar bethau' (Aelod 3, y Tîm Datblygu Polisi)

5.54 Mewn cyhoeddiad diweddar, mae Prabhakar (2024) yn nodi bod y cynllun peilot yn darparu astudiaeth achos unigryw o sut mae dynameg nawdd cymdeithasol a dinasyddiaeth gymdeithasol yn esblygu ac yn ehangu mewn cyd-destunau datganoledig. Mae'r profiadau o'r cynllun peilot yn dangos y rhyddid i'r llywodraeth fwrw ymlaen ni waeth beth fo sefyllfa llywodraeth y Deyrnas Unedig, ond hefyd y rhwystrau y mae'n rhaid iddi eu goresgyn wrth wneud hynny. Roedd swyddogion yn ymwybodol o'r gwersi posibl i'w dysgu o arloesi'r cynllun peilot yng nghyd-destun datganoli:

> 'Felly, rydym yn dangos beth sy'n digwydd pan fyddwch yn cynnal cynllun peilot incwm sylfaenol mewn cyd-destun datganoledig. Y pethau cadarnhaol a negyddol. Felly, dyna pam rwy'n gobeithio y bydd yr hyn a ddysgwyd o’r broses yn gryf a dylanwadol, nid yn unig i Gymru ond i'r Deyrnas Unedig gyfan...' (Aelod 1, y Tîm Datblygu Polisi)

**Cymhlethdod ac amrywioldeb**

5.55 Y prif ffactor arall sy'n creu cymhlethdod o ran dylunio a chyflwyno'r cynllun peilot, a phrofiadau'r cyfranogwyr ohono, yw'r amrywioldeb yn strwythur y cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal ledled Cymru[13], a sefyllfaoedd bywyd unigryw gwahanol gyfranogwyr. Mae gan y rhain oblygiadau cyfreithiol, cyllidol a pholisi pellgyrhaeddol i wahanol bobl ifanc o dan amodau'r cynllun peilot. Roedd gan wahanol awdurdodau lleol allu amrywiol i gynorthwyo pobl ifanc i lywio'r daith ar y cynllun peilot, rhoi gwybodaeth am ymgysylltu â budd-daliadau eraill a'r berthynas â Chyngor ar Bopeth neu ddarparwyr gwasanaeth eraill.

5.56 Mae enghraifft o sefyllfa unigryw a chymhleth rhai cyfranogwyr yn ymwneud â phobl ifanc anabl. Amlygodd cefnogwr person ifanc ag amhariadau difrifol ddryswch yn ystod cam cynnar y rhyngweithio rhwng yr incwm sylfaenol a budd-daliadau eraill. Disgrifiodd broses hir o ddeall y cynllun peilot yn ystod y broses gofrestru ar gyfer y person ifanc yr oedd yn gweithredu ar ei ran. Er bod y Cynghorydd Personol wedi arwain y broses o gofrestru'r person ifanc, crybwyllodd sut y bu'n rhaid iddo fynd 'yn ôl ac ymlaen' sawl gwaith gyda swyddogion ar y ffôn cyn i adrannau perthnasol yr awdurdod lleol allu darparu ar gyfer cyflwr y person ifanc.

5.57 Fe allai anawsterau o'r math hwn fod yn anochel o ystyried graddfa'r cynllun peilot a'r ystod o wahanol amgylchiadau unigol. Ac eto, mater ehangach i'r cynllun peilot yw bod y profiadau hyn wedi arwain at ganfyddiadau o 'annhegwch' a all fod yn anodd eu gwahanu oddi wrth y cynllun peilot ei hun. Roedd ymdeimlad cyffredinol ymhlith gwahanol gyfranogwyr bod y cynllun peilot, i ryw raddau, yn datgelu (yn hytrach nag achosi) diffygion strwythurol yn y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n gadael gofal, megis y ffioedd uchel canfyddedig a godir gan rai darparwyr tai a chymorth a'r amrywiad yn y cymorth gadael gofal a ddarperir i bobl ifanc. Daeth yr amrywioldeb hwn i'r amlwg fwyaf mewn dau faes: tai a lloches.

**a) Tai**

5.58 Mae profiadau gwahaniaethol pobl ifanc o dai, sy'n bryder cyffredin i bobl ifanc sy'n gadael gofal ledled y Deyrnas Unedig (Liabo et al., 2016), yn un o'r materion mwyaf heriol sy'n amlwg ar draws ein ffynonellau data. Mae gan bobl ifanc sy'n gadael gofal drefniadau tai amrywiol, gan gynnwys rhentu preifat, byw gyda theuluoedd/perthnasau, byw mewn llety â chymorth, ac aros gyda gofalwyr maeth mewn trefniant 'Pan fyddaf yn barod.' Roedd gan yr holl drefniadau hyn oblygiadau gwahanol o ran faint o arian yr oedd y bobl ifanc yn ei dalu am dai, sut y telir amdano (h.y. ganddyn nhw neu'n syth oddi wrth y cyngor) a faint o gymorth ariannol maen nhw'n ei gael i dalu amdano.

[13] Gweler y Rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant | LLYW.CYMRU.

5.59 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gryn dipyn o drafodaethau rhyng-adrannol ynglŷn â'r mater hwn yn ystod cam dylunio'r cynllun peilot, a chyhoeddodd ganllawiau yn ystod y cam cyflwyno, yn amlinellu bod yr incwm sylfaenol yn dod ar ben y cymorth presennol (ac nid yn ei le). O safbwynt ymarferwyr, fodd bynnag, roedd cyfranogwyr ar wahanol gamau'r cynllun peilot yn ei chael hi'n anodd ymgodymu â goblygiadau incwm cynyddol pobl ifanc i faint o rent y gallent fod yn agored i'w dalu, mewn gwahanol fathau o lety. Mae'n ymddangos bod polisïau ar y cyfraniad y disgwylir i bobl ifanc ei wneud tuag at gostau llety mewn rhai lleoliadau, er enghraifft y ddarpariaeth 'Pan fyddaf yn Barod', yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, ac mewn rhai achosion yn amrywio yn ôl p'un a yw unigolyn ar y cynllun peilot ai peidio (nodiadau maes ymchwilwyr, fforwm ymarferwyr, Hydref 2023). Ar draws y cynllun peilot, roedd Cynghorwyr Personol yn ansicr weithiau ynglŷn â hawliau pobl ifanc i fudd-dal tai ac roeddent yn feirniadol o'r symiau uwch yr oedd pobl ifanc ar y cynllun peilot yn eu talu am dai â chymorth o gymharu â'u cyfoedion.

> 'Bu effaith fawr ar y llety â chymorth, oherwydd - heb fwriadu sarhau'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth a'r cyfrifiadau Gwell eich Byd - dydyn nhw ddim wedi bod o gymorth o gwbl wrth geisio darganfod sut i ddatrys y materion llety â chymorth, gyda'r rhent. Dim ond pythefnos yn ôl y cytunwyd, dwi'n credu, y byddai pob person ifanc mewn llety â chymorth yn talu £450 o rent i ddechrau [o'r arian incwm sylfaenol a dderbyniwyd gan gyfranogwyr], ac yna'n gwneud cais am fudd-dal tai dewisol. Ond wedyn, ni fydd hwnnw (budd-dal tai) yn cael ei roi bob amser, felly, mae llawer o bobl ifanc yn teimlo'n waeth eu byd, ac yn difaru mynd ar BIP, oherwydd maen nhw nawr yn talu rhent pan nad yw pobl ifanc eraill yn gorfod talu rhent. Mae'r darparwyr llety wedi bod yn negyddol iawn tuag at y cynllun, nad yw wedi ein helpu ni.' (PA3)

5.60 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn nodi na fwriadwyd i'r cynllun peilot ddisodli'r holl fudd-daliadau y byddai gan berson ifanc yr hawl iddynt fel arall, gan gynnwys budd-dal tai. Maen nhw'n cydnabod, fodd bynnag, y gallai cyfranogwyr mewn gwahanol rannau o Gymru, mewn gwahanol fathau o dai, a chyda gwahanol reolau lleol ar gapiau rhent, ddiweddu mewn 'loteri cod post' a thalu symiau gwahanol iawn o rent tra byddant ar y cynllun peilot. Maen nhw hefyd yn nodi nad oedd yr amrywiadau hyn mewn profiadau a chanlyniadau yn deillio o'r cynllun peilot, ond bod y cynllun peilot wedi tynnu sylw at heriau hirsefydlog presennol:

> 'Rwy'n credu mai rhai o'r pethau mwyaf rhwystredig am ei gyflawni, yn ôl pob tebyg, yw'r gwahaniaethau a'r anghydraddoldebau presennol nad oeddem yn gwbl ymwybodol ohonynt o flaen llaw. Ac nid wyf yn credu bod pob awdurdod lleol yn gwbl ymwybodol bod y gwahaniaethau niferus hyn yn bodoli mewn gwirionedd. Felly, ond ie, byddwn i'n dweud nad gwaith y cynllun peilot incwm sylfaenol oedd ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion presennol hynny.'
> (Aelod 3, y Tîm Datblygu Polisi)

5.61 Wrth ymateb i faterion tai a ddatgelwyd gan y cynllun peilot, aeth awdurdodau lleol ati i helpu pobl ifanc mewn ffyrdd gwahanol. Ar yr adeg hon yn y gwerthusiad, nid yw'n glir i ba raddau y mae disgwyliadau'n amrywio yn ôl awdurdod lleol ac yn ôl math o ddarpariaeth, ond bwriadwn archwilio hyn ymhellach yng ngham nesaf y dadansoddiad gweithredu.


**b) Lloches (asylum)**

5.62 Maes arall sy'n dangos cymhlethdod y cynllun peilot hwn, a gyflwynodd faterion yn ymwneud â pholisi heb ei ddatganoli, amgylchiadau unigol cymhleth ac ewyllys wleidyddol a biwrocrataidd, oedd cynnwys ceiswyr lloches yn y cynllun peilot.[14]

5.63 I ddechrau gydag ewyllys wleidyddol (Shen, 2004), roedd cynnwys y garfan hon, sy'n cynrychioli dim ond 11% (n=74) o'r grŵp derbynyddion (Llywodraeth Cymru 2024), wedi denu cryn dipyn o sylw gwleidyddol, ac yn y cyfryngau. Er enghraifft, mae dadansoddiad o storfa erthyglau yn y cyfryngau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n sôn yn benodol am y cynllun peilot, yn cynnwys dros 700 o gofnodion. Mae'r erthyglau'n rhoi rhywfaint o dystiolaeth o frigiadau cyhoeddi sy'n cyd-fynd â chyhoeddiadau allweddol yn ymwneud â'r cynllun peilot (gweler Ffigur 1). Mae'n ymddangos bod y cynnydd mwyaf nodedig mewn allbwn yn y cyfryngau, ym mis Ebrill 2023, yn canolbwyntio ar y ddadl ynglŷn â chynnwys ceiswyr lloches digwmni yn y cynllun peilot.

[14] Mae'n werth nodi, er bod rhai gweithredwyr cymdeithas sifil wedi treialu incwm sylfaenol cyffredinol gyda phobl nad ydynt yn ddinasyddion, mae'r rhan fwyaf o gynigion a chynlluniau peilot yn meddwl am 'wledydd' a 'ddinasyddion' fel uned dychymyg incwm sylfaenol cyffredinol (Gordon, 2021).

**Ffigur 11. Tueddiadau o ran cyhoeddi erthyglau yn y cyfryngau sy'n sôn am y cynllun peilot (Gorffennaf 2021 i Hydref 2024)**




FFYNHONNELL: Storfa Llywodraeth Cymru o erthyglau yn y cyfryngau yn ymwneud â’r cynllun peilot

5.64 Roedd hyn yn adlewyrchu rhywfaint o feirniadaeth gyhoeddus a gwleidyddol ynglŷn â’r ffaith bod y cynllun peilot yn cynnwys pobl gymwys sy'n gadael gofal sy'n gyn-blant digwmni a oedd yn ceisio lloches, yn dilyn beirniadaeth o hyn gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ar y pryd yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Ebrill 2023, ac amddiffyniad cadarn wedi hynny o hawl y bobl ifanc hynny i gael cymorth gan Brif Weinidog Cymru ar y pryd (BBC News, 2023b). Ailadroddodd Gweinidogion gefnogaeth ddiysgog i'r agwedd hon ar y polisi ar sawl achlysur.

5.65 Mae gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Pwyllgor Deisebau ar 25 Hydref 2023 yn datgan:

> '[...] mae plant digwmni sy'n ceisio lloches sydd â phrofiad o ofal wedi cael eu cynnwys bob amser fel rhai sy'n gymwys ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol fel ymadawyr gofal categori tri. Yn unol â'n hymagwedd Cenedl Noddfa, rydym am sicrhau bod plant digwmni sy'n ceisio lloches yn cael eu cynorthwyo i adfer eu bywydau. Mae galluogi pobl ifanc gymwys i gymryd rhan yn y cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn cefnogi'r uchelgais hwn.'

5.66 Roedd y ddadl gyhoeddus hon, a fynnodd sylw ac amser swyddogion a Gweinidogion, yn haen ychwanegol i'r hyn a oedd eisoes yn profi i fod yn rhan gymhleth o weithredu’r cynllun peilot. Roedd pryder cynnar yn ymwneud â sut mae bod ar y cynllun peilot yn effeithio ar gymhwysedd unigolyn i gael cymorth cyfreithiol. Gan fod cymorth cyfreithiol yn cael ei drin yn yr un modd â budd-dal sy’n dibynnu ar brawf modd, sy’n golygu bod incwm a chyfalaf unigolyn yn cael eu

hystyried cyn gwneud penderfyniad ar hawl i gymorth cyfreithiol, mae lefel yr incwm sylfaenol a dderbynnir yn gwthio unigolion uwchlaw'r trothwy lle byddent yn gymwys i hawlio am yr hyn sy’n gallu bod yn wasanaethau cymorth cyfreithiol costus. Er bod y mater hwn wedi codi oherwydd y ffordd y mae'n ymwneud â cheiswyr lloches digwmni, y mae arnynt angen cymorth cyfreithiol fel arfer i wneud hawliadau lloches, fe allai hefyd effeithio ar unrhyw gyfranogwr y mae arno angen cymorth cyfreithiol - er enghraifft, unrhyw berson ifanc sy’n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol neu lysoedd sifil. Un ateb a archwiliwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru oedd eithrio'r grŵp hwn o'r prawf modd cymorth cyfreithiol, a fyddai'n eu galluogi i hawlio fel arfer. Fodd bynnag, roedd hyn yn gofyn am gytundeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig, nad oedd ar ddod. Parhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru i gysylltu â swyddogion Gweinyddiaeth Gyfiawnder Llywodraeth y Deyrnas Unedig i archwilio'r goblygiadau, ond creodd y sefyllfa ddryswch i ymarferwyr a chefnogwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yr effeithir arnynt.

5.67 Arweiniodd cymhlethdod y sefyllfa hon, a'i heffaith ar wahanol bobl ifanc, at lawer o heriau i'r ymarferwyr a'r staff Cyngor ar Bopeth sy'n cynorthwyo derbynyddion. Amlygodd staff Cyngor ar Bopeth anallu i gynnal cyfrifiadau 'Gwell eich Byd' pendant ar gyfer y grŵp hwn - oherwydd diffyg eglurder llwyr ar y mater cymorth cyfreithiol, ac oherwydd ei bod yn anodd iawn rhagfynegi’n ystyrlon pa ffioedd cyfreithiol y gellid eu codi. Roeddent hefyd yn ansicr p’un a roddir rhifau yswiriant gwladol[15] i gyn-blant digwmni a oedd yn ceisio lloches[16], sy'n effeithio ar hawliadau ad-daliad treth yn y pen draw. Mae ein nodiadau maes a'n trafodaethau â swyddogion polisi yn awgrymu bod Cynghorwyr Personol yn defnyddio gwahanol strategaethau ar lefel unigol, yn amrywio o barhau i wneud cais am gymorth cyfreithiol ar gyfer eu pobl ifanc i gytuno ar ffioedd gyda chyfreithwyr ar gyfer yr achosion hyn, ymhlith pethau eraill. Mewn rhai achosion, mae’n bosibl bod y grŵp hwn yn gorfod talu cyfran fawr o'u harian incwm sylfaenol tuag at ffioedd cyfreithiol.

> '...Felly, rydyn ni wedi cael cyfarfodydd teirffordd gyda chyfieithwyr, a chyfreithwyr, a dwi'n credu yn yr un cyfarfod a gawson ni, cytunwyd y byddai'r person ifanc yn rhoi £600 y mis tuag at ei ffioedd cyfreithiol... Chi'n gwybod, felly, mae rhwystr ieithyddol hyd yn oed gyda chyfieithydd, yn ceisio esbonio beth yw BI, ac y bydd yn dod i ben. Ond rydych chi'n well eich byd arno, yn

[15] Eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn eu hadolygiad y dylai pobl ifanc digwmni sy’n ceisio lloches gael rhif Yswiriant Gwladol dros dro er mwyn gallu gwneud hawliadau R40. Gweler hawlio Credyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill os ydych yn ffoadur.

[16] Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y garfan hon fel 'Cyn-blant Digwmni oedd yn Ceisio Lloches’ er mwyn sicrhau cysondeb â therminoleg ehangach y gwasanaethau cymdeithasol/Swyddfa Gartref, gan eu bod i gyd dros 18 oed yn y cam hwn o’r cynllun peilot. Maent yn blant digwmni sy’n ceisio lloches pan fyddant o dan 18 oed ond yna fe'u hystyrir yn gyn-blant digwmni a oedd yn ceisio lloches pan fyddant dros 18 oed, hyd yn oed os yw eu cais am loches yn dal i fynd rhagddo.

talu'ch ffioedd cyfreithiol yn gyffredinol. Ac os nad ydych chi, gallwch ddod oddi arno.’ (PA3)

5.68 Felly, mae cymhlethdod rheoli materion pobl ifanc sy'n ceisio lloches ar y cynllun peilot yn tynnu sylw at 'gymhlethdod' arall sy’n gysylltiedig â’i gyflawni, sef effeithiau cynnal y cynllun peilot hwn o fewn cyd-destun datganoledig, a chanlyniadau a phrofiadau amrywiol pobl ifanc arno.

**Cyflwyno ymyrraeth 'syml' mewn systemau 'cymhleth': ailadrodd ac addasu**

5.69 Fel y mae adrannau blaenorol wedi’i amlinellu, fe allai'r honiadau bod incwm sylfaenol yn 'symleiddio' gweinyddiaeth wrth ddarparu lles, anwybyddu cymhlethdod llywodraethu a chyflawni yn y byd go iawn.

5.70 Mewn rhai ffyrdd, adroddwyd bod y cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus iawn. Un enghraifft o'r fath yw trosglwyddo arian parod yn rheolaidd a dibynadwy. Fel yr amlygwyd uchod, roedd sicrhau y byddai arian pobl ifanc yn eu cyrraedd yn ddi-oed yn allweddol i gyflawni'r cynllun peilot. Tanlinellwyd pwysigrwydd hyn gan Gynghorwyr Personol, a fynegodd bryderon ynglŷn â’r posibilrwydd o niwed pe na byddai taliadau a drefnwyd yn cyrraedd pobl ifanc. Dywedodd aelodau'r tîm polisi eu bod yn ymwybodol iawn bod rhaid i'r partner talu ar y cynllun peilot fod yn gwbl ddibynadwy. Mae adroddiadau ansoddol ar draws y ffynonellau data a gynhwyswyd yn y dadansoddiad hwn yn awgrymu bod hyn wedi bod yn llwyddiant drwy gydol cyfnod y cynllun, hyd yma:

> 'Gallaf bron warantu’r union ddyddiau pan fyddaf yn cael y taliad, mae bob amser ar y cyntaf a’r pymthegfed. Dim methiant. Mae bob amser i mewn ar y dyddiau hynny. Dydw i byth wedi cael problem ag ef. Mae gen i ddebyd uniongyrchol...gallaf warantu y bydd yno pan fydd y debyd yn mynd i fyny.' (YP1)

5.71 Mewn ffyrdd eraill, mae dyluniad a dull gweithredu'r cynllun peilot wedi bod yn fwy ailadroddus. Cyhoeddodd swyddogion Llywodraeth Cymru ganllawiau drafft i awdurdodau lleol er mwyn iddynt eu hadolygu a gwneud sylwadau arnynt, a chyhoeddodd yr holl sylwadau ac ymatebion mewn drafftiau dilynol. Roedd Gweinidogion hefyd yn awyddus i’r cynllun peilot fod yn ddeinamig a dysgu ar hyd ei daith. Gellid gweld hyn yn y newidiadau a wnaed yn seiliedig ar adborth gan awdurdodau lleol a gwybodaeth genedlaethol a byd-eang, fel y soniwyd uchod.

5.72 Fodd bynnag, roedd yn amlwg i'r swyddogion a gafodd y dasg o gyflwyno'r cynllun peilot na fyddai unrhyw faint o waith paratoi yn dileu'r holl heriau sy'n codi (neu a allai godi). Roedd gormod o 'anhysbysion anhysbys' er mwyn i hyn fod yn realistig:

> 'Ond rwy'n credu mai dyna un o'r pethau mawr dwi wedi’i ddysgu o hyn. Weithiau, mae’n rhaid i chi fwrw iddi oherwydd fe allwch chi siarad amdano drwy'r dydd a meddwl am lawer o resymau pam na all ddigwydd. Ond weithiau

> mae'n rhaid i chi ddal ati a gweld beth allwch chi ei wneud i wneud iddo ddigwydd.' (Aelod 2, y Tîm Datblygu Polisi)

5.73 At hynny, fel y soniwyd uchod, roedd hyn hefyd yn deillio’n rhannol o’r ffaith bod incwm sylfaenol yn ymyrraeth a all effeithio ar bob agwedd ar fywyd cyfranogwyr, sy'n golygu ei bod yn anodd rhagweld senarios penodol amrywiol. Roedd yn amlwg yn gynnar y byddai'n rhaid i'r tîm polisi a'r awdurdodau lleol gydnabod gwahanol ganlyniadau a phrofiadau a oedd yn mynd y tu hwnt i gylch gwaith y cynllun peilot ei hun. Roedd y rhain yn ymwneud â thai pobl ifanc, iechyd, budd-daliadau, trethiant ac amryw agweddau eraill ar bolisi a llywodraethu. Roedd hyn i gyd yn golygu bod angen dull deinamig, fel yr esboniodd un swyddog:

> 'Felly, mae llawer o bethau y mae’n rhaid i chi fynd ati i’w hadnabod, dwi'n credu, a bu hynny’n wir ar gyfer y cynlluniau peilot incwm sylfaenol ledled y byd hefyd' (Aelod 1, y Tîm Datblygu Polisi)

5.74 Roedd yr angen hwn i weithio 'trwy', yn hytrach nag 'o gwmpas', llawer o faterion wedi’i adlewyrchu hefyd i ryw raddau gan rai ymarferwyr a gydnabu fod terfynau i faint o feddwl a pharatoi o flaen llaw y gallai’r rhai a oedd yn ymwneud â chyflwyno’r rhaglen ei wneud. Fel y dywedodd un cyfranogwr grŵp ffocws:

> 'Rwy'n credu hyd yn oed ’tasen ni wedi ymgysylltu am bum mlynedd, ni fydden ni wedi meddwl am yr holl senarios cymhleth sydd wedi digwydd. Maen nhw wedi dod i’r amlwg oherwydd bod pob unigolyn sydd ar y cynllun peilot hwn yn wahanol.' (Aelod 13, Cyngor ar Bopeth)

5.75 Mewn modd tebyg, dangosodd Llywodraeth Cymru barodrwydd i addasu arferion gweithredu hefyd. Er enghraifft, polisi cychwynnol y llywodraeth oedd peidio â chaniatáu ceisiadau hwyr, o ystyried amseriad diwedd y cynllun peilot a chylchoedd cyllideb y llywodraeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, ni allai pobl ifanc gael eu cofrestru erbyn eu pen-blwydd yn 18 oed oherwydd heriau gweinyddol yn ystod y camau cynnar a oedd y tu allan i'w rheolaeth. O ystyried y goblygiadau i bobl ifanc golli'r cyfle hwn am resymau o'r fath, newidiodd y safbwynt hwn:

> 'Felly, fe welon ni ei bod yn eithaf annheg na allai pobl ifanc, am resymau a oedd allan o'u rheolaeth, ymuno fis ar ôl eu pen-blwydd a byddem yn eu gadael ar y cynllun peilot ac mae’n amlwg bod hynny'n benderfyniad mawr oherwydd mae'n golygu bod ein taliadau'n mynd ymlaen ychydig yn hirach nag y bwriadwyd yn wreiddiol ac i mewn i gyllidebau blynyddoedd eraill, o bosibl.' (Aelod 2, y Tîm Datblygu Polisi)

5.76 Gwelwyd bod y dull hwn o addasu a dysgu trwy wneud yn allweddol wrth leddfu tensiynau a dryswch cychwynnol yn ystod cam cyflwyno'r cynllun peilot, yn ogystal â ffurfio perthnasoedd cryfach rhwng y rhai sy'n ymwneud â'r broses.

**Crynodeb o ganfyddiadau gweithredu cynnar a chyflawni**

5.77 I grynhoi, mae ein canfyddiadau'n dangos natur gymhleth gweithredu cynllun peilot incwm sylfaenol. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda llawer o bartneriaid i gyflawni'r cynllun peilot, gan gynnwys awdurdodau lleol ledled Cymru a Chyngor ar Bopeth. Cwblhawyd y trefniadau logistaidd ar gyfer y cynllun peilot o fewn amserlenni cymharol fyr ac adroddodd llawer o ymarferwyr awdurdodau lleol eu bod yn teimlo'n rhwystredig a'u bod heb baratoi digon pan ddechreuodd y cynllun peilot. Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n dangos bod y berthynas rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi gwella dros amser wrth i'r tîm polisi geisio meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth, gwrando ar adborth, ac ymateb i faterion a phryderon sy'n codi.

5.78 Mae ein canfyddiadau hefyd yn tynnu sylw at rai anawsterau cychwynnol wrth i awdurdodau lleol a Chyngor ar Bopeth weithio mewn partneriaeth. Adroddodd llawer o gynghorwyr Cyngor ar Bopeth ei bod yn heriol annog pobl ifanc i ymgysylltu â'u gwasanaeth yn rheolaidd, er bod cannoedd o gysylltiadau rhwng cynghorwyr Cyngor ar Bopeth a phobl ifanc wedi'u cofnodi. Bwriadwn archwilio ymgysylltiad pobl ifanc â'r gwasanaeth ymhellach wrth i'r gwerthusiad fynd yn ei flaen.

5.79 Yn ogystal â gweithio gyda llawer o bartneriaid, roedd angen i Lywodraeth Cymru lywio'r trefniadau datganoli, yr amrywiad o ran sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu ar draws awdurdodau lleol, ac amgylchiadau bywyd unigryw pobl ifanc sy'n derbyn y cynllun peilot. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod dull deinamig o addasu a dysgu wedi bod yn angenrheidiol i fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg a meithrin perthynas gryfach â phartneriaid.

# 6. Trafodaeth

## Safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc sy'n dderbynyddion

6.1 Fel yr ydym wedi'i nodi'n flaenorol, disgrifiwyd y newid i fywyd oedolion ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal fel bod 'yn gyflym, yn gywasgedig, ac yn llinol' (Stein 2019, tud.400), a bod pobl ifanc yn wynebu newidiadau sylweddol mewn bywyd yn gynharach a heb y rhwydwaith cymorth sydd ar gael fel arfer i'w cyfoedion nad oes ganddynt brofiad o ofal. Er bod natur heriol y cyfnod pontio hwn yn parhau, bwriad argaeledd yr incwm sylfaenol yw cryfhau'r cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal, gan wella eu gallu i lywio newidiadau allweddol a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol (Llywodraeth Cymru 2022a). Mae ein canfyddiadau'n awgrymu rhywfaint o gysondeb â nodau'r polisi wrth i bobl ifanc adrodd am ymdeimlad datblygol o lythrennedd a chymhwysedd ariannol, gwell iechyd meddwl a lles, ynghyd ag ymdeimlad cryfach o ymreolaeth a rheolaeth.

6.2 Nid yw'n syndod, efallai, bod pawb a gyfwelwyd yn cefnogi'r ffaith bod y cynllun peilot wedi'i dargedu at bobl ifanc sy'n gadael gofal, gan bwysleisio eu sefyllfa ddifreintiedig a'u statws haeddiannol. Mae'n nodedig bod sawl cyfranogwr wedi cyfeirio'n benodol at ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol i ddefnyddio'r arian yn gynhyrchiol ac yn gyfrifol.

6.3 Mae cyffelybiaethau a chyferbyniadau'n nodedig rhwng safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc o'r cynllun peilot, a safbwyntiau gweithwyr proffesiynol a adroddwyd yn flaenorol (Holland et al., 2024). Yn gyson â gweithwyr proffesiynol, roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cymorth ychwanegol a roddwyd gan yr incwm sylfaenol ac yn credu y gallai hyn leihau anfantais a gwella eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Wrth sôn am bobl ifanc eraill yn y crynodeb, fel y gwelsom o'r blaen mewn trafodaethau â gweithwyr proffesiynol, mynegodd derbynyddion bryderon weithiau y gallai'r cyfle a gynigir gan yr incwm sylfaenol gael ei wastraffu. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r derbynyddion a gyfwelwyd yn ystod y cam hwn o'r cynllun peilot yn teimlo eu bod wedi defnyddio'r arian yn annoeth, a dywedodd pawb wrthym fod y cynllun peilot wedi bod o gymorth neu'n fuddiol iddynt mewn rhyw ffordd. Mae'r duedd hon o honni eu bod yn gobeithio am ymddygiad 'cyfrifol', neu gyfleu eu hunain fel carfan ag anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bobl ifanc sy'n ailadrodd pwysigrwydd dod o hyd i 'swydd', yn parhau i amlygu goruchafiaeth naratifau cyffredinol ynghylch lles a pholisi cymdeithasol. Mae ymchwil ansoddol ar incwm sylfaenol cyffredinol yn yr Iseldiroedd (Rosseti et al., 2020) a De Affrica (Fouksman, 2020), er enghraifft, yn dangos er bod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth, eu bod yn parhau i ystyried eu bod yn perthyn i'r canfyddiadau cymdeithasol trechaf o 'haeddu' cymorth lles (Van Oorschot, 2000). Mae p'un a fyddai hyn yn newid petai incwm sylfaenol yn 'hawl' hirdymor, fel y mae rhai wedi dadlau (Standing, 2004), yn anodd ei bennu o gynlluniau peilot tymor byr (Widerquist, 2018).

6.4 Roedd pryderon a fynegwyd gan lawer o weithwyr proffesiynol y gallai'r incwm sylfaenol datgymell addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (Holland et al., 2024) yn cyferbynnu i raddau helaeth â barn pobl ifanc a oedd yn cymryd rhan. Adroddodd rhai pobl ifanc fod incwm sylfaenol yn eu galluogi i archwilio cyfleoedd addysg neu gyflogaeth newydd sy'n cyfateb i'w diddordebau neu'n gwneud eu dewisiadau presennol yn haws trwy ddarparu sicrwydd ariannol a lleddfu straen. I rai, roedd yr incwm sylfaenol yn lleihau'r angen i ymgymryd â gwaith rhan-amser tra oeddent yn astudio neu'n eu galluogi i chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli yn lle hynny. Roedd y bobl ifanc a gyfwelwyd gennym a oedd yn ddi-waith yn tynnu sylw'n aml at absenoldeb cyfleoedd cyflogaeth, yn hytrach na diffyg cymhelliant.

6.5 O ran byw'n annibynnol, adroddwyd bod yr incwm sylfaenol yn galluogi pobl ifanc i ymdopi'n ariannol a theimlo'n ddiogel yn ariannol. Yn yr un modd, roedd yn ymddangos fel petai'n hwyluso mwy o ddewis a rheolaeth mewn perthynas ag agweddau allweddol ar eu bywydau, gan gynnwys tai, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a gweithgareddau hamdden. Yn gysylltiedig â hyn, roedd llawer o bobl ifanc yn priodoli teimlo llai o straen a phryder i'r incwm sylfaenol yn benodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gwaith damcaniaethol ac empirig ar gysylltiadau rhwng cynlluniau incwm sylfaenol ac iechyd meddwl, sydd wedi cynyddu'n ddiweddar (Johnson et al., 2023; Wilson a McDaid, 2021).

6.6 Gellir cysylltu'r canfyddiadau â dangosyddion lles goddrychol y rhai sy'n gadael gofal mewn arolygon a ddatblygwyd ac a ddosbarthwyd yn eang gan Coram Voice (Briheim-Crookall et al., 2020) ac sy'n sail i arolygon a gynhaliwyd yn rhan o'r gwerthusiad hwn (gweler Holland et al., 2024). Mae'r dangosyddion, a lywiwyd gan ymchwil ac a ddatblygwyd ar y cyd â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, yn amlygu ystyriaethau pwysig mewn perthynas â'r hyn sy'n bwysig a'r hyn sy'n gwneud bywyd yn dda. Mae dangosyddion sy'n gysylltiedig â chymorth, byw'n annibynnol, teimladau a pherthnasoedd yn darparu ffordd ddefnyddiol o ddadansoddi a allai'r incwm sylfaenol fod yn fuddiol i les goddrychol, ac ym mha ffyrdd.

6.7 Gall y canfyddiadau hefyd fod yn gysylltiedig â chysyniad Jeffrey Arnett o 'oedolyn sy'n dod i'r amlwg ', sef cam datblygiadol rhwng y glasoed ac oedolaeth, lle mae pobl ifanc yn archwilio eu hunaniaeth, eu perthnasoedd a'u proffesiynau, ac yn arbrofi â nhw (Arnett, 2000). Fel y disgrifir gan Arnett (2000, tud.469), mae hwn yn gyfnod:

> 'pan fydd llawer o wahanol gyfeiriadau'n bosibl o hyd, pan nad oes fawr dim am y dyfodol wedi'i benderfynu'n sicr, pan fydd y cyfle i archwilio posibiliadau bywyd yn annibynnol yn fwy i'r rhan fwyaf o bobl nag y bydd ar unrhyw adeg arall yn ystod eu hoes.'

6.8 O ystyried y cyfyngiadau sy'n wynebu'r rhai sy'n gadael gofal o gymharu â phobl ifanc nad oes ganddynt brofiad o ofal, mae ein data'n awgrymu bod yr incwm

sylfaenol yn darparu rhywfaint o gydraddoldeb i’r cyfranogwyr â'u cyfoedion. Dywedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau a phrofiadau a’u bod yn mwynhau teimlo llai o wahaniaeth ac anfantais na’u cyfoedion. Yn bwysig, roedd yr incwm sylfaenol yn lleihau’r pwysau sy’n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ynglŷn ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, megis y cyfle i dreulio amser yn chwilio am y cyfle iawn, neu newid llwybrau hyfforddi. Er bod cefnogwyr weithiau'n amau cynnydd ac ymgysylltiad pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, mae dymuniad y cyfranogwyr i ystyried a dod o hyd i opsiynau sy’n iawn iddynt yn gyson â dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r cam datblygiadol hwn.

6.9 Yn ogystal, mae'r canfyddiadau’n ailgadarnhau pwysigrwydd cymorth. Gellir ystyried y cynllun peilot yn rhan o gasgliad ehangach o gynlluniau peilot 'arian parod a mwy' (gweler e.e. Mathur et al., 2023; Roelen et al., 2023). Mae'r cynlluniau peilot hyn yn cyfuno trosglwyddiadau arian diamod â chymorth ychwanegol (Palermo a Watson, 2016; Roelen et al., 2017). Amlygodd y bobl ifanc y siaradom â nhw ffynonellau cymorth ffurfiol ac anffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys gwerthfawrogi argaeledd cyngor ariannol arbenigol, a chael cymorth gan Gynghorwyr Personol, gofalwyr a/neu aelodau'r teulu i siarad â nhw am yr incwm sylfaenol, a’u helpu i gynllunio a/neu reoli pryderon. Pan nad oedd hyn ar gael, dywedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo'n ansicr a/neu’n bryderus.

6.10 Mae tystiolaeth ddiweddar wedi taflu goleuni ar y newid heriol i gyflogaeth i’r rhai sy'n gadael gofal, sy'n cynnig cyfleoedd cyfyngedig y mae llawer ohonynt fel arfer yn ansicr, â chyflog isel a heb fawr o le i gamu ymlaen (Harrison et al., 2023). Mae tystiolaeth fyd-eang ynglŷn â mater 'ymgorffori anffafriol' (Philips, 2013) sy'n dangos sut mae'r telerau y mae pobl mewn sefyllfaoedd bregus yn ymuno â'r farchnad lafur arnynt yn creu maglau sy’n anodd dianc rhagddynt. Er enghraifft, efallai y bydd angen i blentyn sy'n byw mewn teulu tlawd ddechrau gweithio’n gynnar i gynnal ei deulu, ond mae hyn yn ei atal rhag dilyn addysg bellach neu hyfforddiant. Mae hyn wedyn yn ei ddal mewn cylchoedd o lafur anfedrus a chyflog isel.

6.11 O’u hystyried yn y modd hwn, mae'r canfyddiadau o’r cyfweliadau â phobl ifanc yn rhoi rhywfaint o gefnogaeth i'r rhai sy'n dadlau y gall incwm sylfaenol diamod roi'r pŵer i gyfranogwyr ddweud 'na' (Widerquist, 2013) wrth berthnasoedd anffafriol ac, yn lle hynny, gwneud gwaith (â thâl a/neu’n ddi-dâl) maen nhw wir eisiau ei wneud (Standing, 2021). Amser a ddengys a yw hyn (a) yn batrwm ehangach ymhlith y grŵp derbynyddion, ac (b) o fudd tymor hwy i unigolion, neu gymdeithas yn fwy cyffredinol, yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig.

6.12 Yn olaf, er bod nifer o weithwyr proffesiynol wedi mynegi pryder y gallai'r incwm sylfaenol niweidio rhai pobl ifanc yn hytrach na bod o fudd iddynt (yn enwedig o ran camfanteisio a chamddefnyddio sylweddau) (Holland et al., 2024), nid oedd hyn yn nodwedd o'n cyfweliadau. Yn nodweddiadol, disgrifiodd y bobl ifanc y siaradom â

nhw ‘gromlin ddysgu’ lle’r oeddent wedi gwneud dewisiadau gwario annoeth i ddechrau, a oedd yn cynnwys camddefnyddio sylweddau ac alcohol, ond adroddwyd bod y rhain yn rhai dros dro yn hytrach nag arferol. Nid yw syniadau o gromlin ddysgu mewn perthynas â rheoli incwm sylfaenol yn unigryw i'r bobl ifanc yn yr astudiaeth hon, ac fe’u hamlygwyd mewn cynlluniau peilot incwm sylfaenol eraill ledled y byd (gweler Davala et al., 2015). Yn ogystal, dangosodd y data fod pobl ifanc yn ymwybodol o'r potensial i berthnasoedd fod yn gamfanteisiol a’u bod yn ofalus wrth ddatgelu eu bod yn derbyn yr incwm sylfaenol. At hynny, disgrifiodd rhai pobl ifanc sut oedd yr incwm sylfaenol wedi helpu eu perthnasoedd i fod yn fwy dwyochrog ac yn llai dibynnol.

**Gweithredu**

6.13 Byddai’n rhy gynnar cynnal asesiad gwrthrychol o lwyddiannau a methiannau cymharol ar bob cam o'r cynllun peilot ar y cam interim hwn, felly mae'r dadansoddiad hwn yn fwy disgrifiadol na gwerthusol. Nodweddir ei hanes gweithredu hyd yma gan ewyllys wleidyddol sylweddol a ysgogodd fenter ac arloesedd biwrocrataidd. Achosodd proses gyflwyno fer ddryswch, pryder a rhwystrau sylweddol, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio'n agosaf gyda phobl ifanc. Ond gellir disgrifio'r broses yn ei chyfanrwydd fel proses ddysgu ailadroddol a chydweithredol a oedd wedi datrys y gwahanol heriau a wynebwyd i raddau helaeth. Wrth wraidd pob un o'r camau hyn yr oedd amodau amrywiol iawn ledled Cymru, ar draws bywydau pobl ifanc, heriau a oedd yn dod i'r amlwg a heriau anhysbys, a saernïaeth sefydliadol gymhleth llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth leol.

6.14 Mae dwy wers allweddol yn y cyd-destun hwn. Yn gyntaf, mae tystiolaeth o daith weithredu'r cynllun peilot hwn yn amlygu honiadau a wnaed gan Aerts et al. (2023) nad yw incwm sylfaenol yn bolisi unffurf. Yn hytrach, fe’i llunnir gan ei fanylion dylunio a'r cyd-destun gwleidyddol, economaidd-gymdeithasol a lles y caiff ei weithredu ynddo. Yn ail, er gwaethaf honiadau y gallai incwm sylfaenol leihau prosesau biwrocrataidd, mae rôl y fiwrocratiaeth yn parhau i fod yn annatod, er hynny wedi’i thrawsnewid ychydig.

6.15 O ran cyd-destun yr incwm sylfaenol, mae dau ffactor yn ymddangos yn arbennig o bwysig. Yn gyntaf, rôl ymrwymiad gwleidyddol cryf a pharhaus i'r cynllun peilot a fu’n allweddol wrth alluogi'r tîm polisi i barhau i gyflawni'r rhaglen, ar ei ffurf fwyaf uchelgeisiol, er gwaethaf heriau oddi uchod ac isod. Mae'r cynllun peilot yn enghreifftio egwyddorion allweddol Brinkerhoff (2000; 2010) o ran ewyllys wleidyddol - yn enwedig bod yn ganolbwynt menter, trefnu rhanddeiliaid perthnasol, trefnu ac ymrwymo adnoddau, ac ymdrechu’n barhaus. Cyfeiriodd aelodau tîm polisi Llywodraeth Cymru a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws yn rheolaidd at y ffyrdd niferus yr oedd cyfarwyddyd gweinidogol yn parhau i wneud y cynllun peilot hwn mor bellgyrhaeddol, uchelgeisiol a buddiol i bobl ifanc â phosibl.

6.16 Yn y gorffennol, ystyriwyd bod datganoli’n derfyn allweddol ar esblygiad incwm sylfaenol yng ngwledydd datganoledig y Deyrnas Unedig, er enghraifft yng nghyd-destun yr Alban (Cantillon ac O'Toole, 2022; Thomas, 2022). Mae profiad Cymru, ar y llaw arall, yn dangos sut oedd ymrwymiad gwleidyddol cryf wedi caniatáu i'r polisi osgoi cyfyngiadau datganoli i raddau helaeth a gweithio o amgylch y system dreth, fudd-daliadau a chyfiawnder sydd heb ei datganoli i raddau helaeth.

6.17 Yr ail ffactor allweddol oedd rôl y fiwrocratiaeth ar wahanol gamau a'r perthnasoedd rhyngddynt. Fel y mae proffil cynyddol rhaglenni trosglwyddo arian uniongyrchol yn ei amlygu (gweler, er enghraifft, dadansoddiad Dar et al. (2023) yn yr India neu Maki (2016) ar gyfer y Ffindir), mae biwrocratiaeth yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth ddylunio a datblygu rhaglenni o'r fath. Bu’n rhaid i weision sifil a oedd yn gweithredu'r cynllun peilot lywio amryw ganghennau biwrocratiaeth: cydlynu rhyngadrannol o fewn Llywodraeth Cymru, trafodaethau rhynglywodraethol a cheisio cyngor rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, gwahanol adrannau o fewn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Roedd dysgu gan wahanol adrannau a gweithio gyda nhw yn allweddol o hyd i weithredu’r cynllun peilot. At hynny, nid yw pobl ifanc ar y cynllun peilot wedi bod yn dderbynyddion goddefol yn unig o'r incwm a'r gwasanaethau a ddisgrifir yma. Maen nhw hefyd wedi ffurfio'r cynllun peilot trwy lefel eu hymgysylltiad â gwasanaethau cymorth a'r penderfyniadau maen nhw wedi'u gwneud ar sut i ddefnyddio'r incwm.

6.18 Mae canfyddiadau'r cynllun peilot hwn hefyd yn cefnogi'r syniad bod 'biwrocracaeth ar lefel stryd' (Lipsky, 1980) yn benderfynydd allweddol wrth weithredu'r rhaglen. Mae hyn yn tynnu sylw at rôl y swyddogion unigol y mae dinasyddion yn dod i gysylltiad uniongyrchol â nhw - yn yr achos hwn, Cynghorwyr Personol, cynghorwyr Cyngor ar Bopeth ac eraill fel swyddogion tai - sy’n allweddol wrth bennu sut mae'r rhaglen yn cael ei phrofi gan y defnyddiwr terfynol - yn yr achos hwn, y person ifanc. Er enghraifft, ar ddechrau'r cynllun peilot, roedd diffyg eglurder pobl ifanc ynglŷn â’r cynllun peilot yn golygu eu bod yn dibynnu'n eithaf helaeth ar gyngor Cynghorwyr Personol i wneud penderfyniadau allweddol - megis p'un ai dewis taliadau misol neu ddwywaith y mis , penderfyniadau ynghylch sut mae rhent yn cael ei dalu, ac amryw rai eraill.

6.19 Mae hyn yn adleisio sgwrs allweddol mewn ymchwil incwm sylfaenol. Mae rhai cefnogwyr incwm sylfaenol, yn enwedig y rhai ar yr ochr Dde wleidyddol, yn dadlau dros incwm sylfaenol fel modd o docio biwrocratiaeth a 'symleiddio' budd-daliadau trwy drosglwyddiad arian parod uniongyrchol (Martinelli, 2017; Haagh, 2019). Ar y llaw arall, mae ysgolheigion wedi dadlau bod incwm sylfaenol yn annhebygol o leihau biwrocratiaeth, ond y gallai newid ei rôl a'i natur yn lle hynny (De Wispalaere a Stirton, 2013). Dyma’r cynllun peilot cyntaf o’r natur a’r raddfa hon i’w gynnal gan y llywodraeth, felly mae ei ganfyddiadau'n rhoi cefnogaeth empirig i'r honiad olaf.

Nid oedd rôl ac arwyddocâd biwrocratiaeth wedi lleihau naill ai i dimau Llywodraeth Cymru, nac i staff awdurdodau lleol, fel y gwelwyd yn eu hadroddiadau eu hunain ac mewn cyfweliadau â phobl ifanc. Cyflwynodd rolau newydd ac esblygol y tu hwnt i gylch gwaith yr hyn yr oedd y ddwy set o weithredwyr yn gyfarwydd â'i wneud yn draddodiadol, ac mewn rhai ffyrdd addasodd y cymorth yr oeddent yn ceisio ei ddarparu i'r rhai sy'n gadael gofal.

**Cyfyngiadau**

6.20 Er bod y gwerthusiad yn ei gyfanrwydd yn defnyddio ystod eang o ddulliau a mathau o ddata, mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar ddata ansoddol. Mae hyn yn briodol i'r cwestiynau ymchwil y dechreuwn eu hateb yn yr adroddiad hwn, ond mae rhai cyfyngiadau. Mae yna duedd dethol, yn enwedig o ran profiadau pobl ifanc a'u cefnogwyr. Roedd y derbynyddion a wirfoddolodd i gymryd rhan mewn cyfweliadau eu hunain yn cyfathrebu â'u Cynghorydd Personol, oherwydd dyna sut y cawsant eu gwahodd. Nid oedd yn anghyffredin i Gynghorwyr Personol ddweud wrthym, 'Byddwn wrth fy modd petaech chi'n siarad â X', ond nid oedd hyn yn bosibl am wahanol resymau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys pobl ifanc a oedd yn teithio, yn gweithio a/neu'n astudio neu nad oedd ganddynt amser i gymryd rhan mewn cyfweliad, yn ogystal â'r rhai yr ystyriwyd eu bod yn arbennig o agored i niwed ac yr oedd eu heriau'n golygu nad oedd cyfweliad yn ymarferol.

6.21 Felly, er bod y sampl o bobl ifanc yn amrywiol o ran anghenion, profiadau, sefyllfaoedd a gobeithion ar gyfer y dyfodol, nid yw'n gynrychioliadol o'r holl bobl ifanc sy'n derbyn yr incwm sylfaenol, ac rydym yn ymwybodol na chafodd rhai safbwyntiau a phrofiadau eu cyfleu.

6.22 Roedd elfen o duedd dethol wrth recriwtio cefnogwyr hefyd. Nifer fach yn unig o safbwyntiau cefnogwyr y gellid eu cynnwys. Weithiau, dewisodd pobl ifanc beidio ag enwebu unigolyn ychwanegol, ac mewn achosion eraill ni ellid cysylltu â chefnogwyr neu fe wrthodwyd y gwahoddiad.

6.23 Mae gan y dadansoddiad o weithredu rai cyfyngiadau hefyd. Er ein bod wedi cael mynediad at ddata cyfoethog a manwl trwy gyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol a mynediad at gofnodion polisi'r llywodraeth, ni chychwynnodd y gwerthusiad tan ar ôl i'r cynllun peilot ddechrau. Mae hyn yn golygu bod data sy'n ymwneud â'r cyfnod sefydlu yn dibynnu i ryw raddau ar atgofion gweision sifil, ymarferwyr a derbynyddion. Fe allai hyn gyflwyno tuedd atgofio, gan beri iddynt dynnu sylw at yr heriau a'r llwyddiannau mwy byw, yn hytrach na'r rhai mwy cyffredin. Er hynny, caiff hyn ei liniaru ychydig gan y ffaith bod rhai o'r ffynonellau data hyn yn bodoli o ddechrau'r cynllun peilot. Er enghraifft, lluniwyd y cofnod datblygu polisi yn ôl-weithredol, ond defnyddiodd ffeiliau a gynhyrchwyd ar adeg datblygu'r polisi.

## 7. Casgliadau a'r camau nesaf

7.1 Mae'r canfyddiadau hyn yn adeiladu ar ganfyddiadau ein hadroddiad blaenorol, drwy ychwanegu safbwyntiau a phrofiadau cynnar pobl ifanc sy'n rhan o'r cynllun peilot, a thrwy ganolbwyntio'n benodol ar weithredu. Mae'r ddau faes hyn yn datblygu rhai o'r themâu a amlygwyd mewn trafodaethau gydag ymarferwyr ar y cychwyn cyntaf, ac fe'u harchwilir ymhellach wrth i'r gwerthusiad fynd yn ei flaen. Mae'r adroddiad hwn a'r un blaenorol wedi canolbwyntio'n bennaf ar gam cynnar y cynllun peilot - o ddechrau'r polisi, y broses o'i ddylunio a'i fireinio ac ymlaen i flwyddyn gyntaf ei gyflwyno.

7.2 Mae safbwyntiau a phrofiadau cynnar pobl ifanc sy'n derbyn yr incwm sylfaenol yn gadarnhaol. Er gwaethaf amrywiadau o ran anghenion, sefyllfaoedd a gobeithion ar gyfer y dyfodol, roedd y bobl ifanc a gyfwelwyd gennym yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y cymorth ariannol ychwanegol ar gael ac yn teimlo ei fod wedi bod o fudd iddynt o ran llythrennedd ariannol, iechyd meddwl a lles a/neu ymreolaeth a rheolaeth. Nid yw'n eglur pa mor hir y bydd y pethau da hyn yn parhau a bydd pryderon a godwyd gan gyfranogwyr ynglŷn â natur dros dro'r cynllun peilot (gan gynnwys heriau a ragwelir mewn perthynas â thai, cyflogaeth, cynaliadwyedd incwm) yn cael eu hailystyried. Bydd hefyd yn bwysig sefydlu - pan fydd y data ar gael - a yw unrhyw un o'r manteision canfyddedig hyn yn amlwg mewn mesurau meintiol. Mae'r dadansoddiad o weithredu yn ystod camau cynnar y cynllun peilot hefyd yn rhoi darlun manylach o gymhlethdod gwireddu ymyrraeth o'r fath. Mae hyn yn paratoi'r tir ar gyfer dadansoddiad pellach a fydd yn cwmpasu camau olaf y cynllun peilot. Fel y cyfryw, bydd y pynciau a'r themâu a drafodir yma yn cael eu hailystyried mewn adroddiadau yn y dyfodol.

7.3 Mae nifer gynyddol o gyfranogwyr wedi gadael y cynllun peilot neu yn y broses o'i adael wrth i'w cyfnod dwy flynedd o daliadau ddod i ben. Rhwng cyhoeddi'r adroddiad hwn a diwedd mis Mehefin 2025, bydd mwyafrif y derbynyddion yn cwblhau'r broses ymadael ac ni fyddant yn derbyn y trosglwyddiadau misol neu ddwywaith y mis mwyach. Wrth i'r cynllun peilot fynd yn ei flaen, byddwn yn troi ein sylw at ymadawiad y cyfranogwyr o'r cynllun peilot a'u teithiau ymlaen. Mae hwn yn gam allweddol o daith rhywun sy'n gadael gofal, ac un y mae'r holl randdeiliaid wedi mynegi pryderon sylweddol yn ei gylch. Er bod yr adroddiad hwn wedi ceisio cofnodi a dadansoddi'r daith weithredu gychwynnol a'r ffactorau sydd wedi creu'r llwyddiannau a'r heriau amrywiol ar hyd y ffordd, bydd y don nesaf o ddadansoddi gweithredu yn ceisio myfyrio ar gamau nesaf y daith, a chynnwys lleisiau mwy atgyrchol gan uwch randdeiliaid ar draws y cynllun peilot yn ogystal â dadansoddiadau meintiol o ymgysylltu, llwyddiannau a methiannau, a goblygiadau economaidd. Maes o law, byddwn hefyd yn adrodd ar sut mae'r canlyniadau'n cymharu â grwpiau tebyg o bobl ifanc nad ydynt wedi derbyn yr incwm sylfaenol.

**Cyfeiriadau**


Aerts E, Marx I and Verbist G (2023) Not that basic: how level, design, and context matter for the redistributive outcomes of universal basic income. *Journal of Social Policy*: 1–23.

Ansell C, Sørensen E and Torfing J (2017) Improving policy implementation through collaborative policymaking. *Policy & Politics* 45(3): 467–486.

Arnett JJ (2000) Emerging adulthood: A theory of development from the late teens through the twenties. *American Psychologist* 55(5): 469–480.

BBC News (2023a) *Basic income: Treat asylum seeker children fairly, says Mark Drakeford.* 20 April. Available at: Basic income: Treat asylum seeker children fairly, says Mark Drakeford - BBC News (accessed 26 November 2024).

BBC News (2023b) *Wales basic income: Drakeford hopes pilot will continue*. 28 June. Available at: Wales basic income: Drakeford hopes pilot will continue - BBC News (accessed 13 November 2024).

Briheim-Crookall L, Michelmore O, Baker C, et al. (2020) *What makes life good? Care leavers' views on their wellbeing*. November. Coram Voice. Available at: What Makes Life Good: Care leavers' views on their well-being (2020) - Coram : Coram

Brinkerhoff DW (2000) Assessing political will for anti-corruption efforts: an analytic framework. *Public Administration and Development* 20(3): 239–252.

Brinkerhoff DW (2010) *Unpacking the concept of political will to confront corruption*. Report, 14 May. Chr. Michelsen Institute.

Cantillon S and O'Toole F (2022) Citizens' basic income in Scotland: On the road to somewhere. *European Journal of Social Security* 24(3). SAGE Publications Ltd: 230–242.

Chen HT (2014) *Practical Program Evaluation: Theory-Driven Evaluation and the Integrated Evaluation Perspective*. SAGE Publications.

County of Santa Clara (2023) *'Press release 15 August 2024: County of Santa Clara expands Guaranteed Basic Income Pilot Program to additional vulnerable populations.'* Available at: County of Santa Clara Expands Guaranteed Basic Income Pilot Program to Additional Vulnerable Populations | County News Center | Office of Communications and Public Affairs | County of Santa Clara

Dar V, Sethi M and Baby S (2023) Direct Cash Transfers in Emerging Economies: The Case of India. *Business Perspectives and Research* 11(2): 287–308.

Davala S, Jhabvala R, Standing G, et al. (2015) *Basic Income: A Transformative Policy for India*. London; New Delhi: Bloomsbury Academic.

De Wispelaere J and Stirton L (2013) The Politics of Unconditional Basic Income: Bringing Bureaucracy Back In. *Political Studies* 61(4). SAGE Publications Ltd: 915–932.

Fouksman, E., 2020. The moral economy of work: Demanding jobs and deserving money in South Africa. Economy and Society.

Haagh L (2019) *The Case for Universal Basic Income*. The case for series. Cambridge, UK Medford, MA, USA: Polity.

Harrison DN, Dixon J, Sanders-Ellis D, et al. (2023) Care leavers' transition into the labour market in England. Epub ahead of print 2023.

Holland S, Westlake D, Roberts L, et al. (2024) *Basic income for care leavers in Wales pilot evaluation: annual report, 2023 to 2024.* 12/2024, 22 February. Welsh Government. Available at: Basic income for care leavers in Wales pilot evaluation: annual report 2023 to 2024 | GOV.WALES

House of Commons (2023) *Cost of Living.* [HC Deb 19 April 2023, vol 731 cols 228-229]. Available at: Cost of Living - Hansard - UK Parliament (accessed 13 November 2024).

Howard N, Roelen K, Ton G, et al. (2024) *CLARISSA Cash Plus Social Protection Intervention:* An Evaluation. report, 21 June. The Institute of Development Studies and Partner Organisations.

Johnson EA, Webster H, Morrison J, et al. (2023) What role do young people believe Universal Basic Income can play in supporting their mental health? *Journal of Youth Studies*: 1–20.

Liabo K, McKenna C, Ingold A, et al. (2017) Leaving foster or residential care: a participatory study of care leavers' experiences of health and social care transitions. *Child: Care, Health and Development* 43(2): 182–191.

Lipsky, M. (1980) *Street-level bureaucracy: dilemmas of the individual in public services*. New York: Russell Sage.

Living Wage Wales (2023) *What is it? - Living Wage Wales.* Available at: What is it? - Living Wage Wales (accessed 1 December 2023).

Mäki S (2013) The Story of Victimhood—Basic Income Recipients Positioning Street-Level Bureaucracies. *Advances in Applied Sociology* 3(1). 1. Scientific Research Publishing: 47–53.

Marchal S and Marx I (2024) *Zero Poverty Society*: Ensuring a Decent Income for All. Oxford University Press.

Martinelli DL (2017) *The Fiscal and Distributional Implications of Alternative Universal Basic Income Schemes in the UK*. Institute for Policy Research. Available at: The Fiscal and Distributional Implications of Alternative Universal Basic Income Schemes in the UK

Mathur V (2024) Ethical research in cash-transfer programs. *Development in Practice*. Routledge: 1–17.

Mathur V, Howard N, Lazarus J, et al. (2023) *How to Set Up, Manage, and Study a UBI+ Experiment. The Case of the 'WorkFREE' Project in Hyderabad, India*. Centre for Development Studies Report Series.

Nettle D, Johnson E, Johnson M, et al. (2021) Why has the COVID-19 pandemic increased support for Universal Basic Income? *Humanities and Social Sciences Communications* 8(1). Palgrave: 1–12.

NVivo (2018) QSR International Pty Ltd.

Pawson R (2013) *The Science of Evaluation: A Realist Manifesto*. London Thousand Oaks, Calif. New Delhi Singapore: SAGE.

Pawson R and Tilley N (1997) *Realistic Evaluation*. London: Sage Publications.

Phillips N (2013) Unfree labour and adverse incorporation in the global economy: comparative perspectives on Brazil and India. *Economy and Society* 42(2): 171–196.

Post LA, Raile ANW and Raile ED (2010) Defining Political Will. *Politics & Policy* 38(4): 653–676.

Prabhakar R (2024) Devolution and Social Citizenship: The Case of the Basic Income Pilot for Care Leavers in Wales. *Social Policy and Society*: 1–14.

Prendergast L, Davies C, Seddon D, et al. (2024) Barriers and enablers to care-leavers engagement with multi-agency support: A scoping review. *Children and Youth Services Review* 159: 107501.

Roelen K, Devereux S, Abdulai A-G, et al. (2017) How to Make 'Cash Plus' Work: *Linking Cash Transfers to Services and Sectors*. Innocenti Working Paper 2017–10. Florence: UNICEF Office of Research.

Roelen K, Howard N, Afroze J, et al. (2023) CLARISSA Cash Plus: *Innovative Social Protection in Bangladesh.* June. Brighton: Institute of Development Studies. Available at: CLARISSA Cash Plus: Innovative Social Protection in Bangladesh (accessed 12 November 2024).

Rossetti F, Roosma F, Laenen T, et al. (2020) An unconditional basic income? How Dutch citizens justify their opinions about a basic income and work conditionality. *Journal of International and Comparative Social Policy* 36, 284–300.

Shen SV (2024) Political will as a source of policy innovation. *Policy Studies Journal.*

Standing G (2020). Battling Eight Giants. Bloomsbury Publishing.

Standing G (2021) Basic Income Pilots: Uses, Limitations and Design Principles. *Basic Income Studies* 16(1): 75–99.

Stein M (2019) Supporting young people from care to adulthood: International practice. *Child & Family Social Work* 24(3): 400–405.

Thomas S (2022) A More Welcoming Climate: How Basic Income found better Traction in Holyrood than in Westminster. *Scottish Affairs* 31(3). Edinburgh University Press: 302–324.

Welsh Government (2021) *Welsh Government Programme for government: update* [HTML] | GOV.WALES. Available at: Welsh Government Programme for government: update [HTML] | GOV.WALES (accessed 15 November 2024).

Welsh Government (2022a) *Basic income pilot for care leavers: overview of the scheme* | GOV.WALES. Available at: Basic income pilot for care leavers: overview of the scheme | GOV.WALES (accessed 12 November 2024).

Welsh Government (2022b) *Written Statement: Basic Income Pilot for Care Leavers in Wales* (16 February 2022) | GOV.WALES. Available at: Written Statement: Basic Income Pilot for Care Leavers in Wales (16 February 2022) | GOV.WALES (accessed 12 November 2024).

Welsh Government (2024) *Basic Income for Care Leavers in Wales pilot statistics: August 2022 to July 2024 [HTML] | GOV.WALES.* Available at: Basic Income for Care Leavers in Wales pilot statistics: August 2022 to July 2024 [HTML] | GOV.WALES (accessed 13 November 2024).

Welsh Parliament (2021) *Universal Basic Income*. [19 October 2021, col 83]. Available at: Plenary 19/10/2021 - Welsh Parliament (accessed 3 December 2024)

Welsh Parliament (2020) *Member Debate under Standing Order 11.21 (iv): Universal Basic Income (UBI).* [30 September 2020, col 326]. Available at: Plenary 30/09/2020 - Welsh Parliament (accessed 3 December 2024)

Westlake D, Holland S, Sanders M, et al. (2024) The basic income for care leavers in Wales pilot evaluation: Protocol of a quasi-experimental evaluation. *PLOS ONE 19*(10). Public Library of Science: e0303837.

Widerquist K (2013) *Independence, Propertylessness, and Basic Income: a theory of freedom as the power to say no*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Wilson N and McDaid S (2021) The mental health effects of a Universal Basic Income: A synthesis of the evidence from previous pilots. *Social Science & Medicine* 287:114374.

# Atodiad 1: Disgrifiad byr o'r peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy’n Gadael Gofal yng Nghymru

**Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru: Trosolwg, Hydref 2023**

**Enw**

Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru

**Pam**

Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn wynebu heriau unigryw. Maent o dan anfantais anghymesur, ac yn ystadegol maent yn fwy tebygol na'u cyfoedion o brofi materion fel digartrefedd, caethiwed i sylweddau, a phroblemau iechyd meddwl. Maent yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol gyda dros 25 canran o'r oedolion sydd mewn carchardai wedi bod mewn gofal yn flaenorol. Bydd y cynllun peilot hwn yn rhoi mwy o gefnogaeth i'r garfan hon wrth iddynt symud ymlaen i fod yn oedolion, a hefyd yn profi egwyddorion incwm sylfaenol fel system ar gyfer darparu'r cymorth hwn.

**Pwy (derbynwyr)**

Pobl ifanc sy'n gadael gofal 'Categori 3' (fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) sy'n troi'n 18 oed rhwng 01 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023. Nid yw cyfranogiad yn orfodol ac mae'n rhaid i dderbynwyr gofrestru er mwyn ymuno â'r cynllun peilot.

**Beth (deunyddiau)**

£1600 y mis, cyn treth, fesul derbynnydd dros gyfnod o 24 mis. Mae'r incwm yn cael ei drethu yn y tarddle, sy'n golygu cyfanswm o £1280 y mis fesul derbynnydd yn uniongyrchol i'w cyfrif banc (yn seiliedig ar gyfraddau treth cyfredol).

**Beth (gweithdrefnau)**

Darperir cymorth ychwanegol, gan gynnwys cyfrifiadau 'gwell eu byd' cyn y cynllun peilot a chymorth cyllidebu parhaus, drwy ddarparwyr y Gronfa Cynghori Sengl. Ceir cefnogaeth barhaus gan wasanaethau cymdeithasol ac Ymgynghorwyr Personol yr awdurdodau lleol.

**Pwy (darparwyr)**

Darperir rheolaeth o'r cynllun peilot o ddydd i ddydd gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol a thimau gadael gofal. Tîm polisi Llywodraeth Cymru sy'n cynnal y gwaith monitro a datblygu canllawiau. NEC Software Solutions sy'n gweinyddu'r taliadau. Mae’r Gronfa Cynghori Sengl yn darparu'r elfen gymorth ychwanegol. Mae Voices from Care Cymru yn gweinyddu fforymau ymarferwyr a derbynwyr.

**Sut (fformat)**

Darperir taliadau trwy drosglwyddiad banc. Darperir cymorth ychwanegol wyneb yn wyneb neu'n rhithwir yn unol â dewis y derbynnydd.

**Ble (lleoliad)**

Cymru. Mae pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru ond sy'n byw mewn mannau eraill hefyd yn gymwys cyhyd â'u bod yn parhau i dderbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, ac mewn cysylltiad â'r awdurdod hwnnw.

**Pryd a faint**

Taliadau misol o £1280 (net) neu daliadau dwywaith y mis o £640 (net) dros gyfnod o 24 mis, gan amlaf yn dechrau'r mis ar ôl 18fed pen-blwydd y derbynnydd. Gall derbynwyr hefyd ddewis talu eu landlord yn uniongyrchol o'r taliadau, gan leihau eu swm misol neu ddwywaith y mis yn unol â hynny.

**Teilwra**

Caiff y ddarpariaeth ei theilwra ar gyfer pobl ifanc sydd â phenodai/dirprwy i ddarparu cefnogaeth iddynt. Hefyd, gallai person ifanc sy’n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol gael ei atal rhag cyfranogi.

**Amodau rheoli**

Nid yw hwn yn brawf rheoli ar hap. Sefydlwyd grŵp cymharu er mwyn gallu gwneud cymhariaeth rhwng y garfan sy'n derbyn y taliad a'u cyfoedion sy'n troi'n 18 oed rhwng 01 Gorffennaf 2023 a 30 Mehefin 2024.

Ffynhonnell, Llywodraeth Cymru 2023

**Atodiad 1: Canllaw pynciau cyfweliad enghreifftiol ar gyfer pobl ifanc**

Ymarfer rhagarweiniol: Gofynnwyd i bob cyfranogwr feddwl am hyd at dri gair i ddisgrifio'r cynllun peilot neu eu profiadau ohono.

1. Safbwyntiau ar ddyluniad y cynllun peilot:

- Y rhai sy'n gadael gofal fel derbynyddion
- Grŵp oedran
- Swm yr arian a ddarperir
- Hyd y cynllun peilot - dwy flynedd
- Pecyn cymorth yn y polisi

2. Pecyn cymorth

- Cymorth gan Gynghorydd Personol
- Cymorth gan Gyngor ar Bopeth
- Cymorth gan eraill
- Sut y gwnaed penderfyniadau ynglŷn â'r taliadau incwm sylfaenol

3. Taliadau incwm sylfaenol

- Defnyddio'r taliadau incwm sylfaenol
- Profiad o reoli'r arian

4. Effaith Ganfyddedig

- Sut mae'n treulio amser (e.e., diwrnod nodweddiadol)
- Effaith ganfyddedig y cynllun peilot (e.e., ar iechyd, lles, gwaith/addysg, gwirfoddoli/sgiliau bywyd, cyfranogiad/ymgysylltiad cymunedol, diogelwch/llythrennedd ariannol, lliniaru tlodi)
- Unrhyw beth cadarnhaol am y cynllun peilot
- Unrhyw heriau yn gysylltiedig â'r cynllun peilot

5. Diwedd y cynllun peilot

- Teimladau ynglŷn â diwedd y cynllun peilot
- Gobeithion a nodau ar gyfer y dyfodol, ac a yw'r cynllun peilot wedi cefnogi'r rhain

6. I gloi:

- Sylw terfynol - rhywbeth yr hoffent ei ailadrodd neu sylw nad ydynt wedi cael cyfle i'w wneud eto.

**Atodiad 2: Canllaw pynciau cyfweliad enghreifftiol ar gyfer oedolion sy’n gefnogwyr**

Ymarfer rhagarweiniol: Gofynnwyd i bob cyfranogwr feddwl am hyd at dri gair i ddisgrifio'r cynllun peilot neu eu profiadau ohono.

1. Safbwyntiau ar ddyluniad y cynllun peilot:

- Y rhai sy'n gadael gofal fel derbynyddion
- Grŵp oedran
- Swm yr arian a ddarperir
- Hyd y cynllun peilot - dwy flynedd
- Pecyn cymorth yn y polisi

2. Cyflwyno’r cynllun peilot

- Cymorth a roddwyd i'r derbynnydd (e.e., gan Gynghorydd Personol, Cyngor ar Bopeth)
- Rôl wrth gynorthwyo'r derbynnydd, gan gynnwys unrhyw newidiadau ers dechrau'r cynllun peilot
- Effaith ganfyddedig y cynllun peilot ar gyfer y derbynnydd (e.e., ar iechyd, lles, gwaith/addysg, gwirfoddoli/sgiliau bywyd, cyfranogiad/ymgysylltiad cymunedol, diogelwch/llythrennedd ariannol, lliniaru tlodi)
- Unrhyw beth cadarnhaol am y cynllun peilot
- Unrhyw brofiadau annisgwyl neu negyddol o’r cynllun peilot
- Ymgysylltiad y derbynnydd â gwasanaethau ac unrhyw effaith y cynllun peilot
- Cyfrifiad 'Gwell eich Byd'
- Sut y gwnaed penderfyniadau ynglŷn â’r taliadau incwm sylfaenol
- Teimladau ynglŷn â diwedd y cynllun peilot

3. I gloi:

- Sylw terfynol - rhywbeth yr hoffent ei ailadrodd neu sylw nad ydynt wedi cael cyfle i'w wneud eto.

**Atodiad 3: Canllaw pynciau grŵp ffocws enghreifftiol ar gyfer gweithwyr proffesiynol**

Ymarfer rhagarweiniol: Gofynnwyd i bob cyfranogwr feddwl am hyd at dri gair i ddisgrifio'r cynllun peilot neu eu profiadau ohono.

1. Safbwyntiau ar ddyluniad y cynllun peilot:

- Y rhai sy'n gadael gofal fel derbynyddion
- Grŵp oedran
- Swm yr arian a ddarperir
- Hyd y cynllun peilot - dwy flynedd
- Pecyn cymorth yn y polisi

2. Gweithredu'r cynllun peilot yn genedlaethol ac yn lleol (**a ofynnwyd i reolwyr ac uwch reolwyr**):

- Profiad o eglurder nodau'r polisi a'r hyn a ddisgwyliwyd gan awdurdodau lleol
- Cymorth ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru a darparwyr eraill a gomisiynwyd
- Profiadau cadarnhaol a heriau wrth weithredu hyd yn hyn (ar gyfer awdurdodau lleol)
- Newidiadau i gostau eraill sy'n gysylltiedig â chynorthwyo derbynyddion

3. Manylion y rôl wrth gynorthwyo pobl ifanc ar Gynllun Peilot Incwm Sylfaenol Cymru (**a ofynnwyd i Gynghorwyr Personol a Chyngor ar Bopeth**):

- Y cymorth a roddir i dderbynyddion (e.e., cyngor ar gyllidebu)
- Pethau sy'n debyg/yn wahanol i'r cymorth a ddarperir fel arfer
- Cyfrifiadau 'Gwell eich Byd'
- Penderfyniadau ynglŷn â'r taliadau incwm sylfaenol
- Unrhyw effaith y mae'r taliadau incwm sylfaenol yn ei chael ar ffynonellau cyllid eraill
- Cynnal cysylltiad â'r derbynyddion
- Cymorth ar ôl i'r cynllun peilot ddod i ben
- Y berthynas rhwng Cynghorwyr Personol a Chyngor ar Bopeth

4. Effaith ar y rôl (**a ofynnwyd i Gynghorwyr Personol**):

- Tasgau / cyfrifoldebau ychwanegol
- Llai o dasgau gan fod y cynllun peilot ar waith bellach?

5. Effaith Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Cymru ar gyfer pobl ifanc:

- Pethau cadarnhaol am y cynllun peilot i bobl ifanc
- Profiadau annisgwyl neu negyddol i bobl ifanc

- Ymgysylltiad pobl ifanc â Chynghorwyr Personol a Chyngor ar Bopeth

6. I gloi:

- Sylw terfynol - rhywbeth yr hoffent ei ailadrodd neu sylw nad ydynt wedi cael cyfle i'w wneud eto.

## Atodiad 4: Canllaw pynciau grŵp ffocws enghreifftiol ar gyfer tîm polisi Llywodraeth Cymru

Ymarfer rhagarweiniol: Gofynnwyd i bob cyfranogwr feddwl am hyd at dri gair i ddisgrifio'r cynllun peilot neu eu profiadau ohono.

1. Dyluniad y cynllun peilot:
    - Meddyliau, ofnau a dyheadau cychwynnol
    - Ystyriaethau moesegol yn ystod y cam dylunio a'r cam cyflwyno
    - Myfyrdodau ar y broses gyflwyno
    - Y pryder mwyaf cyn lansio'r cynllun peilot
2. Profiad o weithredu
    - Meddyliau ar yr agwedd gymhleth ar gyflwyno'r cynllun peilot
    - Unrhyw heriau annisgwyl
    - Unrhyw agweddau sydd wedi mynd yn arbennig o dda
    - Profiad o gyflwyno'r cynllun peilot mewn partneriaeth â llawer o randdeiliaid
    - Profiad o unrhyw ganlyniadau annisgwyl a chanlyniadau cadarnhaol
    - Cyngor i eraill sy’n ystyried cynnal cynllun peilot
3. Myfyrdodau ar bedair egwyddor sylfaenol y cynllun peilot a amlinellwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol:
    - Egwyddor un: Ni ddylai cymryd rhan yn y cynllun peilot wneud unrhyw dderbynnydd yn waeth ei fyd
    - Egwyddor dau: Ni ddylid gosod unrhyw amodau ar yr incwm a dderbynnir
    - Egwyddor tri: Dylid talu'r un taliad i bawb
    - Egwyddor pedwar: Ni fydd y taliad yn cael ei newid hanner ffordd drwy'r cynllun peilot
4. Diddordeb allanol a chyfranogiad yn y cynllun peilot:
    - Sylw cenedlaethol a rhyngwladol i’r cynllun peilot
    - Rheoli disgwyliadau
    - Rôl Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y cynllun peilot
    - Brwdfrydedd gwleidyddol ynglŷn â’r cynllun peilot
    - Unrhyw gysylltiad â'r rhai sy'n ymgyrchu dros gynllun peilot incwm sylfaenol yn yr Alban
5. I gloi:

- Sylw terfynol - rhywbeth yr hoffent ei ailadrodd neu sylw nad ydynt wedi cael cyfle i'w wneud eto.

**Atodiad 5: Trosolwg lefel uchel o rai dyddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun peilot a'i weithredu.**

| Llinell amser / dyddiadau | Gweithgaredd |
|---|---|
| Gorffennaf 2021 | Ymrwymiad i dreialu incwm sylfaenol yn y Rhaglen Lywodraethu |
| Gorffennaf 2021 | Sefydlwyd Grŵp Gweithredol a Grŵp Llywio a dechreuodd gyfarfodydd. Dechreuwyd ymgysylltu â rhanddeiliaid. |
| Chwefror 2022 | Cyhoeddi’r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn ffurfiol |
| Mawrth 2022 | Digwyddiad rhanddeiliaid Cymru gyfan gyda thimau gadael gofal awdurdodau lleol |
| Ebrill 2022 | Tîm polisi yn mynychu Fforwm Gadael Gofal Cymru Gyfan |
| Ebrill 2022 | Canllawiau cyflwyno drafft yn cael eu rhoi i awdurdodau lleol |
| Mai i Gorffennaf 2022 | Cyfarfodydd un-i-un awdurdodau lleol |
| Mehefin 2022 | Lansio’r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy’n Gadael Gofal yng Nghymru |
| Gorffennaf 2022 | Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn dechrau cofrestru ar y cynllun peilot ac mae'r taliadau'n dechrau |
| Gorffennaf 2022 | Cynhaliodd CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) gyfarfodydd ag awdurdodau lleol ynglŷn â budd-dal tai |

| | |
|---|---|
| Gorffennaf 2022 | Cyfarfodydd â Phenaethiaid Gwasanaeth awdurdodau lleol |
| Hydref 2022 | Sesiynau gwybodaeth awdurdodau lleol |
| Hydref a Tachwedd 2022 | Cyfarfodydd un-i-un awdurdodau lleol |
| Ionawr a Chwefror 2023 | Cyfarfodydd un-i-un awdurdodau lleol |
| Mawrth 2023 | Cyhoeddi data monitro chwe mis a diweddariad |
| Ebrill a Mai 2023 | Cyfarfodydd un-i-un awdurdodau lleol |
| Gorffennaf 2023 | Cyfarfodydd Ymarferwyr Incwm Sylfaenol Gogledd a De Cymru |
| Medi 2023 | Cyhoeddi data monitro 12 mis a diweddariad |
| Medi 2023 | Cyfarfodydd un-i-un awdurdodau lleol |
| Hydref 2023 | Digwyddiadau gweinidogol i randdeiliaid yn Aberystwyth, Conwy a Chaerdydd |
| Ionawr 2024 | Presenoldeb yn Fforwm Gadael Gofal Cymru Gyfan |
| Chwefror 2024 | Cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso blynyddol cyntaf |
| Mawrth 2024 | Cyfarfodydd un-i-un awdurdodau lleol |
| Ebrill 2024 | Cyfarfodydd Ymarferwyr Incwm Sylfaenol Gogledd a De Cymru |
| Gorffennaf 2024 | Mae'r derbynyddion yn dechrau gadael y cynllun peilot |
| Medi 2024 | Datganiad ysgrifenedig a chyhoeddi'r data monitro diweddaraf |
| Medi 2024 | Cyfarfodydd un-i-un awdurdodau lleol |

| | |
|---|---|
| Hydref 2024 | Cyfarfodydd Ymarferwyr Incwm Sylfaenol Gogledd a De Cymru |
| Mehefin 2025 | Diwedd ffurfiol y cynllun peilot |